



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Ymgynghoriad ar gynigion i fynd i'r afael â throseddau a pherfformiad gwael yn y sector gwastraff a chyflwyno cosb benodedig newydd ar gyfer y ddyletswydd gofal o ran gwastraff

Ionawr 2018



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Crynodeb gweithredol

Yr achos o blaid gweithredu

1. Mae'r DU yn anelu at ddod yn arweinydd byd-eang o ran effeithlonrwydd adnoddau a chynhyrchiant adnoddau a dod yn fwy cystadleuol. Rydym yn anelu at gyflawni ein huchelgeisiau o ran dyblu cynhyrchiant adnoddau a dim gwastraff y gellir ei osgoi erbyn 2050, gan sicrhau ein bod yn cael y gwerth mwyaf posibl o'n hadnoddau ac yn lleihau'r effeithiau amgylcheddol negyddol sy'n gysylltiedig â'u cynhyrchu, eu defnyddio a'u gwaredu.
2. Mae safleoedd gwastraff sy'n gweithredu o dan drwydded neu eithriad yn chwarae rhan hanfodol i reoli gwastraff drwy'r gadwyn adnoddau er mwyn cyflawni'r lefelau uchaf o effeithlonrwydd adnoddau. Mae gweithgarwch troseddol a pherfformiad gwael yn y diwydiant gwastraff yn tanseilio'r uchelgais hwn drwy greu cyfleoedd i gael gwared ar wastraff yn anghyfreithlon, cael gwared ar wastraff yn rhad neu dipio anghyfreithlon. O ganlyniad, ni chaiff adnoddau eu hailgylchu na'u hadfer a'u dychwelyd i'r economi er mwyn cynyddu effeithlonrwydd adnoddau.
3. Caiff troseddau gwastraff effeithiau difrifol ar yr amgylchedd naturiol drwy lygredd i aer, dŵr a thir. Mae cymunedau yn dioddef arogleuon, sbwriel, llwch, fermin a phlâu o safleoedd gwastraff â lefelau perfformiad gwael neu wastraff a gaiff ei dipio'n anghyfreithlon. Os ceir tanau mewn safleoedd gwastraff sydd wedi'u lleoli ger seilwaith allweddol ac amwynderau lleol, mae perygl y bydd yn rhaid cau prif ffyrdd, rheilffyrdd, ysgolion ac ysbytai, ac yr effeithir yn andwyol ar amwynderau cymunedau cyfagos hefyd.
4. Mae cost economaidd troseddau gwastraff yn sylweddol. Amcangyfrifodd y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol (ESA) eu bod wedi costio rhwng £568m ac £808m¹ y flwyddyn i economi'r DU yn 2013, a bod cost o £604m² o leiaf i economi Lloegr yn 2015. Roedd cost o £15 miliwn o leiaf i economi Cymru yn 2015³. Mae'r prif gostau economaidd yn cynnwys y referniw busnes a gollir gan y sector gwastraff cyfreithlon, colli Treth Dirlenwi drwy gamddosbarthu gwastraff a chostau i'r sector cyhoeddus o ran clirio safleoedd gwastraff segur a gwastraff sydd wedi'i dipio'n anghyfreithlon.

¹ Y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol (2014) Waste crime: Tackling Britain's dirty secret - http://www.esauk.org/esa_reports/ESAET_Waste_Crime_Tackling_Britains_Dirty_Secret_LIVE.pdf

² Y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol (2017) Rethinking Waste Crime - http://www.esauk.org/esa_reports/20170502_Rethinking_Waste_Crime.pdf

³ Adroddiad Adolygiad Troseddau Gwastraff Cyfoeth Naturiol Cymru (2017) (Eunomia). Mae ar gael ar gais.

5. Mae sawl ffactor yn gysylltiedig ag achosion troseddau gwastraff a pherfformiad gwael ac maent yn gymhleth. Cyfrannodd y penderfyniad i gyflwyno'r Dreth Dirlenwi yn sylweddol at y cynnydd o ran ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer gwastraff yn ystod yr 20 mlynedd ddiwethaf. O ganlyniad, cafwyd gostyngiad o 80% yn y gwastraff dinesig a anfonwyd i safleoedd tirlenwi yn y DU, gan ddwyn manteision amlwg i'r amgylchedd a threthdalwyr. Fodd bynnag, mae troseddwyr wedi manteisio ar y cynnydd hwn mewn costau gwaredu gwastraff yn gyfreithlon drwy gasglu neu storio gwastraff am brisiau is heb unrhyw fwriad o'i adfer na'i waredu'n briodol.
6. Mae unigolion â bryd troseddol yn dewis ymuno â'r diwydiant yn fwriadol oherwydd y gofynion mynediad isel, y gallu i wneud elw mawr mewn amser byr, a'r risg ganfyddedig isel o gael eich dal ac o gamau gorfodi dilynol. Yn ogystal, mae gan y diwydiant ormod o berfformwyr gwael o hyd nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau eu trwydded na'u heithriad gwastraff, naill ai'n fwriadol, neu drwy esgeulustod.
7. Mae gan bob person sy'n ymdrin â gwastraff neu'n cynhyrchu gwastraff, boed yn gwmni gwastraff amlwladol neu'n ddeiliad tŷ, ddyletswydd gofal i sicrhau yr ymdrinnir â gwastraff yn briodol ac na chaiff ei waredu'n anghyfreithlon. Lle nad yw cartrefi yn cadarnhau y caiff y gwastraff a gaiff ei gludo ymaith ei reoli'n briodol, mae hyn yn ei gwneud hi'n hawdd i droseddwyr gynnig gwasanaethau casglu gwastraff gan dipio'r gwastraff wedyn yn anghyfreithlon ac yn ddiwahân.

Ein dull gweithredu

8. Rydym yn ymrwymedig i fynd i'r afael â throseddau gwastraff a pherfformiad gwael. Mae llywodraeth y DU wedi dyrannu swm ychwanegol o £30 miliwn i Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer y pedair blynedd nesaf ar ben y swm o £23 miliwn a ddyrannwyd yn Adolygiad o Wariant 2015. Mae'r cyllid hwn wedi'i ddyrannu'n benodol i fynd i'r afael â throseddau gwastraff yn Lloegr er mwyn sicrhau bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn cael yr adnoddau sydd eu hangen. Rydym wedi rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer achosion o dipio anghyfreithlon ar raddfa fach, yn ogystal â phwerau i atafaelu a gwasgu unrhyw gerbydau cysylltiedig, ac wedi gweithio gyda Cyllid a Thollau EM i fynd i'r afael ag achosion o dwyll mewn perthynas â'r Dreth Dirlenwi. Yn ddiweddar, tynhawyd canllawiau dedfrydu ar gyfer y rhai a gaiff eu heuogfarnu o droseddau gwastraff, gan gynnwys tipio anghyfreithlon.
9. Yn 2015, cyhoeddwyd ymgynghoriad⁴ gennym ynghylch gwella pwerau gorfodi ar safleoedd gwastraff. Rydym wedi bwrw ymlaen â chwech o'r newidiadau deddfwriaethol a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad. Rhoddwyd pedwar o'r cynigion ar

⁴ https://consult.defra.gov.uk/waste/enhanced_powers_to_tackle_waste_crime/

waith ym mis Hydref 2015⁵. Bydd y ddau gynnig sy'n weddill yn galluogi'r rheoleiddwyr i sicrhau na all unigolion gael mynediad i safleoedd, ac yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid a thirfeddianwyr safleoedd gwastraff symud yr holl wastraff ar safle, nid dim ond y gwastraff a ddodwyd yno'n anghyfreithlon. Caiff y cynigion hyn eu gosod gerbron y Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru cyn hir.

10. Gwnaethom gais hefyd am dystiolaeth yn 2015 ar nifer o gamau i fynd i'r afael â throeddau gwastraff a pherfformiad gwael ar safleoedd gwastraff. Yn dilyn cefnogaeth eithriadol i roi'r camau hyn ar waith, a gwaith ymgysylltu pellach â'r diwydiant gwastraff, rydym wedi datblygu cynigion ac rydym yn bwriadu gofyn am safbwyntiau ar y cynigion hynny fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Ers y cais am dystiolaeth, rydym wedi gwrando ar safbwyntiau'r diwydiant am gamau eraill a all helpu i fynd i'r afael â throeddau gwastraff a pherfformiad gwael. Rydym hefyd yn gofyn am safbwyntiau drwy'r broses ymgynghori hon.
11. Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) hefyd yn datblygu dull gweithredu strategol mewn perthynas â throeddau gwastraff a thipio anghyfreithlon fel rhan o'r Strategaeth Adnoddau a Gwastraff. Bydd hyn yn nodi mesurau pellach er mwyn: 1) atal troeddau gwastraff rhag digwydd yn y lle cyntaf, drwy wella safonau a sicrhau bod pawb yn gweithredu'n unol â'r un rheolau, 2) canfod troeddau gwastraff a chymryd camau cyflym drwy ddefnyddio data a chudd-wybodaeth gan wahanol asiantaethau a 3) atal gweithgarwch anghyfreithlon drwy gymryd camau gorfodi cyflym a llym.

Ffocws yr ymgynghoriad hwn

12. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar y canlynol:
 - a. Codi safon cymhwysedd gweithredwyr ar bob safle gwastraff trwyddedig drwy atgyfnerthu galluedd asesu a gorfodi rheoleiddwyr.
 - b. Diwygio elfen eithriadau'r gyfundrefn trwyddedu gwastraff.
 - c. Cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig ar gyfer troeddau Dyletswydd Gofal cartrefi am dipio anghyfreithlon.
13. Rydym yn gwahodd sefydliadau ac unigolion i anfon eu safbwyntiau a thystiolaeth i ategu a llywio ein cyfeiriad a'r opsiynau polisi ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â mynd i'r afael â throeddau gwastraff a pherfformwyr cyson wael.

⁵ Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 3) 2015 (O.S. 2015/1756)

Cynnwys

Cyflwyniad	1
1. Diben yr ymgynghoriad	1
2. Cwmpas daearyddol a diffiniadau	2
3. Cynulleidfa	3
4. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn	3
5. Hyd.....	4
6. Ar ôl yr ymgynghoriad	4
Amdanoch chi	6
Rhan A: Codi safon cymhwysedd gweithredwyr ar safleoedd gwastraff trwyddedig.....	8
1. Cefndir	8
2. Yr achos o blaid gweithredu.....	9
3. Ein dull gweithredu.....	11
4. Cynigion	12
4.1. Perfformiad yn y Gorffennol	12
4.2. Systemau Rheoli	19
4.3. Cymhwysedd technegol	22
4.4. Cymhwysedd a darpariaeth ariannol.....	28
5. Costau a manteision amcangyfrifedig y cynigion	35
RHAN B: Diwygio eithriadau gwastraff.....	38
1. Cefndir	38
2. Yr achos o blaid gweithredu	39
2.1. Casglu tystiolaeth.....	40
2.2. Canfyddiadau	41
2.3. Defnyddio eithriadau i guddio gweithgareddau anghyfreithlon	42

3.	Ein dull gweithredu	43
3.1.	Ar gyfer beth y dylid caniatáu eithriadau?	43
3.2.	Ar ba ffurf y dylid cyflwyno eithriadau?	44
3.3.	Pa ran y dylai eithriadau ei chwarae yn y gyfundrefn reoleiddiol?	44
3.4.	Pa weithrediadau gwastraff na ddylid eu heithrio?	44
4.	Cynigion	45
4.1.	Gwahardd y defnydd o eithriadau gwastraff o dan amgylchiadau penodedig	45
4.2.	Newidiadau i eithriadau penodol	49
4.3.	Ei gwneud yn ofynnol cyflwyno gwybodaeth ychwanegol er mwyn ategu trefniadau rheoleiddio effeithiol	68
4.4.	Gwell trefniadau rheoleiddio ar gyfer eithriadau	70
4.5.	Darpariaethau trosiannol	71
5.	Costau a manteision amcangyfrifedig y cynigion	72
Rhan C: Hysbysiad cosb benodedig mewn perthynas â dyletswydd gofal		75
1.	Cefndir	75
2.	Yr achos o blaid gweithredu	76
2.1.	Yr opsiynau presennol ar gyfer gorfodi'r ddyletswydd gofal mewn perthynas â deiliaid tai.....	76
2.2.	Hysbysiadau cosb benodedig	76
3.	Ein dull gweithredu	78
4.	Cynnig.....	78
4.1.	Gwella ymwybyddiaeth deiliaid tai.....	78
4.2.	Sut y gellid defnyddio hysbysiadau cosb benodedig	79
4.3.	Cosbau arfaethedig ar gyfer hysbysiadau cosb benodedig mewn perthynas â dyletswydd gofal deiliaid tai	81
4.4.	Proses apelio	83
Atodiadau.....		85

Oherwydd eu natur dechnegol, mae atodiadau ar gael yn y fersiwn Saesneg.....85

Atodiad 13 – Ffurflen Holi ac Ateb.....86

Cyflwyniad

Mae a wnelo'r ddogfen hon â mynd i'r afael â throseddau a pherfformiad gwael yn y sector gwastraff. Rhennir yr ymgynghoriad yn dair adran. Mae **Rhan A** yn canolbwyntio ar godi safon cymhwysedd gweithredwyr ym mhob safle gwastraff trwyddedig drwy atgyfnerthu galluoedd asesu a gorfodi'r rheoleiddwyr. Mae a wnelo **Rhan B** â diwygio cyfundrefn eithriadau'r system trwyddedu gwastraff. Mae **Rhan C** yn nodi cynigion ar gyfer Hysbysiad Cosb Benodedig ar gyfer troseddau Dyletswydd Gofal cartrefi mewn perthynas â thipio anghyfreithlon.

Cyhoeddir dau asesiad drafft o'r effaith sy'n amcangyfrif y costau a'r manteision sy'n deillio o'r cynigion yn Rhan A a Rhan B ar y cyd â'r ymgynghoriad hwn. Ystyriwyd yr asesiadau drafft hyn o'r effaith gan y Pwyllgor Polisi Rheoleiddiol (PPRh), sef corff cyhoeddus anadrannol cynghorol annibynnol sy'n craffu ar y dystiolaeth a'r gwaith dadansoddiad sy'n ategu'r amcangyfrifon o gostau a manteision mewn cynigion rheoliadol. Nid oedd y PPRh yn fodlon bod yr asesiadau o'r effaith yn rhoi digon o dystiolaeth i ategu'r cynigion, a gofynnodd am iddynt gael eu hadolygu ymhellach (gweler Adran 5 yn Rhan A a B am ragor o fanylion). Byddwn yn adolygu'r asesiadau o'r effaith er mwyn ymdrin â phryderon y PPRh ochr yn ochr â'r ymgynghoriad. Byddwn hefyd yn defnyddio'r ymatebion i'r ymgynghoriad i wella'r dadansoddiad. Dim ond ar ôl iddynt gael barn addas at y diben gan y PPRh y caiff asesiadau diwygiedig o'r effaith eu cyhoeddi ochr yn ochr ag Ymateb terfynol y llywodraeth i'r ymgynghoriad. Ni chafodd unrhyw asesiad o'r effaith ei ddatblygu ar gyfer Rhan C, gan nad yw'r cynigion yn cael unrhyw effaith ar fusnesau. Fodd bynnag, mae Rhan C yn cynnwys cwestiynau ar gostau a manteision posibl y cynigion.

Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a Llywodraeth Cymru yn gofyn am safbwyntiau am y dull gweithredu arfaethedig ac yn gwahodd sylwadau erbyn Mawrth 26 2018.

1. Diben yr ymgynghoriad

Yn 2015, cyhoeddodd Defra a Llywodraeth Cymru gais am dystiolaeth⁶ gan nodi amrywiaeth o gamau mewn ymateb i alwadau gan y diwydiant gwastraff i'r llywodraeth

⁶ https://consult.defra.gov.uk/waste/enhanced_powers_to_tackle_waste_crime/

wneud mwy i atal troseddau gwastraff. Fel y nodwyd yn ymateb y llywodraeth yn 2015⁷, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gefnogol i'r llywodraeth roi'r camau ar waith.

Ers hynny, rydym wedi gweithio gyda'r rheoleiddwyr a'r diwydiant gwastraff i ddatblygu'r cynigion i fynd i'r afael â throseddau a pherfformiad gwael yn y sector gwastraff. Rydym wedi profi cyfeiriad y cynigion gyda'r diwydiant gwastraff mewn gweithdy ar wella safon cymhwysedd gweithredwyr ym mis Gorffennaf 2016 a gweithdy ar adolygu'r gyfundrefn eithriadau ym mis Chwefror 2017.

Yn 2016, gofynnodd Adolygiad Lleihau Biwrocratiaeth⁸ hefyd i fusnesau, cymdeithasau masnach ac arbenigwyr o'r diwydiant nodi enghreifftiau lle mae rheoleiddio yn atal twf, arloesedd a chynhyrchiant yn y sector gwastraff. Cafodd yr adolygiad hwn ymatebion am droseddau gwastraff yn ogystal â beichiau rheoleiddiol ac mae'r canfyddiadau yn cydnabod bod cysylltiad agos rhwng y ddau fater. Mae trefniadau rheoleiddio doeth a chymesur a gaiff eu gorfodi'n effeithiol yn hanfodol i reoli gwastraff. Maent yn diogelu'r amgylchedd ac iechyd pobl yn ogystal ag amddiffyn gweithredwyr cyfreithlon rhag y lleiafrif bach sy'n torri'r rheolau. Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn gweithredu ar ran o'r cynllun gweithredu a nodwyd yn yr Adolygiad Lleihau Biwrocratiaeth er mwyn rhoi cyfle i'r llywodraeth gyfeirio ei hadnoddau at fynd ar drywydd y rhai sy'n torri'r gyfraith ac yn tanseilio buddsoddiad gan weithredwyr cyfreithlon a'u herlyn.

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn nodi cynigion i godi ymwybyddiaeth deiliaid tai o'u dyletswydd gofal o ran gwastraff, ac yn cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig i roi dull gweithredu mwy cymesur a llai costus i awdurdodau lleol yn lle erlyn yn y llys ddeiliaid tai sy'n methu â throsglwyddo eu gwastraff i gludwyr gwastraff awdurdodedig.

Rydym bellach yn gofyn am safbwyntiau gan y diwydiant gwastraff, awdurdodau lleol ac eraill ar y cynigion.

2. Cwmpas daearyddol a diffiniadau

Dim ond i Gymru a Lloegr y mae'r ddogfen hon a'r disgrifiadau o'r gyfraith yn berthnasol.

Yn rhan A a B, mae cyfeiriadau at 'y rheoleiddwyr' neu 'reoleiddwyr' yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Fodd bynnag, caiff rhai cyfleusterau sy'n gweithredu o dan y gyfundrefn trwyddedu amgylcheddol eu rheoleiddio gan awdurdodau

⁷ https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/466879/waste-crime-consult-sum-resp.pdf

⁸ <https://www.gov.uk/government/publications/waste-and-recycling-sector-cutting-red-tape-review>

lleol. Felly, lle y bo'n briodol, caiff awdurdodau lleol eu cynnwys wrth gyfeirio at 'y rheoleiddwyr' neu 'reoleiddwyr'.

Yn rhan C, mae cyfeiriadau at 'y rheoleiddwyr' neu 'reoleiddwyr' yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol.

Oni nodir yn wahanol, mae 'y llywodraeth' neu 'ni' yn cyfeirio at Lywodraeth Cymru a llywodraeth y DU.

3. Cynulleidfa

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu'n bennaf at y canlynol (ond nid dim ond atynt hwy):

- gweithredwyr cyfleusterau gwastraff trwyddedig ac eithriedig
- awdurdodau lleol
- cynhyrchwyr gwastraff
- broceriaid a delwyr gwastraff
- cludwyr gwastraff
- sefydliadau proffesiynol a sefydliadau aelodaeth perthnasol
- ymgynghorwyr sy'n gweithredu yn y sector gwastraff ac adnoddau

Gan fod y cynigion hyn yn berthnasol i bob gweithredwr cyfleusterau gwastraff a reoleiddir a gweithgareddau gwastraff eithriedig, bydd yr ymgynghoriad hwn hefyd o ddiddordeb i bob busnes ledled Cymru a Lloegr sy'n meddu ar drwydded wastraff neu eithriad gwastraff cofrestredig.

4. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

A fyddech cystal ag ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy ddefnyddio'r hwb ymgynghori 'Citizen Space' yn Defra: <https://consult.defra.gov.uk/waste/crime-and-poor-performance-in-the-waste-sector>

Drwy e-bost i: Wastecrime.Consultation@defra.gsi.gov.uk neu drwy ysgrifennu i:

Waste Regulation and Crime
Defra
Area 2B, Nobel House
17 Smith Square
London SW1P 3JR

Dylid anfon ymatebion sy'n ymwneud â Chymru:

Drwy e-bost i: waste@gov.wales neu'n ysgrifenedig i:

Yr Is-adran Gwastraff ac Effeithlonrwydd Adnoddau
Yr Adran Cyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

5. Hyd

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para am **10 wythnos**. Mae hyn yn unol ag 'Egwyddorion Ymgynghori' Swyddfa'r Cabinet sy'n cynghori adrannau'r llywodraeth i fabwysiadu gweithdrefnau ymgynghori cymesur.

Mae'r ymgynghoriad yn agor Ionawr 15 2018

Mae'r ymgynghoriad yn dod i ben Mawrth 26 2018

6. Ar ôl yr ymgynghoriad

Ar ôl yr ymgynghoriad, cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a chaiff ei gyhoeddi a'i osod ar wefannau'r llywodraeth yn www.llyw.cymru a www.gov.uk/defra.

Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o enwau a sefydliadau a ymatebodd, ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill. Fodd bynnag, gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ddogfen ymgynghori hon, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei rhyddhau i bartïon eraill, neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth e.e. Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998.

Os hoffech i wybodaeth, gan gynnwys data personol, a ddarparwyd gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech nodi hyn yn glir yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad gan nodi pam yr hoffech gadw'r manylion hyn yn gyfrinachol. Os byddwn yn cael cais i ddatgelu gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn warantu y gellir sicrhau cyfrinachedd bob amser. Ni chaiff ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG ei ystyried yn gais am gyfrinachedd ynddo'i hun.

Caiff yr ymgynghoriad hwn ei gynnal yn unol â'r "Egwyddorion Ymgynghori" fel y'u nodir yng nghanllawiau'r Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio yn <https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, dylid eu hanfon at:

Drwy e-bost: consultation.coordinator@defra.gsi.gov.uk, neu'n ysgrifennu i:

Consultation Co-ordinator

Defra

8A, 8th Floor

Nobel House

17 Smith Square

London SW1P 3JR

Amdanoch chi

Mae amrywiaeth eang o fusnesau, sefydliadau ac unigolion yn ymwneud â'r sector gwastraff neu'n dangos diddordeb yn y sector. Nod y cwestiynau isod yw deall yr amrywiaeth hon a gosod eich ymatebion yn eu cyd-destun ag ymatebion ymatebwyr eraill.

a) Beth yw eich enw?

b) Beth yw eich cyfeiriad e-bost?

c) Beth yw eich sefydliad?

d) A hoffech i'ch ymateb fod yn gyfrinachol?

e) A ydych yn ymateb fel neu ar ran:

a) unigolyn

b) awdurdod lleol

c) busnes

d) math arall o sefydliad

Os mai d) oedd eich ateb, nodwch

f) Os ydych yn ymateb fel unigolyn:

a) a ydych yn rhedeg eich busnes gwastraff eich hun

b) a ydych yn gweithio i fusnes neu sefydliad yn y sector gwastraff

c) a oes gennych ddiddordeb yn yr ymgynghoriad hwn am resymau eraill

Os mai c) oedd eich ateb, nodwch

g) Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fusnes, nodwch p'un a yw eich sefydliad neu'ch busnes:

a) yn rheoli gwastraff fel prif weithgaredd

b) yn rheoli gwastraff fel gweithgaredd eilaidd

c) yn cefnogi'r diwydiant gwastraff (e.e. corff masnach, ymgynghoriaeth)

d) a oes ganddo ddiddordeb yn y sector gwastraff am resymau eraill

Os mai b), c) neu d) oedd eich ateb, nodwch

h) A ydych chi, neu a yw'r busnes neu'r sefydliad rydych yn ei gynrychioli, yn cynnal gweithrediadau gwastraff o dan drwydded amgylcheddol?

a) Nac ydw/nac ydy

b) Ydw/ydy

Os mai Ydw/Ydy oedd eich ateb, nodwch

i) A ydych chi, neu a yw'r busnes neu'r sefydliad rydych yn ei gynrychioli, yn cynnal gweithrediadau gwastraff o dan eithriad gwastraff cofrestredig?

a) Nac ydw/nac ydy

b) Ydw/ydy

Os mai Ydw/Ydy oedd eich ateb, nodwch ba eithriadau:

U1 U16 T4 T6 T8 T9 T12 D7 S1 S2 arall

j) A ydych chi, neu a yw'r busnes neu'r sefydliad rydych yn ei gynrychioli, yn gludydd, brocer neu ddeliwr gwastraff cofrestredig?

a) Nac ydw/nac ydy

b) Ydw/ydy

Os mai Ydw/Ydy oedd eich ateb, nodwch

k) Os ydych mewn busnes neu'n rhan o sefydliad, ble mae wedi'i leoli?

a) Lloegr

b) Cymru

c) Rhywle arall

l) Faint o staff a gyflogir gan eich busnes neu'ch sefydliad?

a) Llai na 10

b) 10 – 49

c) 50 – 249

d) 250 neu fwy

e) Rwy'n ymateb fel unigolyn

Rhan A: Codi safon cymhwysedd gweithredwyr ar safleoedd gwastraff trwyddedig

Mae Rhan A o'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar gynigion i atgyfnerthu trefniadau asesu a gorfodi'r rheoleiddwyr mewn perthynas â chymhwysedd gweithredwyr er mwyn codi safon cymhwysedd ar yr holl safleoedd gwastraff trwyddedig.

1. Cefndir

Mae angen i weithredwyr safleoedd gwastraff trwyddedig fod yn gymwys er mwyn gweithredu eu safle yn llwyddiannus ac mewn ffordd sy'n diogelu'r amgylchedd ac iechyd pobl. Ystyr 'cymhwysedd' yn y cyd-destun hwn yw'r gallu i gydymffurfio ag amodau eu trwydded a gweithredu safle gwastraff yn effeithiol heb gael effaith negyddol ar yr amgylchedd na chymunedau lleol.

Ceir tystiolaeth gan y diwydiant gwastraff a rheoleiddwyr fod diffyg cymhwysedd yn achosi perfformiad gwael ym mhob rhan o'r sector. Mae'r rhesymau pam nad oes gan weithredwyr y lefelau cymhwysedd priodol yn amrywio. Er bod rhai gweithredwyr penodol yn dewis yn fwriadol peidio â chyflawni'r lefelau cymhwysedd sydd eu hangen i weithredu eu safle gwastraff yn unol â'u trwydded, nid yw gweithredwyr eraill yn ymwybodol o'r lefelau cymhwysedd sydd eu hangen arnynt.

Mae'n ofynnol i'r rheoleiddwyr asesu bod gan weithredwr y lefel cymhwysedd briodol sydd eu hangen i gyflawni rhwymedigaethau ei drwydded wastraff a gweithredu ei gyfleuster yn ddiogel. Pan ddisodlwyd y system trwyddedu rheoli gwastraff flaenorol yn 2007 gan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, newidiwyd pob trwydded rheoli gwastraff a oedd yn bodoli eisoes yn awtomatig i drwydded amgylcheddol heb ei diwygio, a heb gynnal unrhyw ailasesiad o gymhwysedd y gweithredwr. Gwnaed newidiadau i'r ffordd roedd cymhwysedd gweithredwr gwastraff yn cael ei asesu. Disodlwyd y prawf 'person addas a phriodol' blaenorol, fel y'i nodwyd mewn deddfwriaeth yn y gorffennol, a chyflwynwyd dull gweithredu cyffyrddiad ysgafnach. Mae paragraff 13 o Atodlen 5 i'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn nodi bod yn rhaid i reoleiddiwr wrthod cais am drwydded amgylcheddol os na all yr ymgeisydd fodloni'r rheoleiddiwr bod y canlynol yn wir:

- mai ef fydd gweithredwr y cyfleuster wedi'i reoleiddio;
- y bydd yn gweithredu'r cyfleuster wedi'i reoleiddio yn unol â'r drwydded amgylcheddol.

Mae'r Canllawiau Craidd ar Drwyddedu Amgylcheddol⁹ yn egluro sut y dylid cymhwyso'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn ymarferol ac mae Pennod 9 o'r canllawiau yn nodi cwmplas cymhwysedd gweithredwyr a sut y dylid ei gymhwyso. Gan ddefnyddio eu pwerau o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, gall y rheoleiddiwr wrthod cais, pennu amodau ar gyfer y drwydded neu gymryd camau gorfodi. Wrth arfer eu pwerau, rhaid i'r rheoleiddwyr ystyried y Canllawiau Craidd. Mae'r Canllawiau Craidd yn nodi y gall y rheoleiddiwr ystyried cymhwysedd gweithredwr ar unrhyw adeg, boed hynny fel rhan o benderfyniad ar gais neu yn ystod oes y drwydded, a chymryd camau priodol lle mae'r rheoleiddiwr yn canfod cymhwysedd annigonol gan weithredwr.

Amlinellir pedair elfen cymhwysedd gweithredwyr yn y Canllawiau Craidd: 1) perfformiad y gweithredwr yn y gorffennol, 2) systemau rheoli, 3) cymhwysedd technegol, a 4) cymhwysedd/darpariaeth ariannol.

Ers 2008, mae'r rheoleiddwyr wedi atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer gorfodi rhai elfennau penodol o gymhwysedd gweithredwyr drwy gynnwys amodau ar drwyddedau wrth roi neu drosglwyddo trwydded wastraff. Ar hyn o bryd, mae tua 11,800 o drwyddedau amgylcheddol sy'n ymwneud â gweithrediadau ar safleoedd neu osodiadau gwastraff. Amcangyfrifir bod tua 9,200 yn cynnwys amod sy'n ymwneud â chymhwysedd technegol a system reoli bellach. Fodd bynnag, nid yw tua 2,600 o drwyddedau a roddwyd cyn 2008 ac nas amrywiwyd ers hynny yn cynnwys amodau o'r fath. Mae hyn, yn anfwriadol, wedi creu anghydbwysedd yn y stoc trwyddedau gwastraff sy'n golygu diffyg chwarae teg.

Byddai pob trwydded a roddwyd cyn 2008 yn cael ei hamrywio yn y pen draw i gynnwys amodau cymhwysedd technegol a system rheoli, ond amcangyfrifir yn ôl y gyfradd amrywio bresennol, y byddai hyn yn cymryd tua 20 mlynedd ac felly ni fydd yn cyflawni'r cynnydd mewn safonau cymhwysedd sydd ei angen nawr ym mhob rhan o'r sector. Ni chredwn ychwaith ei bod yn briodol amrywio pob un o'r 2,000 o drwyddedau ar yr un pryd gan y byddai cost yr amrywiadau o reidrwydd yn dod i ran gweithredwyr, a byddai angen dargyfeirio arbenigedd trwyddedu prin oddi wrth ymdrin â cheisiadau eraill am drwyddedau.

2. Yr achos o blaid gweithredu

Y ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â pherfformiad gwael yw i'r rheoleiddwyr ymyrryd yn ystod y cam gwneud cais am drwydded er mwyn sicrhau bod gweithredwyr yn meddu ar y

⁹ https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/211852/pb13897-ep-core-guidance-130220.pdf

lefel cymhwysedd briodol yn y lle cyntaf neu beidio â rhoi trwydded os na all gweithredwr ddangos y lefel cymhwysedd briodol.

Mae'r rheoleiddwyr yn defnyddio Arfarniad Risg Gweithredwyr (OPRA) i bennu lefel y risg sy'n gysylltiedig â gweithgaredd. Mae cofnod cydymffurfiaeth gweithredwr yn rhan bwysig o'i risg gyffredinol. Gall gweithredwyr â hanes da o ran cydymffurfio â'r drwydded ddisgwyl y byddant ym mand A neu B ond bydd gweithredwyr â hanes o dorri amodau'r drwydded yn ddifrifol neu o wneud hynny sawl gwaith ym Mandiau D, E ac F.

Dengys tystiolaeth gan Asiantaeth yr Amgylchedd ¹⁰yn Lloegr, yn 2015/16, nad oedd deiliaid 465 (4%) o drwyddedau yn y diwydiant gwastraff yn llwyddo i gydymffurfio ag amodau'r drwydded a'u bod wedi'u gosod o fewn band D, E neu F. O'u plith, mae 203 yn berfformwyr cyson wael sydd wedi bod o fewn band D, E neu F ers dwy flynedd neu fwy. Yn 2015, roedd 69 (73%) o'r achosion difrifol o lygredd a achoswyd gan safleoedd gwastraff trwyddedig o fewn band D, E neu F. O blith y 14 o safleoedd gwastraff a ddynodwyd yn safleoedd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd yn 2015 gan y rheoleiddwyr, roedd 9 (64%) ohonynt ym mand D, E neu F. Dengys tystiolaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru, o blith y 603 o gyfleusterau gwastraff gweithredol trwyddedig yng Nghymru, fod 6.5% yn perfformio'n wael ac ym mand D, E neu F. Mae ymdrin â safleoedd lle ceir lefelau perfformiad gwael hefyd yn costio swm sylweddol uwch i'r rheoleiddiwr na'r swm a gaiff mewyn ffioedd o drwyddedau gan fod angen ymateb i gwynion ac ymyrryd yn amlach er mwyn gwella safonau.

Gall cymhwysedd gwael hefyd olygu y bydd gweithredwr safle yn methu â chydymffurfio â gofynion gorfodi'r rheoleiddwyr ac y bydd, yn y pen draw, yn gadael ei safle yn segur, gan olygu bod yn rhaid i'r llywodraeth glirio'r gwastraff sy'n weddill. Mae tua 40 o safleoedd segur yng Nghymru a Lloegr. Ni chaiff y gwastraff ar safleoedd segur ei storio na'i reoli yn unol ag amodau'r drwydded, gan gynyddu'r risg y ceir tanau a all gynnwys symiau mawr o wastraff a llosgi am gyfnodau estynedig. Mae'r costau i'r rheoleiddwyr a gwasanaethau lleol sy'n gysylltiedig ag ymdrin â'r tanau hyn yn sylweddol. Er enghraifft, roedd y costau yr aeth Brigâd Dân Llundain iddynt wrth ymateb i un safle yn Llundain yn ystod y cyfnod rhwng 2013 a 2015 bron yn £1m.

Darparodd newidiadau i'r Canllawiau Craidd yn 2013 eglurhad pellach o allu'r rheoleiddwyr i wrthod a diddymu trwyddedau ar sail cymhwysedd gweithredwyr. O ganlyniad, cafwyd gostyngiad o 6% (o 217 i 203) yn nifer y perfformwyr cyson wael rhwng 2014 a 2015. Er bod hyn yn amlwg o fudd, ni wnaeth ddigon i atgyfnerthu gallu'r rheoleiddwyr i asesu a

¹⁰https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/553539/Regulating_the_waste_industry_2015_evidence_summary.pdf

gorfodi'r pob un o'r pedwar maes cymhwysedd er mwyn codi safon cymhwysedd gweithredwyr yn sylweddol a lleihau nifer y safleoedd â lefelau perfformiad gwael.

3. Ein dull gweithredu

Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr i'r Cais am Dystiolaeth yn 2015¹¹ o blaid cynigion i wella safon cymhwysedd gweithredwyr ym mhob rhan o'r sector gwastraff. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad a wnaed yn ymateb y llywodraeth yn 2015, rydym yn cynnig y dylid codi'r safon ar gyfer dal trwydded wastraff a sicrhau un, drwy atgyfnerthu trefniadau rheoleiddwyr ar gyfer asesu a gorfodi cymhwysedd gweithredwyr gwastraff. Ar gyfer pob un o'r pedair elfen sy'n gysylltiedig â chymhwysedd gweithredwyr, rydym yn cynnig y canlynol:

1. **Perfformiad yn y Gorffennol** – ehangu cwrddas troseddau, ymddygiad a'r personau perthnasol y gall y rheoleiddwyr eu hystyried wrth asesu cymhwysedd.
2. **Systemau Rheoli** – ei gwneud yn ofynnol i bob gweithredwr gwastraff trwyddedig reoli a gweithredu yn unol â system reoli ysgrifenedig.
3. **Cymhwysedd Technegol** – ei gwneud yn ofynnol i bob gweithredwr gwastraff trwyddedig ddangos gwybodaeth dechnegol briodol am ei safle gwastraff a darparu manylion am y Rheolwr â Chymhwysedd Technegol.
4. **Cymhwysedd/Darpariaeth Ariannol** - ei gwneud yn ofynnol i weithredwr unrhyw safle trwyddedig feddu ar allu ariannol i weithredu ei fusnes gwastraff a rhoi sicrwydd ariannol.

Daeth ymateb y llywodraeth yn 2015¹² i'r casgliad y dylai cymhwysedd gweithredwyr gael ei ymgorffori'n well o fewn deddfwriaeth. Ers hynny, rydym wedi cynnal trafodaethau â'r rheoleiddwyr er mwyn nodi pa adrannau o'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol y mae angen eu diwygio er mwyn rhoi'r cynigion ar waith a pha rannau o'r Canllawiau Craidd y mae angen eu hegluro er mwyn adlewyrchu cwrddas y pwerau yn well. Bydd hyn yn tynhau'r gyfundrefn reoleiddiol ond yn rhoi hyblygrwydd i'r diwydiant gwastraff weithredu o hyd. Byddwn yn rhoi'r cynigion ar waith drwy gyfuniad o'r canlynol:

- ymgorffori rhai elfennau penodol yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol

¹¹ https://consult.defra.gov.uk/waste/enhanced_powers_to_tackle_waste_crime/

¹²

<https://www.no5.com/cms/documents/DEFRA%20Waste%20Crime%20Consultation%20Response%209.10.15.pdf>

- diwygio'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol er mwyn rhoi chwarae teg i bob deiliad trwydded wastraff
- diwygio canllawiau.

4. Cynigion

4.1. Perfformiad yn y Gorffennol

Y sefyllfa bresennol

Yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, mae gan y rheoleiddwyr y pŵer i asesu perfformiad gweithredwr yn y gorffennol er mwyn penderfynu p'un a yw'n gymwys i ddal trwydded a gweithredu safle gwastraff yn effeithiol. Mae'r Canllawiau Craidd yn nodi y gall y rheoleiddwyr ystyried cydymffurfiaeth gweithredwr â gofynion rheoleiddiol, megis hysbysiadau gorfodi neu atal, ac euogfarnau am droseddau perthnasol wrth asesu perfformiad yn y gorffennol. Mae'r asesiad hwn hefyd yn ymwneud â 'phersonau perthnasol', a ddiffinnir yn y Canllawiau Craidd fel personau sy'n gysylltiedig â'r gweithrediad gwastraff neu mewn partneriaeth ag ef, er enghraifft, y cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd, neu gorff corfforaethol.

Mae'r rheoleiddwyr yn ystyried troseddau a gyflawnir mewn perthynas â'r amgylchedd neu weithredu safle gwastraff. Mae'r rheoleiddwyr wedi nodi'r troseddau perthnasol y dylai ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau fod yn ymwybodol ohonynt (tabl 1). Mae'r rhestr hon yn cynnwys troseddau sy'n benodol i safleoedd gwastraff, megis methu â chydymffurfio ag amodau trwydded amgylcheddol o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, neu atal swyddog gorfodi rhag cynnal arolygiad o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Mae hefyd yn cynnwys troseddau megis defnyddio cwmni gwastraff fel ffordd o guddio gweithgareddau gwyngalchu arian o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002, neu ddwyn metel o dan Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 2013.

Mae'r Canllawiau Craidd yn nodi bod yn rhaid i reoleiddwyr ystyried telerau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974¹³. Rhaid trin person sydd ag euogfarn wedi'i disbyddu fel pe na bai wedi cyflawni'r drosedd honno nac wedi cael euogfarn am y drosedd honno. Er mai dim ond i unigolion y mae Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 yn gymwys, mae'r Canllawiau Craidd yn nodi y dylid trin cyrff corfforaethol yn yr un ffordd ag unigolyn.

¹³ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1974/53>

Tabl1 Rhestr o droseddau perthnasol ar gyfer ceisiadau am drwydded ar gyfer gweithgareddau a gosodiadau gwastraff¹⁴

Trosedd
Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 1999
Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 2015
Deddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989: Adran 1, 5 neu 7
Deddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979: Adran 170 a 170B (ar gyfer troseddau amgylcheddol/troseddau sy'n ymwneud â dwyn metel yn unig)
Deddf yr Amgylchedd 1995: Adran 110
Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016: Rheoliad 38
Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990: Adran 33, 34, 34B a 59
Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985: Adran 9
Deddf Twyll 2006: Adran 1 (ar gyfer troseddau amgylcheddol/troseddau sy'n ymwneud â dwyn metel yn unig)
Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005
Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005
Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddswyr 2012: Adran 146
Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) 2000
Deddf Enillion Troseddau 2002: Adrannau 327, 328, 329, 330, 331 a 332 (ar gyfer troseddau amgylcheddol/troseddau sy'n ymwneud â dwyn metel yn unig)
Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007
Deddf Delwyr Metel Sgrap 1964 (ar gyfer troseddau amgylcheddol/troseddau sy'n ymwneud â dwyn metel yn unig)
Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013 (ar gyfer troseddau amgylcheddol/troseddau sy'n ymwneud â dwyn metel yn unig)
Deddf Dwyn 1968: Adrannau 1, 8, 9, 10, 11, 17, 18, 22 a 25 (ar gyfer troseddau amgylcheddol/troseddau sy'n ymwneud â dwyn metel yn unig)
Rheoliadau Cludo Gwastraff ar draws Ffiniau 1994
Rheoliadau Cludo Gwastraff ar draws Ffiniau 2007
Deddf Cerbydau (Troseddau) 2001: Rhan 1
Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff 2006
Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff 2013
Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011: Rheoliad 42
Deddf Adnoddau Dŵr 1991: Adran 85, 202 neu 206

Rhaid i berson ddatgan unrhyw droseddau blaenorol nad ydynt wedi'u disbyddu a'i hanes cydymffurfiaeth blaenorol wrth wneud cais am drwydded neu wrth wneud cais i drosglwyddo neu amrywio trwydded. Mae darparu gwybodaeth anghyflawn neu anwir yn fwriadol yn drosedd o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol a gellir gwrthod trwydded neu ddiddymu trwydded ar y sail honno. Os bydd person sy'n gwneud cais am drwydded neu sy'n trosglwyddo trwydded wedi'i euogfarnu o drosedd berthnasol neu os

¹⁴ https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/552882/LIT_8189.pdf

bydd ganddo hanes cydymffurfiaeth gwael, yna bydd y rheoleiddwyr yn asesu difrifoldeb y drosedd a'r hanes cydymffurfiaeth blaenorol er mwyn penderfynu a yw'n debygol o aildroseddu ac a yw'r gweithredwr yn gymwys o hyd i redeg safle gwastraff. Os bydd y rheoleiddwyr yn penderfynu bod person yn gymwys o hyd, yna caiff y wybodaeth hon ei defnyddio gan y rheoleiddwyr i dargedu arolygiadau ac i gymryd camau cynnar os bydd lefelau perfformiad yn dechrau gostwng.

Yr achos o blaid gweithredu

Mae hap-archwiliad diweddar gan Wasanaeth Gorfodi Cenedlaethol Asiantaeth yr Amgylchedd yn tynnu sylw at nifer y gweithredwyr sydd wedi cael eu heuogfarnu o droseddau cysylltiedig. Dangosodd yr adolygiad o 22 o drwyddedau a ddewiswyd ar hap fod deiliaid tair o'r 22 o drwyddedau (13.6%) wedi cael eu heuogfarnu o drosedd berthnasol ac y byddai angen adolygu eu cymhwysedd i weithredu safle gwastraff. Byddai un drwydded ychwanegol yn cael ei hystyried yn risg uchel a byddai saith arall yn risg ganolig, ond ni ellir eu cynnwys o dan y diffiniad presennol o droseddau perthnasol. Felly, rydym o'r farn nad yw cwmpas y troseddau perthnasol yn y Canllawiau Craidd yn ddigon eang gan mai dim ond troseddau a gyflawnir mewn perthynas â'r amgylchedd a gwastraff y mae'n ymwneud â hwy. Yn ogystal, rydym yn gweld cynnydd sylweddol yn y lefel o ymddygiad twyllodrus yn y diwydiant gwastraff. Mae rhai gweithredwyr gwastraff yn ffugio gwaith papur a chofnodion er mwyn camddosbarthu gwastraff, er enghraifft, cofnodi gwastraff peryglus fel gwastraff anadweithiol er mwyn talu treth dirlenwi sylweddol is i gael gwared arno.

Nododd y cais am dystiolaeth effaith bosibl newidiadau i Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 ar y diwydiant gwastraff. Yn arbennig, caiff euogfarn a arweiniodd at ddirwy bellach ei disbyddu o fewn 12 mis yn hytrach na phum mlynedd. Gan fod y rhan fwyaf o euogfarnau am droseddau gwastraff a throseddau amgylcheddol yn arwain at ddirwyon (tua 90%), gallai gweithredwr sy'n droseddwr mynych ac sy'n cael dirwy bob blwyddyn am achosi difrod i'r amgylchedd ac iechyd pobl wneud cais am drwydded amgylcheddol heb i'r rheoleiddwyr allu ystyried yr euogfarnau hynny sydd wedi'u disbyddu 12 mis ar ôl eu heuogfarn ddiwethaf. Mewn achosion o'r fath, gall fod yn debygol na fydd y gweithredwr yn cydymffurfio ag amodau trwyddedau yn y dyfodol o ystyried ei euogfarnau blaenorol a'r problemau a gafodd wrth weithredu gweithrediad gwastraff. At hynny, gall y rheoleiddwyr ystyried ceisiadau am drwydded yn seiliedig ar hanes o gydymffurfiaeth sy'n mynd y tu hwnt i 12 mis, rhag ofn nad arweiniodd cydymffurfiaeth wael yn y gorffennol at un neu fwy o euogfarnau. Daethom i'r casgliad yn ymateb y llywodraeth bod achos o blaid adolygu p'un a ddylid ystyried euogfarnau wedi'u disbyddu perthnasol am hyd at 5 mlynedd ar gyfer gweithredwyr gwastraff wrth wneud penderfyniad ar addasrwydd person i ddal trwydded. Ar ôl ystyriaeth bellach, rydym o'r farn bod achos o blaid gwneud hyn ac rydym wedi datblygu cynigion sydd o fudd i'r diwydiant gwastraff, ond yn parchu'r cyfnodau adsefydlu ar gyfer troseddwyr o hyd.

Mae swyddogion gorfodi rheoleiddiol yn wynebu cynnydd yn yr achosion o iaith ac ymddygiad sarhaus gan rai gweithredwyr gwastraff, a chynnydd yn nifer yr achosion lle mae gweithredwyr yn atal swyddogion rhag cael mynediad i safle a chofnodion perthnasol. Er bod y camau y gall y rheoleiddwyr eu cymryd i ymdrin â'r achosion hyn o ymddygiad annerbyniol wedi'u nodi yn eu dogfennau canllaw¹⁵, ¹⁶, a bod pwerau'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn galluogi'r rheoleiddwyr i ystyried ymddygiad, nid yw'r Canllawiau Craidd yn nodi cwmplas y pŵer yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn ddigon clir fel y gall y rheoleiddwyr benderfynu peidio â rhoi trwydded, ei throsglwyddo, ei hamrywio na pharhau â hi oherwydd ymddygiad gwael mynych. Gall rheoleiddwyr euogfarnu gweithredwyr o ymddygiad annerbyniol, a fyddai'n golygu y byddai ganddynt 'drosedd berthnasol' fel y nodir uchod, ond dim ond yn yr achosion mwyaf difrifol y ceir euogfarnau a gall y gweithredwr barhau i weithredu tra'n aros i gael cadarnhad o'r euogfarn drwy'r llysoedd.

Ceir tystiolaeth gynyddol hefyd y bydd gweithredwyr na fyddant yn cydymffurfio â hysbysiad gorfodi'r rheoleiddwr neu a gaiff eu heuogfarnu o drosedd, yn trosglwyddo eu trwydded i berson arall neu'n gwneud cais am drwydded arall o dan enw person arall. Yn aml, gall fod cysylltiad rhwng y gweithredwr a'r person arall a enwir, er enghraifft, ffrind, aelod o'r teulu neu bartner. Mae'r gweithredwr yn osgoi'r system ac yn parhau i redeg y safle, er enghraifft, drwy wneud penderfyniadau sy'n dylanwadu ar weithrediad y safle neu dderbyn cyfran o elw'r safle. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei gynnwys yn y diffiniad presennol o 'berson perthnasol' yn y Canllawiau Craidd, ac ni all y rheoleiddwyr orfodi rhag hyn. Er bod gan y rheoleiddwyr eisoes y pŵer i beidio â rhoi, trosglwyddo neu ddiddymu trwydded os byddant o'r farn nad y gweithredwr ar y drwydded yw'r gweithredwr mewn gwirionedd, nid yw hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle nad y person hwnnw yw'r gweithredwr mewn gwirionedd sut bynnag, ond ei fod yn gwneud penderfyniadau ar weithredu'r safle. Yn ddiweddar mae'r rheoleiddwyr wedi llwyddo i erlyn unigolion a oedd yn rheoli gweithrediad gwastraff nad oedd yn cydymffurfio ar ôl i'r drwydded gael ei rhoi. Roedd y person yn gwneud penderfyniadau allweddol ar reoli'r safle ond nid oedd wedi'i enwi ar y drwydded ac ar hyn o bryd, mae sail dros ddiddymu'r drwydded honno neu beidio â'i rhoi.

Ein cynigion

Fel y daethpwyd i'r casgliad yn ymateb y llywodraeth, bydd atgyfnerthu trefniadau asesu a gorfodi'r rheoleiddwyr mewn perthynas â pherfformiad gweithredwr yn y gorffennol yn gwella dealltwriaeth y rheoleiddwyr gan eu helpu i wneud penderfyniad mwy hyddysg o

¹⁵ https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/552592/LIT_10503.pdf

¹⁶ <https://naturalresources.wales/media/680304/polisi-cwynion-a-chanmoliaeth-ionawr-2017.pdf>

ran p'un a ddylid rhoi trwydded i weithredwr neu p'un a ddylai barhau i ddal trwydded. Bydd gwneud hynny yn codi safonau cymhwysedd ar safleoedd gwastraff drwy atal pobl nad ydynt yn gymwys neu na allant gyflawni amodau eu trwydded wastraff rhag dal trwydded neu rhag cael trwydded yn y lle cyntaf.

Rydym yn cynnig y newidiadau isod er mwyn atgyfnerthu trefniadau'r rheoleiddwyr ar gyfer asesu a gorfodi perfformiad yn y gorffennol.

Ehangu'r diffiniad o droseddau perthnasol

Er mwyn galluogi'r rheoleiddwyr i gasglu'r lefel briodol o wybodaeth am unigolion, rydym yn cynnig y dylid ehangu'r diffiniad o droseddau perthnasol. Rydym am alluogi'r rheoleiddwyr i ystyried troseddau, megis osgoi treth neu wyngalchu arian, a gyflawnwyd mewn perthynas ag unrhyw sector, nid dim ond troseddau a gyflawnwyd o fewn y diwydiant gwastraff. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn cynnig y dylid dileu'r cyfeiriad at 'amgylchedd neu weithredu safle gwastraff yn unig' o dan y diffiniad o drosedd berthnasol, gan ehangu trosedd berthnasol i 'drosedd sy'n effeithio ar allu person i weithredu safle gwastraff'. Er mwyn sicrhau bod hyn yn glir ac yn dryloyw i ddeiliaid trwyddedau ac ymgeiswyr, rydym yn cynnig y dylid diwygio'r canllawiau drwy ddileu'r cyfeiriad cyfyngol at yr amgylchedd a dwyn metel mewn perthynas â'r Deddfau Seneddol canlynol:

- Deddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979
- Deddf Twyll 2006
- Deddf Enillion Troseddau 2002
- Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013
- Deddf Dwyn 1968

Rydym hefyd yn cynnig y dylid ehangu'r diffiniad o droseddau perthnasol a restrir yn nhabl 1 er mwyn cynnwys troseddau a gyflawnwyd o dan Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 a Deddf Trefn Gyhoeddus 1986. Bydd hyn yn galluogi'r rheoleiddwyr i ystyried troseddau a gyflawnir mewn perthynas â grŵp troseddu cyfundrefnol, ac ymddygiad treisgar a bygythiol.

Ni fydd y broses a ddefnyddir i weithredwr roi gwybodaeth am ei droseddau blaenorol na'r ffordd y mae'r rheoleiddwyr yn casglu gwybodaeth am droseddau blaenorol yn newid o ganlyniad i'r newid hwn. Byddai'r newid hwn yn golygu yn ystod cais am drwydded neu wrth drosglwyddo, amrywio neu adolygu trwydded, y bydd y rheoleiddwyr yn cynnal asesiad yn erbyn y rhestr ehangach o droseddau ac y byddant yn gallu gwneud penderfyniad mwy hyddysg am gymhwysedd person i weithredu safle.

C1. A ydych o'r farn y bydd ehangu'r diffiniad o droseddau perthnasol yn galluogi'r rheoleiddwyr i wneud penderfyniad mwy hyddysg ynghylch perfformiad blaenorol gweithredwyr?

C2. A ydych o'r farn y dylid ychwanegu Deddf Troseddau Difrifol 2015 a Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 at dabl 1? A ddylid ychwanegu troseddau mewn Deddfau Seneddol eraill at dabl 1?

Adsefydlu troseddwy

Ar ôl trafod ag adrannau perthnasol y llywodraeth, rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'n briodol diwygio Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwy 1974 (Eithriadau) 1975 i gynnwys gweithredwyr gwastraff. Ni ellir cymharu gweithredwyr gwastraff â'r galwedigaethau eraill a restrir ar y Gorchymyn Eithriadau yn bennaf gan nad ydynt yn ymwneud â phersonau hygryw. Fel y nodwyd yn y cais am dystiolaeth, o dan Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 2013 y Swyddfa Gartref, ac yn unol ag adran 7(3) o Ddeddf Adsefydlu Troseddwy 1974, gall awdurdod lleol ystyried euogfarnau wedi'u disbyddu person o dan amgylchiadau eithriadol. Nid ydym o'r farn y dylai'r rheoleiddwyr bob amser ystyried euogfarnau wedi'u disbyddu. Dylid parchu cyfnodau adsefydlu troseddwy a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid ystyried euogfarnau wedi'u disbyddu o fewn y 5 mlynedd diwethaf. Un enghraifft o amgylchiadau eithriadol yw pan fydd gweithredwr yn droseddwr mynych sy'n cael dirwy bob blwyddyn am niweidio'r amgylchedd ac iechyd pobl. Ar hyn o bryd, byddai gweithredwr o'r fath yn gallu gwneud cais am drwydded amgylcheddol heb i'r rheoleiddwyr allu ystyried yr euogfarnau hynny sydd wedi'u disbyddu os yw'n gwneud cais 12 mis ar ôl ei euogfarn ddiwethaf.

C3. A ydych o'r farn y dylid ei gwneud hi'n gliriach y gall rheoleiddwyr ystyried troseddau wedi'u disbyddu o dan amgylchiadau eithriadol?

Gan fod y rhan fwyaf o drwyddedau gwastraff yn cael eu gweithredu gan gyrff corfforaethol, mae trin cyrff corfforaethol yr un fath ag unigolion wrth asesu euogfarnau wedi'u disbyddu yn cael effaith negyddol sylweddol ar y sector gwastraff. Rydym o'r farn y dylid trin cyrff corfforaethol yn wahanol i unigolion ac y dylai'r rheoleiddwyr allu ystyried euogfarnau cyrff corfforaethol. Bydd y rheoleiddwyr yn asesu difrifoldeb yr euogfarn er mwyn penderfynu a yw'r person yn debygol o aildroseddu ac yn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am ei addasrwydd i ddal trwydded wastraff.

C4. A ydych o'r farn y dylid trin cyrff corfforaethol yn wahanol i unigolion ac y dylai'r rheoleiddwyr allu ystyried euogfarnau cyrff corfforaethol?

Ymddygiad gwael

Rydym yn cynnig y dylid ei gwneud hi'n gliriach bod y rheoleiddwyr yn gallu ystyried ymddygiad gwael gweithredwr tuag at swyddogion rheoleiddiol wrth asesu perfformiad yn y gorffennol. Rydym yn deall y gall y diffiniad o'r hyn sy'n cyfrif fel ymddygiad gwael fod yn oddrychol, felly er mwyn sicrhau bod dull gweithredu cyson ar waith ym mhob tîm gorfodi, rydym o'r farn y dylid diwygio'r canllawiau a'u cysoni â'r diffiniad a ddefnyddir gan y

rheoleiddwyr yn eu dogfennau canllaw. Mae canllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd, er enghraifft, yn diffinio ymddygiad gwael fel ymddygiad neu iaith (ysgrifenedig, ar lafar neu ar-lein) a allai, yn ein barn ni, beri i staff deimlo fel petaent o dan fgythiad, eu bod yn ofnus neu eu bod wedi'u tramgwyddo, eu bygwth neu eu cam-drin. Rydym hefyd yn cynnig y dylid ystyried achos o atal mynediad i safle neu gofnodion neu wybodaeth berthnasol fel ymddygiad gwael. Bydd y newid hwn yn nodi'n glir bod ymddygiad gwael yn annerbyniol ac y gellir ei ystyried pan fydd y rheoleiddwyr yn penderfynu p'un a ddylid rhoi, trosglwyddo neu amrywio trwydded.

C5. A ydych o'r farn y bydd sicrhau y gall y rheoleiddwyr ystyried ymddygiad gwael yn eu galluogi i wneud penderfyniad mwy hyddysg ynghylch perfformiad blaenorol gweithredwyr?

Ehangu'r diffiniad o berson perthnasol

Rydym yn cynnig y gellid ehangu'r diffiniad o 'berson perthnasol' er mwyn cynnwys gweithredwyr nad ydynt yn cydymffurfio â hysbysiad gorfodi'r rheoleiddwyr, neu a gaiff eu heuogfarnu o drosedd, ac sydd wedyn yn trosglwyddo eu trwydded i berson arall neu'n gwneud cais am drwydded arall o dan enw person arall. Bydd y newid hwn yn ceisio cynnwys gweithredwyr y mae'r rheoleiddwyr o'r farn eu bod yn rheoli safle, er enghraifft, maent yn gwneud penderfyniadau sy'n dylanwadu ar weithrediad y safle neu'n derbyn cyfran o elw'r safle. Er bod y rheoleiddwyr eisoes yn gallu erlyn person sy'n rheoli safle nad yw'n cydymffurfio, gallai newid o'r fath nodi'n glir pa gamau y gall y rheoleiddwyr eu cymryd ar gam cynharach, er enghraifft, yn ystod y broses gwneud cais am drwydded, os ydynt yn ymwybodol bod gweithredwr yn rheoli safle gwastraff, er bod y drwydded wedi cael ei throsglwyddo i berson arall neu y gwnaed cais am drwydded yn enw person arall. Ni fydd unrhyw ymdrechion i ehangu'r diffiniad o berson perthnasol yn awgrymu bod person yn euog drwy gysylltiad. Nid ydym o'r farn ei bod yn gymesur cynnig bod unrhyw berson sy'n gysylltiedig â gweithredwr hysbys, er enghraifft, aelod o'r teulu neu bartner, yn berson perthnasol.

C6. A ydych o'r farn y bydd ehangu'r diffiniad o berson perthnasol yn galluogi'r rheoleiddwyr i wneud penderfyniad mwy hyddysg ynghylch perfformiad blaenorol gweithredwyr?

Effaith y newid hwn

Ni fydd y newidiadau arfaethedig yn arwain at unrhyw faich ychwanegol ar weithredwyr cyfreithlon a dim ond costau bach iawn a ddaw i ran y rheoleiddwyr o ganlyniad iddynt.

Gweithredwyr gwastraff

Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw gostau uniongyrchol i weithredwyr, gan fod gweithredwyr eisoes yn gorfod darparu gwybodaeth am droseddau wrth wneud cais am drwydded neu drosglwyddo trwydded felly ni fydd y newidiadau yn cynyddu'r baich yn hyn o beth. Bydd y newid hwn yn golygu na fydd rhai gweithredwyr penodol yn cael trwydded neu na fyddant yn gallu trosglwyddo eu trwydded oherwydd eu bod wedi cael eu heuogfarnu o'r rhestr ehangach o droseddau perthnasol, eu bod wedi dangos ymddygiad gwael neu eu bod wedi'u cynnwys yn y diffiniad newydd o droseddau perthnasol. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn y dylid ystyried bod y bobl hyn yn gymwys i weithredu safle gwastraff.

Rheoleiddwyr

Byddai'n rhaid i swyddog trwyddedu dreulio amser ychwanegol yn bwrw golwg dros gais am drwydded neu gais i drosglwyddo trwydded yn erbyn y diffiniad ehangach o droseddau perthnasol neu unrhyw ymddygiad gwael. Rydym wedi cyfrifo mai cyfanswm y gost i'r rheoleiddwyr fydd £17,505 - £35,010 y flwyddyn ar sail barhaus.

4.2. Systemau Rheoli

Y sefyllfa bresennol

Mae'r Canllawiau Craidd yn nodi'n glir y dylai fod gan weithredwyr systemau rheoli effeithiol ar waith er mwyn sicrhau lefel uchel o ddiogelwch amgylcheddol. Mae hyn yn gymwys i bob gweithgaredd trwyddedig, gan gynnwys cyfleusterau rheoli gwastraff. O dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, mae gan y rheoleiddwyr y pŵer i ddiddymu trwydded os ystyrir nad oes gan weithredwr system reoli effeithiol.

Mae system reoli wedi'i llunio'n dda ac wedi'i gweithredu'n effeithiol yn nodi sut y mae angen cynnal gweithgareddau o ddydd i ddydd er mwyn sicrhau bod cyn lleied o risg â phosibl o lygredd gan felly lleihau'r effaith ar y gymuned leol a'r amgylchedd. Nid oes rhaid i'r broses o lunio system reoli ysgrifenedig fod yn rhy lafurus. Fel yr eglurwyd yn y Canllawiau Craidd, dylai natur y system reoli fod yn gymesur â chymhlethdod y gweithrediad ar y safle. Ers 2008, mae'r rhan fwyaf o drwyddedau a roddwyd, neu a amrywiwyd, yn cynnwys amod sy'n cyfeirio at system reoli fodern sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr:

reoli a gweithredu'r gweithgareddau yn unol â system reoli ysgrifenedig sy'n nodi risgiau llygredd ac yn lleihau'r risgiau hynny, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o weithrediadau, gwaith cynnal a chadw, damweiniau, digwyddiadau, diffyg cydymffurfio, safleoedd yn cau a'r risgiau hynny y tynnwyd sylw'r gweithredwr atynt o ganlyniad i gwynion.

Mae'r asesiadau risg cyffredinol sy'n gysylltiedig â thrwyddedau yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd gan y gweithredwr system reoli effeithiol. Nodir canllawiau ar ddatblygu system reoli a'r hyn y dylid ei gynnwys ar-lein¹⁷ gan y rheoleiddwyr.

Yr achos o blaid gweithredu

Un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ymdrin â pherfformiad gwael, sicrhau cydymffurfiaeth a chymell gwelliannau parhaus yw ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr ddatblygu a gweithredu system reoli ysgrifenedig ffurfiol. Mae system reoli wedi'i chynllunio'n dda ac wedi'i rhoi ar waith yn ffordd effeithiol i weithredwyr fonitro, rheoli a gwella eu perfformiad.

Nid oedd trwyddedau a roddwyd cyn 2008 yn cynnwys amod a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr roi system reoli ysgrifenedig ar waith, er bod rhai amodau yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr baratoi cynllun gwaith (system reoli elfennol). Mae rhai o'r trwyddedau hynny wedi cael eu hamrywio ers hynny i gynnwys yr amod fodern ond amcangyfrifir nad yw 2,500 o'r 6,700 o drwyddedau a gyhoeddwyd cyn 2008 yn cynnwys yr amod ar gyfer system reoli fodern a bod 2,000 o weithredwyr yn gweithredu heb system reoli ysgrifenedig ddigonol. Byddai cyflwyno gofyniad y gellir ei orfodi'n gyfreithiol ar y gweithredwyr hyn yn cynnig ffordd o sicrhau newid sylweddol mewn safonau perfformiad.

Mae rheoleiddwyr yn asesu cydymffurfiaeth gweithredwr yn erbyn amodau ei drwydded a rhwymedigaethau cysylltiedig eraill. Os nad oes amod ar gyfer system reoli fodern yn y drwydded, ni ellir sgorio gweithredwr am drefniadau gwael ar gyfer rheoli'r safle onid yw'n arwain at ddiffyg cydymffurfiaeth ag amod arall. O ganlyniad, mae'n bosibl y cofnodir llai o achosion o dorri amodau trwydded ar gyfer safleoedd nad yw'r amod yn berthnasol iddynt na'r rhai sydd â thrwyddedau a roddwyd ar ôl 2008. Yn amlwg, mae hyn yn golygu bod gweithredwyr sydd â thrwyddedau mwy newydd o dan anfantais ac yn golygu nad yw achosion o berfformiad gwael yn cael eu cofnodi ddigon ymhlith gweithredwyr â thrwyddedau hyn. Byddai sicrhau ei bod yn ofynnol i bob deiliad trwydded weithredu'n unol â system reoli ysgrifenedig yn arwain at well diogelwch amgylcheddol, canlyniadau tecach ar gyfer perfformwyr da ac yn sicrhau chwarae teg ym mhob rhan o'r sector gwastraff.

Ein cynigion

Gofynnodd y cais am dystiolaeth yn 2015 am sylwadau o ran p'un a ddylid cynnwys y gofyniad am gynlluniau rheoli a'u cynnwys mewn deddfwriaeth, neu p'un a ddylid rhoi rhyddid i'r rheoleiddwyr yn hyn o beth. Yn dilyn yr ymgynghoriad, daeth y llywodraeth i'r

¹⁷ <https://www.gov.uk/guidance/develop-a-management-system-environmental-permits> (Lloegr) a <https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/environmental-permits/environment-management-system/?lang=cy> (Cymru)

casgliad bod dull gweithredu cyson mewn perthynas â defnyddio'r system reoli yn bwysig, ac y byddai'n trafod y ffordd orau o sicrhau dull gweithredu cyson ym mhob rhan o'r sector â'r rheoleiddwyr a'r diwydiant. Datblygwyd y cynnig o ganlyniad i'r trafodaethau hynny ac fe'i nodir isod.

Egluro'r gofyniad cyfreithiol i gael systemau rheoli

Er mwyn goresgyn y problemau etifeddol sy'n deillio o'r ffaith nad oes gan lawer o drwyddedau gwastraff hŷn amod ar gyfer system reoli, rydym yn cynnig y dylid diwygio'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol i'w gwneud yn ofynnol i bob cyfleuster a gaiff ei reoleiddio sy'n ymgymryd â gweithrediadau gwastraff gael ei reoli a'i weithredu yn unol â system reoli ysgrifenedig. Nodir cynnwys gofynnol systemau o'r fath er mwyn i'r rheoleiddwyr allu gorfodi yn hyn o beth. Byddai hyn yn golygu y gallai rheoleiddwyr drin achos o beidio â chydymffurfio â system reoli yn yr un ffordd ag achos o dorri amod trwydded a chaniatáu iddynt ddefnyddio'r amrywiaeth lawn o opsiynau gorfodi, gan gynnwys, lle y bo angen, hysbysiadau gorfodi neu atal. Byddai'r newid hwn yn dileu'r anghysondeb rhwng trwyddedau cyn 2008 a thrwyddedau ar ôl 2008 drwy osod rhwymedigaeth debyg ar bob gweithredwr gwastraff i gael system reoli ysgrifenedig. Wrth wneud hynny, byddai hefyd yn ymdrin â ffactor sylweddol sy'n achosi diffyg cydymffurfiaeth a pherfformiad gwael.

C7. A ydych o'r farn y byddai'n fuddiol i bob un sydd â thrwydded gwastraff weithredu'n unol â system reoli ysgrifenedig?

Effaith y newid hwn

Gweithredwyr gwastraff

O blith y 2,000 o safleoedd sy'n gweithredu heb system reoli ysgrifenedig ddigonol, rydym wedi amcangyfrif y byddai angen i tua 1,000 o weithredwyr ddatblygu a gweithredu system reoli ysgrifenedig ac y byddai 1,000 o weithredwyr eraill yn diwygio eu cynllun gwaith er mwyn bodloni'r fformat modern.

Amcangyfrifir mai cost gyfartalog llunio system reoli yw £3,000 ac mai cost gyfartalog adolygu a diwygio cynllun gwaith er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r amod ar gyfer system reoli fodern yw £1,000.

Rheoleiddwyr

Bydd unrhyw gostau ychwanegol i'r rheoleiddwyr yn fach iawn. Mae canllawiau eisoes ar gael i weithredwyr ar systemau rheoli felly ni fydd unrhyw gostau datblygu ychwanegol er ei bod yn debygol y bydd angen mân ddiwygiadau. Mae archwiliadau ac arolygiadau safle

yn cynnwys amrywiaeth o gamau gweithredu a all gynnwys edrych ar system reoli gweithredwr pan fydd system o'r fath ar waith. Mae cynllun taliadau'r rheoleiddwyr eisoes yn cynnwys elfen yn eu taliadau cynhaliaeth blyneddol i gwmpasu'r gwaith hwn.

4.3. Cymhwysedd technegol

Y sefyllfa bresennol

Mae angen i bob safle gwastraff trwyddedig ddangos lefelau priodol o gymhwysedd technegol. O dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, mae gan y rheoleiddwyr y pŵer i wrthod neu ddiddymu trwydded os ystyrir nad oes gan weithredwr gymhwysedd technegol digonol. Ers 2008, mae pob trwydded a roddwyd, neu a amrywiwyd, yn cynnwys amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr feddu ar gymhwysedd technegol drwy gynllun a gymeradwywyd gan y llywodraeth. Cyn hyn, nodwyd y gofyniad hwn yn Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff 1994.

Er bod angen i bob safle trwyddedig ddangos cymhwysedd technegol, mae amodau'r drwydded, wedi'u hategu gan y Canllawiau Craidd, yn nodi sut mae angen i weithredwyr pob safle gwastraff ddangos lefelau addas o gymhwysedd technegol. Mae'n nodi'r ddau gynllun a gymeradwywyd gan y llywodraeth sydd ar hyn o bryd yn bodloni'r meini prawf a bennwyd gan y rheoleiddwyr, sef cynllun cymhwysedd gweithredwyr unigol CIWM/WAMITAB¹⁸ a chynllun cymhwysedd corfforaethol Sgiliau ESA/EU ¹⁹. Mae'n well gan rai busnesau rheoli gwastraff mawr ddefnyddio cynllun ESA/EU i ddatblygu systemau mewnol, ond byddai busnesau gwastraff eraill yn dewis asesu a datblygu cyflogaion unigol drwy gynllun CIWM/WAMITAB neu gyflogi Rheolwr â Chymhwysedd Technegol (TCM) allanol i roi cyngor ar reoli'r safle. Mae angen i weithredwyr sicrhau bod eu cymhwysedd technegol yn gyfredol drwy gydol oes y drwydded a dangos eu cymhwysedd parhaus i'r rheoleiddwyr.

Yr achos o blaid gweithredu

Fel y nodwyd yn ymateb y llywodraeth yn 2015, mae safon briodol o gymhwysedd technegol ym mhob rhan o'r sector gwastraff yn hanfodol er mwyn sicrhau nad yw safleoedd gwastraff yn cael eu gweithredu mewn ffordd sy'n arwain at berfformiad gwael. Fodd bynnag, gall fod bwlch sylweddol o ran lefel cymhwysedd technegol yn y sector

¹⁸ Y Sefydliad Rheoli Gwastraff Siartredig / Bwrdd Hyfforddi a Chynghori'r Diwydiant Rheoli Gwastraff

¹⁹ Y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol / Sgiliau Ynni a Chyfleustodau

gwastraff. Mae'r bwlch hwn yn cael ei achosi oherwydd, er bod y rheoleiddwyr yn glir bod angen i safleoedd gwastraff ddangos cymhwysedd technegol, nid oes bellach ofyniad cyfreithiol penodol yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol sy'n nodi bod yn rhaid i safle gwastraff ddangos ei gymhwysedd technegol drwy gynllun a gymeradwywyd gan y llywodraeth. Gall y rheoleiddwyr ddefnyddio'r amrywiaeth lawn o bwerau gorfodi dewisol, megis hysbysiadau gorfodi ac atal, ar drwyddedau sy'n cynnwys amod cymhwysedd technegol (trwyddedau a roddwyd neu a amrywiwyd ar ôl 2008) gan fod gofyniad cyfreithiol yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol i'r gweithredwyr fodloni amodau eu trwydded. Fodd bynnag, ni chaiff y rheoleiddwyr ddefnyddio'r amrywiaeth lawn o bwerau gorfodi dewisol sydd ar gael iddynt ar drwydded nad yw'n cynnwys amod cymhwysedd technegol (y rhan fwyaf o drwyddedau a roddwyd cyn 2008) ac ystyrir bod diddymu'r trwyddedau hyn bob tro, os nad yw'r safle gwastraff yn dangos lefelau digonol o gymhwysedd technegol, yn ddefnydd anghymesur o'u pwerau. Nid diddymu trwydded bob tro o ganlyniad i gymhwysedd technegol gwael yw'r ffordd orau o wella perfformiad ym mhob rhan o'r sector gwastraff a gallai arwain at sefyllfa lle y bydd safleoedd yn parhau i weithredu heb drwydded.

Gallai'r rheoleiddwyr amrywio trwydded i gynnwys amod cymhwysedd technegol ar ôl arolygu safle gan godi tâl ar y gweithredwr am wneud hynny. Yn ôl y gyfradd bresennol ar gyfer amrywio trwyddedau, amcangyfrifir y byddai'n cymryd tua 20 mlynedd i amrywio'r trwyddedau cyn 2008 i gynnwys amod cymhwysedd technegol ac ni fyddai hynny'n sicrhau'r newid sylweddol mewn ymddygiad sydd ei angen gan y sector cyfan. Nid yw'n briodol amrywio'r holl drwyddedau hyn ar unwaith a bydd gweithredwyr yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r costau.

Yn dilyn y cais am dystiolaeth yn 2015, mae darparwyr y cynlluniau a'r rheoleiddwyr yn cydweithio i adolygu'r cyfnodau amser y dylai Rheolwyr â Chymhwysedd Technegol fod yn bresennol ar y safle. Mae'r cyfnod amser y mae'n rhaid i Reolwr â Chymhwysedd Technegol ei dreulio ar y safle ar hyn o bryd yn dibynnu ar y math o drwydded, y lleoliad a'r sgôr cydymffurfiaeth reoleiddiol, er nad oes angen i Reolwr â Chymhwysedd Technegol fod ar y safle am fwy na 48 awr yr wythnos ni waeth beth fo'r math o weithrediad na'r lefel perfformiad.

Fodd bynnag, ceir tystiolaeth sylweddol hefyd nad yw rhai Rheolwyr â Chymhwysedd Technegol yn gweithredu'n briodol. Mae rhai Rheolwyr â Chymhwysedd Technegol yn gyfrifol am ormod o safleoedd, gan weithio ar sawl safle gwastraff ar yr un pryd, a gwyddys fod Rheolwyr eraill o'r fath yn rhoi cyngor gwael neu anghywir i weithredwyr gwastraff neu fod gweithredwyr yn defnyddio manylion Rheolwyr o'r fath mewn modd twyllodrus heb yn wybod i'r Rheolwr. Os bydd Rheolwr â Chymhwysedd Technegol yn gyfrifol am lawer o safleoedd gwastraff, gall gweithredwr un o'r safleoedd hynny ddangos i'r rheoleiddwyr ei fod yn bodloni lefelau addas o gymhwysedd technegol am ei fod wedi cyflogi Rheolwr â Chymhwysedd Technegol. Ni fydd gan y Rheolwr â Chymhwysedd Technegol yr amser na'r gallu i ddylanwadu ar weithrediad y safle na'r lefelau cydymffurfiaeth, yn unol â'r

cyfnod amser y cytunwyd arno o ran ei bresenoldeb ar y safle, er mwyn sicrhau lefelau perfformiad da ar y safle gan fod ganddo ormod o safleoedd eraill i ymdrin â nhw. Nid ystyrir bod y safle yn cael ei reoli mewn modd sy'n dangos cymhwysedd technegol gan nad yw'r Rheolwr â Chymhwysedd Technegol yn gwneud cyfraniad technegol effeithiol.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw broses i'r rheoleiddwyr gymryd camau yn erbyn Rheolwyr â Chymhwysedd Technegol sy'n gweithredu mewn modd amhriodol. Unwaith y bydd unigolyn neu gwmni wedi ennill cymhwyster drwy gynllun a gymeradwywyd gan y llywodraeth ac yn dod yn Rheolwr â Chymhwysedd Technegol, ar hyn o bryd ni ellir mynd â'r cymhwyster hwnnw oddi wrth yr unigolyn ar hyn o bryd, ar yr amod ei fod yn bodloni'r gofynion o ran hyfforddiant.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ofyniad ychwaith i safle gwastraff roi manylion ei Reolwr â Chymhwysedd Technoleg i'r rheoleiddiwr oni nodir hynny yn un o amodau ei drwydded. Drwy wybod pwy yw'r Rheolwr â Chymhwysedd Technegol byddai modd i'r rheoleiddiwr greu darlun cenedlaethol o Reolwyr â Chymhwysedd Technegol yn erbyn trwyddedau gwastraff a chroesgyfeirio'r data yn erbyn cymwysterau CIWM / WAMITAB neu gofnodion EU Skills er mwyn atal twyll.

Ein cynigion

O ystyried y gefnogaeth yn y cais am dystiolaeth yn 2015, rydym yn cynnig newidiadau i'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol a'r canllawiau i atgyfnerthu trefniadau asesu a gorfodi'r rheoleiddwyr mewn perthynas â chymhwysedd technegol gweithredwr er mwyn cau'r bwlch presennol mewn cymhwysedd technegol a chodi safon perfformiad ym mhob rhan o'r sector gwastraff.

Egluro'r gofyniad cyfreithiol ar gyfer cymhwysedd technegol

Rydym yn cynnig y dylid rhoi chwarae teg i ddeiliad pob trwydded drwy nodi'n amlwg yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol bod angen i bob safle gwastraff trwyddedig ddangos cymhwysedd technegol drwy gynllun a gymeradwywyd gan y llywodraeth. Bydd y newid hwn yn rhoi'r hyblygrwydd i'r rheoleiddwyr ddefnyddio eu holl bwerau gorfodi, megis hysbysiadau gorfodi ac atal, ar bob trwydded sy'n gysylltiedig â gweithrediad gwastraff er mwyn sicrhau bod deiliad y drwydded yn meddu ar gymhwysedd technegol. Bydd yn creu cysondeb rhwng pob trwydded wastraff ac yn gwella safonau cymhwysedd technegol yn y sector gwastraff drwy sicrhau bod pob gweithredwr gwastraff yn dangos ei gymhwysedd technegol drwy gynllun cymeradwy.

C8. A ydych o'r farn y bydd cynnwys gofyniad penodol yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol sy'n mynnu bod pob safle gwastraff trwyddedig yn dangos cymhwysedd technegol drwy gynllun a gymeradwywyd gan y llywodraeth yn cau'r bwlch presennol mewn cymhwysedd technegol?

Hysbysu'r rheoleiddwyr am y cymhwysedd technegol ar safle

Rydym yn cynnig y dylid cynnwys gofyniad yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol i weithredwyr hysbysu'r rheoleiddwyr am y trefniadau ar gyfer Rheolwyr â Chymhwysedd Technegol ar eu safle gwastraff a phan fydd Rheolwr o'r fath yn newid ar y safle. Bydd hyn yn galluogi'r rheoleiddwyr i greu rhestr genedlaethol o Reolwyr â Chymhwysedd Technegol yn erbyn data trwyddedau gwastraff a chroesgyfeirio hynny yn erbyn data a ddarperir gan WAMITAB ac EU Skills er mwyn canfod twyll. Rydym yn cynnig y dylai'r rheoleiddwyr ofyn am i enw llawn a chyfeirnod WAMITAB / CIWM y Rheolwr â Chymhwysedd Technegol, neu enw'r archwilydd a dyddiad yr archwiliad diwethaf ar gyfer EU Skills, gael eu cynnwys ar y ffurflen wastraff. Rydym o'r farn y byddai cynnwys y gofyniad hwn mewn deddfwriaeth, yn hytrach na chais syml gan y rheoleiddwr am y wybodaeth hon ar ffurflen wastraff, yn helpu i sicrhau bod pob gweithredwr gwastraff yn darparu'r wybodaeth hon. Bydd hefyd yn galluogi'r rheoleiddwyr i ddefnyddio eu holl bwerau gorfodi er mwyn sicrhau bod gweithredwyr yn darparu'r wybodaeth hon gan y byddai peidio â gwneud hynny yn torri un o amodau tybiedig y drwydded o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

C9. A ydych o'r farn y bydd cynnwys gofyniad yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol sy'n mynnu bod gweithredwyr yn rhoi gwybod i'r rheoleiddwyr pwy yw'r Rheolwr â Chymhwysedd Technegol ar eu safle gwastraff yn mynd i'r afael â'r bwlch presennol mewn cymhwysedd technegol?

Cymryd camau gweithredu yn erbyn rheolwyr â chymhwysedd technegol sy'n gweithredu mewn modd amhriodol

Mae'r rheoleiddwyr a darparwyr y cynlluniau cymhwysedd technegol yn ystyried p'un a ddylid cyflwyno system i ymdrin â Rheolwyr â Chymhwysedd Technegol sy'n gweithredu mewn modd amhriodol drwy weithio ar safleoedd gwastraff lluosog neu roi cyngor gwael neu anghywir i weithredwyr gwastraff. Gellid gwneud hyn drwy system 'gofrestru', lle y byddai angen i Reolwr â Chymhwysedd Technegol feddu ar gymhwyster cymhwysedd technegol a chael ei gofrestru'n Rheolwr â Chymhwysedd Technegol er mwyn cael ei ystyried yn gymwys gan y rheoleiddwyr. Nid ydym yn cynnig y dylid creu system na chynllun newydd sbon a byddwn yn adeiladu ar y cynlluniau cymhwysedd presennol. Os bydd Rheolwr â Chymhwysedd Technegol yn gweithredu mewn modd amhriodol, gellid ei ddadgofrestru, a byddai ei allu i weithio fel Rheolwr â Chymhwysedd Technegol yn cael ei atal dros dro neu ei ddileu'n llwyr.

Rydym o'r farn mai'r gweithredwr sy'n gyfrifol am weithredu safle gwastraff yn y pen draw a dylai gweithredwr weithredu diwydrwydd dyladwy wrth gyflogi Rheolwr â Chymhwysedd Technegol. Bydd system gofrestru yn golygu y bydd y rheoleiddwyr yn ystyried safle gwastraff lle cafodd ei Reolwr â Chymhwysedd Technegol ei ddadgofrestru yn safle na all ddangos cymhwysedd technegol.

Nid ydym o'r farn ei bod yn briodol creu trosedd benodol yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol er mwyn cosbi Rheolwr â Chymhwysedd Technegol sy'n gweithredu mewn modd amhriodol. Rydym o'r farn bod diddymu gallu Rheolwr â Chymhwysedd Technegol i weithio yn gosb ddigonol i gymell ymddygiad cadarnhaol. Yn ogystal, gallai creu trosedd ar gyfer Rheolwyr â Chymhwysedd Technegol arwain at sefyllfa lle y gall gweithredwr hawlio amddiffyniad mai'r TCM a ddylai gael ei erlyn yn hytrach na'r gweithredwr ei hun a gallai ddadlau nad yw'n gyfrifol am yr hyn sy'n digwydd ar ei safle.

C10. A ydych o'r farn y dylid diwygio'r cynlluniau cymhwysedd presennol er mwyn cynnwys proses cofrestru Rheolwyr Cymhwysedd Technegol i fynd i'r afael â'r bwlch presennol mewn cymhwysedd technegol?

Effeithiau'r newid hwn

Bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar weithredwyr safleoedd gwastraff, y rheoleiddwyr a darparwyr y cynlluniau a gymeradwywyd gan y llywodraeth.

Gweithredwyr gwastraff

Bydd cost i gyfran o'r gweithredwyr sicrhau eu bod yn meddu ar gymhwysedd technegol drwy gynllun a gymeradwywyd gan y llywodraeth, er y dylai pob safle gwastraff fod yn talu'r gost hon ar hyn o bryd. Rydym yn amcangyfrif y gallai'r bwlch cymhwysedd technegol fod cymaint â 2,000 o weithredwyr gwastraff. Mae trwyddedau sydd wedi cael eu rhoi a'u hamrywio ar ôl 2008 eisoes yn cynnwys amod ynglŷn â chymhwysedd technegol fel rhan o'r drwydded ac mae'n debygol y bydd gweithredwyr mawr eisoes wedi ymgymryd â chymhwyster cymhwysedd technegol drwy gynllun cymeradwy.

Rydym ar ddeall y byddai'r rhan fwyaf o weithredwyr gwastraff yn hyfforddi cyflogai i feddu ar gymhwysedd technegol drwy gynllun unigol WAMITAB/CIWM yn hytrach na chynllun corfforaethol ESA/EU Skills, gan fod y gweithredwyr sy'n defnyddio cynllun ESA/EU Skills yn debygol o feddu ar gymhwysedd technegol eisoes. Yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol, nid ydym wedi gallu mesur pa gyfran o weithredwyr gwastraff fydd yn cyflogi Rheolwr â Chymhwysedd Technegol, yn hytrach na hyfforddi cyflogai presennol. Byddai'n ddefnyddiol i'r diwydiant ddarparu unrhyw wybodaeth yn hyn o beth er mwyn inni allu cadarnhau effaith y newid hwn ar y sector gwastraff.

C11. A oes gennych unrhyw wybodaeth am y gyfran o safleoedd gwastraff a fyddai'n cyflogi Rheolwr â Chymhwysedd Technegol, yn hytrach na hyfforddi cyflogai presennol? A oes gennych unrhyw wybodaeth am y gyfran o safleoedd nad oes ganddynt Rheolwr â Chymhwysedd Technegol ar hyn o bryd?

Ar hyn o bryd, rydym wedi amcangyfrif y bydd datblygu staff sy'n meddu ar gymhwysedd technegol yn costio rhwng £3.45m a £3.65m i'r sector gwastraff a bod dangos eu cymhwysedd parhaus yn costio rhwng £209k a £277k y flwyddyn.

Bydd y rheoleiddwyr yn gweithredu ar sail risg wrth roi'r elfen cymhwysedd technegol ar waith ar safleoedd. Bydd y rheoleiddwyr yn canolbwyntio ar y safleoedd â'r lefelau cydymffurfiaeth isaf nad ydynt yn gymwys o fewn blwyddyn i'r dyddiad y daw'r rheoliadau i rym a byddant yn disgwyl i bob safle arall ennill cymhwyster cymhwysedd technegol o fewn dwy flynedd.

Dim ond cost fach iawn a ddaw i ran gweithredwyr wrth hysbysu rheoleiddwyr am y Rheolwr â Chymhwysedd Technegol ar safle gwastraff, gan na ddylai gynyddu'r amser a gymer gweithredwr i gwblhau ffurflen wastraff.

Darparwyr cynlluniau cymhwysedd technegol

Fel y nodir yn y Canllawiau Craidd, rydym yn glir y gellid cynnig cymwysterau cymhwysedd technegol drwy unrhyw gynllun a gymeradwywyd gan y llywodraeth ac rydym yn annog ymdrechion i ddatblygu cynlluniau eraill. Mae'r ddau gynllun a gymeradwywyd wedi bod ar waith ers tua wyth mlynedd felly mae'r seilwaith ar gyfer cynnig y cymhwyster eisoes ar waith drwy rwydwaith o ganolfannau cyrsiau ledled y wlad. Byddai effaith ar ddarparwyr y cynlluniau gan y byddai angen i fwy o weithredwyr sicrhau cymhwyster cymhwysedd technegol, ond mae'r seilwaith ar waith i ymdrin â'r cynnydd hwn a bydd angen i'r gweithredwyr dalu am y cymhwyster felly nid oes unrhyw effaith ariannol ar ddarparwyr y cynlluniau.

Rheoleiddwyr

Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw gostau sylweddol i'r rheoleiddwyr wrth asesu'r nifer ychwanegol o weithredwyr a fydd yn ymgymryd â chymhwyster drwy gynllun cymeradwy. Mae'r rheoleiddwyr yn gweithredu fel buddiolwyr y cynlluniau, sy'n nodweddiadol o ran achrediadau trydydd parti annibynnol. Mae'r rheoleiddwyr yn cadarnhau bod safleoedd yn defnyddio un o'r cynlluniau ac yn derbyn y cymhwyster fel tystiolaeth o gymhwysedd technegol, gan felly osgoi'r angen i ymwneud yn uniongyrchol â'r broses hyfforddi ac asesu. Mae'r dasg o gadarnhau cymhwysedd technegol yn rhan o restr o drefniadau asesu cydymffurfiaeth rheoleiddwyr a gynhelir yn ystod arolygiadau neu archwiliadau ac mae'r broses ar gyfer cadarnhau cymhwysedd technegol eisoes wedi'i chynnwys yn y ffi gynhaliaeth wrth arolygu safleoedd. Bydd cost fach hefyd i'r rheoleiddwr gynnwys enw llawn a rhif cymhwyster Rheolwr â Chymhwysedd Technegol ar y ffurflen wastraff flynyddol ac i fwrw golwg dros y ffurflenni hyn er mwyn lleihau achosion o dwyll.

4.4. Cymhwysedd a darpariaeth ariannol

Y sefyllfa bresennol

Disgwylir i bob gweithredwr fod mewn sefyllfa ariannol i gydymffurfio â rhwymedigaethau ei drwydded drwy gydol oes y drwydded honno. Mae hyn yn cynnwys yn ystod gweithrediadau o ddydd i ddydd ac wrth ddychwelyd y safle i gyflwr boddhaol cyn ildio'r drwydded. Mae'r rhan fwyaf o weithredwyr yn cydymffurfio â'u trwydded drwy lanhau'r safle cyn gwneud cais i ildio'r drwydded.

Er ei bod yn ofynnol i weithredwyr gweithrediadau tirlenwi a gwastraff cloddio wneud darpariaeth ariannol ar gyfer cau eu safle yn y dyfodol ac unrhyw ôl-ofal, nid yw hynny'n wir am weithredwyr gwastraff eraill.

Yr achos o blaid gweithredu

Mae angen i weithredwyr sicrhau bod y ffordd y maent yn gweithredu eu busnes yn cydymffurfio â'u trwydded. Gall methu â sicrhau seilwaith, mesurau atal llygredd, peirianwaith a chyfarpar digonol ar y safle neu fethu â darparu hyfforddiant digonol i staff oll arwain at berfformiad gwael ac achosion o dorri amodau trwyddedau. Felly mae'n bwysig sicrhau bod pawb sy'n gwneud cais am drwydded mewn sefyllfa ariannol briodol i fodloni'r rhwymedigaethau hyn. Lle na fydd gweithredwr yn bodloni'r gofyniad hwn, mae perygl y bydd y rhwymedigaeth dros ymdrin ag unrhyw wastraff sy'n weddill yn dod i ran y tirlfeddiannwr. Gall hyn ddigwydd pan fydd cwmni yn mynd yn fethdalwr, mewn achosion o ansolfedd lle y gellir dadhawlio'r drwydded fel eiddo beichus, neu pan fydd y gweithredwr yn dewis rhoi'r gorau i'r safle ac na ellir dod o hyd iddo. Gall hefyd gael ei achosi gan ddigwyddiad difrifol os na fydd y gweithredwr yn gallu ariannu'r gwaith glanhau.

Gall safleoedd gwastraff segur beri risg i iechyd, cynyddu'r risg o ddifrod i'r amgylchedd a chael effaith sylweddol ar amwynder lleol, gan gynnwys tarfu ar fusnesau yn yr ardal gyfagos. Bydd difrifoldeb unrhyw effaith yn dibynnu ar nifer o ffactorau, ond anaml y ceir ateb lle na fydd yn rhaid cael gwared ar y gwastraff a adawyd yn y pen draw. Bu nifer o achosion proffil uchel yn ystod y blynyddoedd diwethaf lle y rhoddodd gweithredwyr y gorau i weithredu safleoedd gan adael llawer iawn o wastraff ar y safleoedd hynny. Gwelwyd enghreifftiau o weithredwyr gwastraff yn pentyrru symiau mawr o wastraff ar safle cyn gadael y safle hwnnw gan adael i eraill ymdrin â'u rhwymedigaethau. Nid oes rhaid i'r gweithredwyr hyn dalu costau gwaredu'r gwastraff ac felly gallant gynnig prisiau is na gweithredwyr gwastraff cyfreithlon.

Yn ogystal, bu tanau gwastraff ar nifer o safleoedd gan ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau cyhoeddus ymyrryd dro ar ôl tro ac am gyfnodau estynedig ac achosi pryder

i gymunedau lleol a tharfu arnynt. Bu'r gost i reoleiddwyr a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn sylweddol.

Fel arfer, y tîrfeiddiannwr fydd yn gyfrifol am glirio safleoedd segur lle na ellir dod o hyd i'r gweithredwr, ond mewn rhai achosion, gall trethdalwyr dalu'r costau, yn enwedig lle na fydd gan y tir berchennog cydnabyddedig.

Ein cynigion

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cais am dystiolaeth yn 2015 o blaid cyflwyno asesiad o gymhwysedd ariannol a rhyw fath o ddarpariaeth ariannol gan weithredwyr gwastraff. Rydym wedi cyd-drafod â'r rheoleiddwyr, y diwydiant a rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn datblygu cynigion ar gyfer cymhwysedd ariannol a darpariaeth ariannol ymhellach.

Cymhwysedd Ariannol

Mae'n bwysig asesu sefyllfa a hygrededd ariannol gweithredwr yn ystod y cam gwneud cais am drwydded er mwyn sicrhau y gall gyflawni ei rhwymedigaethau o dan y drwydded honno. Ni ddylai'r gweithredwyr hynny na allant ddangos sefyllfa ariannol foddhaol gael trwydded. Mae hefyd yn bwysig y caiff cymhwysedd ariannol gweithredwr ei gynnal drwy gydol oes trwydded er mwyn sicrhau bod ganddo'r gallu ariannol i weithredu busnes gwastraff.

Wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau, gall rheoleiddwyr gynnal gwiriadau credyd er mwyn ystyried p'un a oes gan yr ymgeisydd y gallu ariannol (o hyd) i gyflawni rhwymedigaethau llawn ei drwydded(au). Fodd bynnag, yn gyffredinol dim ond pan gaiff y rheoleiddwr ei hysbysu bod yr ymgeisydd wedi bod yn destun achos ansolfedd neu'n destun achos ansolfedd ar hyn o bryd y cynhelir gwiriadau. Felly hefyd o ran gwiriadau yn ystod oes y drwydded.

Byddai gwella'r gwiriadau hyn yn rhoi mwy o sicrwydd bod gan ymgeiswyr y gallu ariannol i gyflawni rhwymedigaethau llawn eu trwydded. Nid ydym o'r farn bod cynyddu taliadau trwyddedu er mwyn galluogi'r rheoleiddwr i wneud hyn yn ddoeth pan fo sefydliadau trydydd parti eraill mewn gwell sefyllfa i gynnal gwiriadau effeithlon a phroffesiynol ar weithredwyr.

Mae'r Canllawiau Craidd yn nodi y dylai gweithredwr unrhyw gyfleuster wedi'i reoleiddio feddu ar y gallu ariannol i gydymffurfio â'i drwydded amgylcheddol ond maent hefyd yn nodi mai dim ond mewn achosion lle y mae ganddynt reswm dros amau hyfywedd ariannol y gweithgaredd y dylai rheoleiddwyr roi ystyriaeth benodol i solfedd ariannol. Rydym yn cynnig y dylai rheoleiddwyr allu gofyn i'r gweithredwr gyflwyno adroddiad annibynnol gan

sefydliad ariannol cydnabyddedig²⁰ gyda phob cais am drwydded a chais i drosglwyddo trwydded, ac unrhyw adeg yn ystod oes y drwydded.

Diben yr adroddiad yw asesu solfedd ariannol yr ymgeisydd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'i fodel busnes. Bydd yn rhoi'r ddealltwriaeth angenrheidiol o ran p'un a yw gweithredwr yn meddu ar gymhwysedd ariannol i gyflawni rhwymedigaethau ei drwydded ar adeg yr asesiad. Byddai'r rheoleiddiwr yn gallu dynodi'r fformat a'r cynnwys, a fydd yn gymesur â maint a chymhlethdod y cyfleuster a busnes y gweithredwr ac yn dibynnu ar y ffactorau hynny. Byddai'r wybodaeth yn llywio penderfyniadau trwyddedu a gorfodi'r rheoleiddiwr. Rydym hefyd yn disgwyl y bydd yr adroddiad o fudd i rai gweithredwyr wrth iddynt gynnal trafodaethau gyda darpar fuddsoddwyr.

C12. A ydych o'r farn y bydd adroddiad annibynnol sy'n ystyried diddyledrwydd busnesau a'u risgiau yn galluogi'r rheoleiddwyr i gadarnhau y gall gweithredwyr fodloni rhwymedigaethau eu trwydded yn ariannol?

Darpariaeth Ariannol

Gall fod angen dod o hyd i gyllid i dalu rhwymedigaethau a allai godi os na fydd gweithredwr yn gallu bodloni rhwymedigaethau ei drwydded neu os na fydd ar gael i wneud hynny. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cais am dystiolaeth o blaid cyflwyno rhyw fath o ddarpariaeth ariannol ar gyfer gweithrediadau gwastraff nad oeddent yn ymwneud â safleoedd tirlenwi. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y dylai'r ddarpariaeth ariannol gynnwys dychwelyd y tir i gyflwr boddhaol a chostau glanhau y gellir eu rhagweld mewn perthynas â thorri amod trwydded neu ddamwain amgylcheddol. Anogodd nifer o ymatebwyr y llywodraeth i gysylltu'r asesiad o ddarpariaeth ariannol â lefel y risg a oedd yn gysylltiedig â safle gwastraff.

Rhoddwyd ystyriaeth i'w gwneud yn ofynnol i weithredwyr drefnu yswiriant i gwmpasu cost symud gwastraff oddi ar eu safle. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaeth â'r diwydiant yswiriant, daeth yn amlwg y bydd yswirio gweithredwyr yn erbyn eu gweithredoedd anghyfreithlon eu hunain yn creu cymhellion gwrthnysig lle y gallai gweithredwr adael ei safle gan wybod mai'r yswiriwr fyddai'n talu'r gost am lanhau'r safle hwnnw. O ystyried hyn, mae'r farchnad yswiriant yn amharod i gynnig cynhyrchion yswiriant mewn perthynas â gweithredwyr sy'n gadael safle. Ystyriwyd yr opsiwn o greu uwch gronfa i'r diwydiant. Pe bai pob deiliad trwydded wastraff yn talu i mewn i'r gronfa, yna byddai rheoleiddwyr yn gallu defnyddio'r arian i dalu am glirio safleoedd segur. Diystyrwyd yr opsiwn hwn gan y gallai argaeled cronfa o'r fath beri i unigolion ddiystyru eu cyfrifoldebau ac, yn yr un modd â chynllun yswiriant, gymell gweithredwyr i adael eu safle. Yn ogystal, gallai cwmnïau mwy o faint

²⁰ A gydnabyddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol neu'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus

dalw cyfraniadau anghymesur i'r gronfa, er mai nhw fyddai'r rhai lleiaf tebygol o weithredu mewn ffordd a fyddai'n arwain at ddefnyddio'r gronfa.

Felly, nid yw'n gynllun hyfyr nac effeithiol i'r diwydiant cyfan sy'n cyfuno risg gweithredwyr mewn ffordd nad yw'n arwain at gymhellion gwrthnysig. Rydym o'r farn mai'r dull gweithredu mwyaf pragmataidd fyddai creu sefyllfa lle y gall gweithredwyr drefnu cytundebau darpariaeth ariannol unigol, yn seiliedig ar natur eu gweithrediad neu eu perfformiad fel gweithredwr, yn hytrach na'r sector cyfan.

Rydym o'r farn bod manteision sylweddol yn gysylltiedig â rhoi'r pŵer i reoleiddwyr ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr wneud darpariaeth ariannol. Byddai hyn yn galluogi'r rheoleiddwyr i ddefnyddio ei holl bwerau gorfodi er mwyn sicrhau bod gweithredwyr yn bodloni'r gofyniad hwn.

Byddai ei gwneud yn ofynnol i weithredwr pob safle gwastraff wneud darpariaeth ariannol yn cyflawni'r amcan polisi i leihau'n sylweddol nifer y safleoedd gwastraff a gaiff eu gadael, felly hefyd y costau i drethdalwyr mewn perthynas â chlirio safleoedd gwastraff segur. Byddai hyn yn wrthanogaeth sylweddol i weithredwr bentyrri gwastraff ac yna adael y safle. Byddai hefyd yn cynyddu ymddygiad cydymffurfiol ym mhob rhan o'r sector gwastraff, gan y byddai gweithredwyr yn cael cymhelliant i weithredu eu busnes yn unol ag amodau eu trwydded er mwyn osgoi'r risg o ansolfedd neu o fynd i ddwylo'r gweinyddydd. Awgrymodd nifer o ymatebwyr i'r cais am dystiolaeth y dylai'r gofyniad i wneud darpariaeth ariannol fod yn berthnasol i weithredwyr risg uwch yn hytrach na phob gweithredwr safle gwastraff. Byddai targedu darpariaeth ariannol yn y fath fodd yn arwain at leihad yn nifer y safleoedd a gaiff eu gadael ac yn lleihau'r costau i drethdalwyr sy'n gysylltiedig â chlirio gwastraff a adawyd. Byddai hefyd yn sicrhau cydbwysedd rhwng diogelu pwrs y wlad rhag cynnydd mewn costau i fusnesau gwastraff, gan mai dim ond cyfran fach o gyfanswm nifer y safleoedd yw'r nifer o safleoedd gwastraff a gaiff eu gadael.

C13. Yn eich barn chi, a ddylai fod yn ofynnol i bob gweithredwr safle gwastraff wneud darpariaeth ariannol, neu weithredwyr risg uwch yn unig?

Os mai dim ond at y gweithredwyr risg uwch y caiff y ddarpariaeth ariannol ei thargedu, bydd angen fframwaith ategol clir ar y rheoleiddwyr sy'n nodi meini prawf perthnasol er mwyn sicrhau y gwneir hyn mewn ffordd deg a chyson. Nid oes unrhyw arwydd penodol bod gweithredwr yn debygol o fethu neu fod safle yn debygol o gael ei adael. Fodd bynnag, mae rhai ffactorau penodol a all ddangos risg gynyddol y bydd hyn yn digwydd neu y bydd yr effaith yn arbennig o ddifrifol. Gall y rhain gynnwys ffactorau megis math o wastraff, amodau'r farchnad, potensial o ran llygredd, risg i amwynder lleol, agosrwydd at seilwaith trafndiaeth, cymhwysedd ariannol. Unwaith y bydd y fframwaith wedi'i ddatblygu, caiff ei gynnwys yn y canllawiau.

C14. Pa feini prawf risg y dylid eu hystyried yn eich barn chi wrth benderfynu pa weithrediadau gwastraff a ddylai wneud darpariaeth ariannol ofynnol?

Mynegodd llawer o'r ymatebwyr i'r cais am dystiolaeth yn 2015 y farn y dylai swm y ddarpariaeth ariannol fod yn seiliedig ar gost dychwelyd y tir i gyflwr boddhaol er mwyn bodloni gofynion ildio'r drwydded a'r costau glanhau y gellid eu rhagweld yn deillio o dorri amod trwydded neu ddamwain amgylcheddol.

Rydym o'r farn y dylai'r ddarpariaeth ariannol adlewyrchu cost clirio'r uchafswm gwastraff a ganiateir ar y safle o dan y drwydded ar unrhyw un adeg a chael gwared ar y gwastraff hwnnw i safle tirlenwi (neu'r dewis amgen mwyaf priodol os nad yw safle tirlenwi yn opsiwn). Dylai defnyddio safle tirlenwi fel y llwybr gwaredu tybiedig sicrhau bod digon o arian ar gael i gwblhau'r gwaith clirio.

Mae llawer o drwyddedau yn dynodi uchafswm trwybwn yn hytrach nag uchafswm storio. Mewn achosion o'r fath, câi swm y ddarpariaeth ei gyfrifo gan ddefnyddio ffigurau a ddarparwyd gan y gweithredwr gan nodi uchafswm y gwastraff yn ôl math y byddai'n ei storio ar ei safle ar unrhyw adeg benodol. Câi'r ffigurau hyn eu cynnwys yng nghynllun rheoli'r gweithredwr a byddant yn gyfrwymol.

C15. A ydych o'r farn y byddai'r sail a gynigir ar gyfer cyfrifo swm y ddarpariaeth ariannol yn ddigon?

O dan amgylchiadau eithriadol, rydym yn cynnig y gall rheoleiddwyr ehangu'r ddarpariaeth i gynnwys costau ymateb i achos o dorri amod trwydded neu ddamwain amgylcheddol a chwblhau camau adfer cysylltiedig lle bo'r risgiau yn cyfiawnhau hyn. Câi canllawiau ar 'amgylchiadau eithriadol' eu nodi.

C16. A ydych o'r farn y dylai rheoleiddwyr allu ehangu darpariaeth ariannol mewn amgylchiadau eithriadol?

Rydym yn cydnabod gwerth cynhenid rhai ffrydiau gwastraff penodol, er enghraifft metel sgrap, a all olygu y byddai adfer y gwastraff yn opsiwn hyfyw. Fodd bynnag, mae amrywioldeb o ran gwerth gwastraff o'r fath ar y farchnad a'r potensial y bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r broses o'u gwahanu i'w hadfer yn golygu na ellir bob amser ddefnyddio cyfradd adfer safonol wrth gyfrifo'r ddarpariaeth ariannol sydd ei hangen. Un opsiwn i'w ystyried er mwyn adlewyrchu'r gwerth cynhenid ond amrywiol hwn fyddai darparu gostyngiad canrannol sefydlog ar lefel y ddarpariaeth ariannol sydd ei hangen ar gyfer gwastraff â gwerthoedd adfer sylweddol.

C17. A ydych o'r farn y dylid lleihau lefel y ddarpariaeth ariannol ofynnol ar gyfer gwastraff sydd â gwerth adfer sylweddol y gellir ei ddangos?

Er mwyn cymhwyso darpariaeth ariannol, byddai rheoleiddwyr yn llunio model costau safonol a chanllawiau cysylltiedig y byddai'n ofynnol i weithredwyr eu dilyn er mwyn cyfrifo swm y ddarpariaeth. Byddai gweithredwyr yn cyfrifo eu hatebolrwydd ac yn nodi pa system yr hoffent ei defnyddio er mwyn gwneud y ddarpariaeth. Wedyn, byddai'r gweithredwr a'r

rheoleiddiwr yn cytuno ar y swm a'r system. Byddai angen i'r ddau barti adolygu'r swm a'r system o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n ddigonol ac yn ddiogel.

Mae nifer o opsiynau sefydledig ar gael ar gyfer gwneud darpariaeth ariannol a ddefnyddir eisoes gan weithredwyr safleoedd tirlenwi, gan gynnwys bondiau perfformiad, adneuon arian parod gan drydydd partïon a chyfrifon ysgrow. Rhaid i unrhyw system sicrhau bod digon o arian ar gael, a bod yr arian hwnnw yn ddiogel (hyd yn oed mewn achos o ansolfedd) ac y bydd ar gael pan fydd ei angen. Ar hyn o bryd, gall gweithredwyr safleoedd tirlenwi ddewis defnyddio bondiau gwrth-ansolfedd, neu fel arall, ddiogelu neu neilltuo arian drwy gyfrifon ysgrow neu gyfrifon a reolir gan ymddiriedolaeth. Rydym o'r farn, yn yr un modd â'r sector tirlenwi, y dylai gweithredwyr eraill allu cytuno ar y math mwyaf priodol o ddarpariaeth ariannol i fodloni'r meini prawf hyn gyda'r rheoleiddiwr.

C18. A ydych o'r farn ei bod yn briodol i weithredwyr gytuno ar y ffordd o wneud darpariaeth ariannol gyda'r rheoleiddiwr?

Rheoli cronfeydd darpariaeth ariannol

Mae eisoes yn ofynnol i weithredwyr safleoedd tirlenwi wneud darpariaeth ariannol ar gyfer cynnal a chadw a darparu ôl-ofal ar eu safleoedd yn yr hirdymor. Maent yn gwneud darpariaeth ariannol gan ddefnyddio amrywiaeth o wahanol systemau ac mae'r rheoleiddwyr yn bwrw golwg dros y systemau hynny, yn cytuno arnynt ac yn eu gweinyddu. Fel arfer, nid yw rôl graidd rheoleiddwyr yn cynnwys rheoli cronfeydd. Mae sefydliadau eraill yn meddu ar fwy o arbenigedd a phrofiad yn y maes hwn. Yn ogystal, os bydd rheoleiddwyr yn rheoli cronfeydd yn uniongyrchol, gall hyn achosi problemau, gyda chronfeydd yn cael eu colli pan fydd cwmni yn cael ei ddiddymu ac yn gwadu ei drwydded fel eiddo beichus.

Rydym o'r farn y gallai fod yn fuddiol trefnu bod y gwaith o gynnal a gweinyddu'r ddarpariaeth ariannol yn cael ei is-gontractio i sefydliadau ariannol trydydd parti. Byddai'r rheoleiddiwr yn parhau'n gyfrifol am gytuno ar y swm o ddarpariaeth ariannol sydd ei angen ac yn goruchwyllo cytundebau cyfreithiol a fyddai'n llywodraethu'r defnydd o'r ddarpariaeth honno.

C19. A ydych o'r farn ei bod yn fuddiol cynnwys sefydliadau ariannol yn y broses o ddal a rheoli cronfeydd darpariaeth ariannol? Beth yw'r cyfleoedd a'r risgiau?

Rhaid i swm y ddarpariaeth ariannol y mae'n ofynnol i weithredwr safle tirlenwi ei gwneud fod yn ddigonol i gyflawni rhwymedigaethau'r drwydded. Mae hyn yn cynnwys rhwymedigaethau cau ac ôl-ofal a swm ar gyfer digwyddiadau penodedig, megis gollyngiad nwy neu drwytholch yn gollwng.

Os na ellir dod o hyd i'r gweithredwr, gall y rheoleiddiwr ymyrryd i gynnal y gwaith a ganiateir o dan gytundeb y ddarpariaeth ariannol. Wrth weithredu fel y 'gweithredwr pan

fetho popeth arall', bydd yn mynd i gostau nas cwmpesir gan gronfa'r ddarpariaeth ariannol. Gall y costau hyn fod yn sylweddol a gallant gynnwys camau gweithredu megis cyflwyno tystysgrif o fethiant, ystyried risgiau llygredd penodol sy'n gysylltiedig â'r safle a chynnal ymarfer tendro er mwyn dod o hyd i ymgynghorwyr neu contractwyr i ddileu'r risgiau llygredd. Mae'r costau hyn yn anochel ac ymddengys yn afresymol nad ydynt yn cael eu hystyried yn unol â'r 'egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu' a bod y rheoleiddiwr yn gorfod eu talu yn lle hynny.

C20. A ydych o'r farn y dylid dod o hyd i arian amgen er mwyn talu costau rheoli safleoedd pan fydd y gweithredwr yn absennol? Beth yw'r ffordd orau o gyflawni hyn?

Sicrhau bod cronfeydd darpariaeth ariannol yn parhau i adlewyrchu rhwymedigaethau

Cyfrifir darpariaeth ariannol gweithredwr safle tirlenwi yn ystod y cam gwneud cais am drwydded a dim ond yn erbyn chwyddiant neu er mwyn gwneud amrywiad sylweddol i'r drwydded y caiff y proffil costau a'r amserlen ar gyfer cronni a defnyddio'r arian eu hadolygu fel arfer. Yn unol â'r canllawiau, nid yw'r rheoleiddwyr yn cynnal gwiriadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gweithredwr yn datblygu ac yn cynnal ei gronfeydd fel y cytunwyd, neu ei fod yn codi ffi glwyd ddigonol (fel sy'n ofynnol gan y Gyfarwydddeb Tirlenwi) i dalu am gostau yn y dyfodol. Felly, mae risg na fydd digon o incwm i ariannu gwaith atal llygredd hanfodol.

Er mwyn sicrhau bod swm y ddarpariaeth ariannol sydd ar gael yn adlewyrchu costau yn y dyfodol yn fwy cywir, byddai angen i reoleiddwyr ofyn am wybodaeth ddiweddar yn amlach gan weithredwyr am y gwaith a wneir ar eu safle a'r arian sydd ar gael ar gyfer gwaith yn y dyfodol er mwyn gallu cymharu hyn â'r costau a ragwelir. Bydd trefn fwy cadarn ar gyfer craffu ar yr arian sydd ar gael i gynnal gwaith yn y dyfodol yn lleihau'r risg na fydd digon o arian ar gael.

C21. A ydych o'r farn y dylai gweithredwyr safleoedd tirlenwi roi gwybod am waith presennol ac arfaethedig ar eu safle a chyflwr eu cronfa darpariaeth ariannol yn fwy rheolaidd? A oes ffyrdd mwy effeithiol o atal diffygion ar gyfer cynnal a chadw ac ôl-ofal?

Effeithiau'r newid hwn

Cymhwysedd Ariannol

Gweithredwyr gwastraff

Bydd angen i weithredwr gael adroddiad ariannol annibynnol wrth wneud cais am drwydded newydd neu drosglwyddo trwydded. Yn seiliedig ar arolwg bach o gynhyrchion gwirio iechyd busnesau a gynigir gan y sector gwasanaethau ariannol, rydym yn disgwyl y bydd hyn yn costio tua £50 i weithredwyr am bob adroddiad. Cafwyd 1,167 o geisiadau am drwyddedau newydd a cheisiadau i drosglwyddo trwyddedau yn 2016 felly amcangyfrifir mai uchafswm y gost fydd £58,000 y flwyddyn.

Rheoleiddwyr

Bydd rheoleiddwyr yn asesu'r adroddiad ariannol annibynnol fel rhan o'r broses o benderfynu ar gais a bydd angen sicrhau adnoddau ar gyfer hyn. Cyfrifir mai cyfanswm y gost ychwanegol i reoleiddwyr fydd £26,000 y flwyddyn.

Darpariaeth Ariannol

Drwy sicrhau y gall rheoleiddwyr fynnu darpariaeth ariannol dylid lleihau nifer y safleoedd gwastraff a gaiff eu gadael. Byddai hyn yn cael effeithiau cadarnhaol ar yr amgylchedd naturiol a chymdeithas gan y byddai llai o wastraff yn cael ei adael. Byddai manteision ariannol hefyd i drethdalwyr, gan y byddai llai o arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i glirio gwastraff a adawyd. Bydd y gost i'r diwydiant gwastraff yn dibynnu ar b'un a gaiff darpariaeth ariannol ei thargedu neu ei rhoi gan bob safle gwastraff.

5. Costau a manteision amcangyfrifedig y cynigion

Datblygwyd asesiad o'r effaith er mwyn amcangyfrif y costau a'r manteision mewn perthynas â'r economi, yr amgylchedd a chymdeithas sy'n deillio o'r cynigion i atgyfnerthu cymhwysedd gweithredwyr.

Bydd y prif gostau yn berthnasol i weithredwyr safleoedd gwastraff a'r rheoleiddiwr. Nodir costau penodol ym mhob cynnig. Bydd gweithredwyr yn wynebu costau pontio er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar gymhwysedd technegol, llunio systemau rheoli a dod yn gyfarwydd â'r newidiadau. Bydd cost barhaus hefyd i weithredwyr er mwyn cael adroddiad cymhwysedd ariannol. Y brif gost i reoleiddwyr fydd yr amser ychwanegol i fwrw golwg dros adroddiadau cymhwysedd ariannol fel rhan o geisiadau am drwyddedau a cheisiadau i drosglwyddo trwyddedau.

Bydd y cynigion yn lleihau nifer y safleoedd â pherfformiad gwael. Bydd hyn yn arwain at fanteision i gymdeithas gan y caiff difrod amgylcheddol ei osgoi ac y bydd llai o effeithiau ar gymunedau lleol. Bydd gostyngiad yn nifer y safleoedd â pherfformiad gwael hefyd yn golygu y bydd yn rhaid i'r rheoleiddwyr ymdrin â llai o achosion o lygredd sy'n gysylltiedig â safleoedd â pherfformiad gwael. Bydd manteision anariannol yn deillio o'r cynigion hefyd. Yn bennaf, bydd y cynigion yn arwain at greu sefyllfa decach lle na fydd mor hawdd

i weithredwyr gwastraff nad ydynt yn cydymffurfio godi prisiau is na busnesau cyfreithlon sy'n cydymffurfio. Mae'r manteision anariannol eraill yn cynnwys lleihau effeithiau ar iechyd sy'n deillio o achosion o lygredd a'r gwelliant yn enw da'r diwydiant gwastraff gan na fydd cymaint o gyhoeddusrwydd gwael yn cael ei roi i safleoedd sy'n perfformio'n wael.

Gwnaed nifer o ragdybiaethau wrth gyfrifo'r costau a'r manteision. Roedd y prif ragdybiaethau fel a ganlyn: amcangyfrif y gyfran o weithredwyr gwastraff y byddai'r ymyriad yn effeithio arnynt, y costau i weithredwyr safleoedd gwastraff a'r lleihad yn nifer y safleoedd â lefelau gwael o gydymffurfiaeth yn deillio o'r ymyriad.

Adolygodd y Pwyllgor Polisi Rheoleiddiol (PPRh), sef corff cyhoeddus anadrannol cynghorol annibynnol sy'n craffu ar y dystiolaeth a'r gwaith dadansoddi sy'n cefnogi amcangyfrifon o gostau a manteision mewn cynigion rheoliadol, yr asesiad drafft o'r effaith sy'n ymwneud â Rhan A (cymhwysedd gweithredwr) o'r ymgynghoriad. Mae'r PPRh wedi nodi bod angen gwneud mwy o waith ar yr asesiad drafft o'r effaith er mwyn egluro sut y cafodd costau a manteision eu cyfrifo, yn ogystal â mynd i'r afael â phroblemau dadansoddi technegol.

Roedd y PPRh yn amau'r ffordd yr aethom ati i amcangyfrif costau a manteision uniongyrchol y cynigion i fusnesau, ac yn benodol a gafodd pob un o'r opsiynau a ystyriwyd (h.y. opsiwn 1, y sefyllfa bresennol, a gweithredu rheoliadau tynnach yn opsiwn 2 ac opsiwn 3) eu cymharu â'r un llinell sylfaen, gan y byddai hyn yn newid y costau a'r manteision cymharol a gyfrifir ar gyfer pob opsiwn, ac yn arwain o bosibl at risg o gyfrif dwbl. Gofynnodd y PPRh hefyd am i daflen gyfrifo gwyno gael ei hychwanegu er mwyn manylu ar gostau a manteision disgwyledig opsiwn 3.

Caiff yr asesiad o'r effaith a gynhaliwyd ar ôl yr ymgynghoriad ei ddiwygio er mwyn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a mynd i'r afael â sylwadau'r PPRh. Dim ond pan fydd y PPRh yn barod i'w gymeradwyo'n derfynol y caiff asesiad diwygiedig o'r effaith ei gyhoeddi ochr yn ochr ag ymateb terfynol y llywodraeth.

C22. A ydych wedi gweld unrhyw gynnydd neu ostyngiad mewn lefelau troseddu a pherfformiad gwael yn y sector gwastraff yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf? Beth yw eich disgwyliadau ar gyfer y dyfodol os na fydd dim byd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r mater?

C23. Yn gyffredinol, pa mor effeithiol fyddai Opsiynau 2 a 3, yn eich barn chi, fel y'u disgrifir yn yr asesiad o'r effaith, o ran mynd i'r afael â throseddau a pherfformiad gwael yn y sector gwastraff? Pa opsiwn sydd orau gennych?

C24. A ydych o'r farn y bydd unrhyw un o'r cynigion yn gosod costau ychwanegol arnoch chi neu'ch sefydliad?

C25. A ydych o'r farn bod y dull dadansoddi arfaethedig yn cwmpasu'n briodol yr holl gostau a manteision a fyddai'n deillio o weithredu'r cynigion?

C26. A ydych o'r farn na ddylid cyfrif am unrhyw rai o'r costau a'r manteision a gwmpesir yn yr asesiad o'r effaith yn y broses gostio hon?

C27. A oes gennych unrhyw dystiolaeth a fyddai'n cefnogi'r cyfrifiad o fanteision neu gostau'r cynigion o ran cymhwysedd gweithredwr i fusnesau? A ydych yn ymwybodol o unrhyw ffynonellau eraill o dystiolaeth a fyddai'n gwella'r broses gostio?

RHAN B: Diwygio eithriadau gwastraff

Mae Rhan B o'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar opsiynau i newid yr eithriadau gwastraff er mwyn eu hatal rhag cael eu defnyddio i guddio troseddau gwastraff.

1. Cefndir

Mae eithriadau gwastraff yn eithrio rhag bod angen trwydded amgylcheddol ar gyfer gweithrediadau adfer a gwaredu gwastraff. Ers cyflwyno eithriadau am y tro cyntaf yn 1994, mae'r llywodraeth wedi eu defnyddio'n helaeth i ddarparu dull rheoleiddio cyffyrddiad ysgafn ar gyfer gweithgareddau rheoli gwastraff risg isel ar raddfa fach.

Yng Nghymru a Lloegr, mae 59 o fathau o weithrediadau gwastraff eithriedig ar gael ar gyfer defnyddio, trin, storio a gwaredu gwastraff. Ar hyn o bryd, fe'u rhagnodir yn Atodlen 3 i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016.²¹ Ceir darpariaethau tebyg yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Ac eithrio eithriad T11 ar gyfer trin cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff, gellir cofrestru un eithriad neu fwy ar safle am ddim. Mae'r cofrestriad yn ddilys am dair blynedd ac wedyn bydd yn dirwyn i ben yn awtomatig, a gellir ei ailgofrestru neu ei "adnewyddu" am gyfnod arall o dair blynedd. Mae pob eithriad yn cynnwys amodau sy'n nodi'r mathau o wastraff a'r symiau o wastraff y gellir eu rheoli. Mae'r amodau hefyd yn nodi pa driniaethau y gellir eu cynnal, sut y dylid storio'r gwastraff a pha fesurau diogelwch amgylcheddol y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw.

Nid yw cofrestru eithriad yr un peth â gwneud cais am drwydded amgylcheddol a chael y drwydded honno. Mae trwydded yn gyfystyr â "chaniatâd" gan y rheoleiddwyr i ymgymryd â chyfres benodol o weithgareddau. I'r gwrthwyneb, drwy gofrestru eithriad, mae'r sefydliad neu'r ymgymerydd yn hunanardystio ei fod wedi darllen ac wedi deall amodau'r gweithgaredd eithriedig ac y bydd yn cydymffurfio â nhw. Ar adeg cofrestru, nid yw'r rheoleiddwyr yn asesu p'un a yw'r meini prawf a ddiffinnir yn yr eithriad wedi'u bodloni.

Fel dewis cyffyrddiad ysgafn amgen i'r gyfundrefn drwyddedu, bu eithriadau gwastraff yn llwyddiannus. Fe'i defnyddir yn eang ac mae tua 500,000 o eithriadau wedi'u cofrestru gyda'r rheoleiddwyr ar fwy na 100,000 o safleoedd yng Nghymru a Lloegr. Caiff eithriadau eu cofrestru gan fusnesau yn bennaf ond hefyd gan elusennau, ysgolion, sefydliadau sector cyhoeddus a chyrff y llywodraeth. Caiff cyfran fawr o eithriadau eu cofrestru ar safleoedd amaethyddol gan ffermwyr.

²¹ <http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2016/1154/contents/made>

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr yn rheoleiddio 57 allan o'r 59 o weithrediadau gwastraff eithriedig, ac awdurdodau lleol sy'n rheoleiddio'r ddau arall²².

Ar hyn o bryd, bydd y rheoleiddwyr yn arolygu safleoedd gwastraff eithriedig pan fydd problemau yn codi neu pan geir gwybodaeth am weithgarwch anghyfreithlon. Maent hefyd yn cynnal rhai ymgyrchoedd arolygu wedi'u targedu ar gyfer ffrydiau gwastraff penodol neu is-sectorau penodol o'r diwydiant. Adlewyrchir y dull gweithredu hwn gan y ffaith bod y broses o weinyddu'r gofrestr gyhoeddus a'r gwaith o arolygu gweithrediadau gwastraff eithriedig wedi'i hariannu'n llwyr drwy gymorth grant Defra a Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn wahanol i weithrediadau sy'n destun trwydded amgylcheddol, lle bydd ymgeiswyr yn talu ffioedd a lle y bydd cyfleusterau wedi'u rheoleiddio yn destun taliadau blynyddol yn seiliedig ar ffactorau megis natur y safle a'r cofnod cydymffurfiaeth. Mae'r taliadau hyn yn ariannu prosesau parhaus ar gyfer cadarnhau cydymffurfiaeth ar y safleoedd gwastraff hyn trwyddedig.

Lle bo arolygiadau yn datgelu nad yw safle penodol yn cydymffurfio â'r rheolau a osodwyd ar gyfer eithriad, mae dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd i ddileu'r eithriad hwn o'r gofrestr gyhoeddus. Mae gweithrediad gwastraff nad yw'n bodloni'r amodau a'r terfynau a nodir yn yr eithriad a gofrestrwyd ac nad oes ganddo drwydded yn anghyfreithlon, hyd yn oed os yw'r eithriad wedi'i gofrestru o hyd gyda'r rheoleiddwyr.

2. Yr achos o blaid gweithredu

Cododd ymatebwyr i'r cais am dystiolaeth ar raddau'r troseddau gwastraff ar safleoedd sy'n gweithredu o dan eithriadau cofrestredig nifer o bryderon am y ffordd y caiff eithriadau eu camddefnyddio i guddio gweithrediadau gwastraff anghyfreithlon. Argymhellodd Adroddiad ESA 2017²³ hefyd y dylid adolygu eithriadau gwastraff er mwyn sicrhau mai dim ond gweithgareddau gwirioneddol risg isel a gwmpesir ganddynt, a bod cyllid ar gael i gefnogi arolygiadau rheolaidd. Yn ogystal, fel rhan o Adolygiad Gwastraff Biwrocratiaeth²⁴ llywodraeth y DU 2016, cododd rhai sefydliadau bryderon bod eithriadau yn caniatáu gweithgareddau sy'n gorgyffwrdd â thrwyddedau rheolau safonol.

²² Yr eithriadau yw T3 (trin metelau gwastraff ac aloiau metel drwy eu gwresogi at ddibenion tynnu saim ac ati) a T7 (trin brics, teils a choncrid gwastraff drwy eu gwasgu, eu malurio neu eu lleihau mewn maint)

²³ http://www.esauk.org/esa_reports/20170502_Rethinking_Waste_Crime.pdf

²⁴ <https://www.gov.uk/government/publications/waste-and-recycling-sector-cutting-red-tape-review>

Ers i'r rheolau ar gyfer eithriadau gael eu hailwampio'n gynhwysfawr ddiwethaf yn 2010, gwelwyd tystiolaeth gynyddol bod rhai gweithredwyr yn ymgymryd â gweithgareddau gwastraff anghyfreithlon ar safleoedd eithriedig. Mae rheoleiddwyr, grwpiau'r diwydiant a chyrff masnach oll wedi nod eithriadau sydd â photensial uchel ar gyfer cuddio gweithgarwch anghyfreithlon megis pentyrru llawer iawn o wastraff heb ei ddogfennu neu wastraff anaddas ac osgoi'r Dreth Dirlenwi.

Mewn ymateb i hyn, cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd adolygiadau eang eu cwrpas o'r gyfundrefn eithriadau yn 2015 a 2016. Fel rhan o'r adolygiadau hyn, trafododd y rheoleiddwyr y gyfundrefn â busnesau a chyrff masnach, casglwyd tystiolaeth o astudiaethau achos ac, yn achos Asiantaeth yr Amgylchedd, cynhaliwyd ymgyrch ymweliadau â safleoedd.

2.1. Casglu tystiolaeth

Adolygodd Asiantaeth yr Amgylchedd y data ar eithriadau a ddaliwyd ar ei systemau ac ymgynghorodd â staff ardal drwy wneud cais am dystiolaeth i gadarnhau pa eithriadau gwastraff oedd fwyaf tebygol o allu cuddio gweithgareddau anghyfreithlon. Drwy'r ymarfer hwn a thrafodaethau â'r diwydiant, nodwyd bod 10 eithriad yn peri'r pryder mwyaf, sef:

- U1 - Defnyddio gwastraff mewn gwaith adeiladu
- U16 - Defnyddio cerbydau diwedd oes dadlygredig ar gyfer cydrannau
- T4 - Triniaethau paratoadol (bwndelu, didoli, rhwygo ac ati)
- T6 - Trin pren gwastraff
- T8 - Trin teiars diwedd oes yn fecanyddol
- T9 - Adfer metel sgrap
- T12 - Trin gwastraff â llaw
- D7 - Llosgi gwastraff yn yr awyr agored
- S1 - Storio gwastraff mewn cynwysyddion diogel
- S2 - Storio gwastraff mewn man diogel

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymarfer hwn, cynlluniodd Asiantaeth yr Amgylchedd ymgyrch i ymweld â 589 o safleoedd a oedd yn cynnwys gweithrediadau gwastraff eithriedig cofrestredig ledled pum ardal o dan Asiantaeth yr Amgylchedd. Cynlluniwyd yr ymgyrch i lunio dadansoddiad ystadegol o lefel y troseddu ar gyfer pob un o'r deg eithriad a oedd yn peri pryder ac i nodi'r mathau allweddol o droseddau a oedd yn digwydd ar safleoedd eithriedig. Canolbwyntiodd yn gyfan gwbl ar eithriadau a gofrestrwyd ar

safleoedd nad oeddent yn safleoedd amaethyddol, yn dilyn gwaith dadansoddi a ddangosodd fod llawer o ffermwyr yn cofrestru pob eithriad 'rhag ofn' ac nad oedd llawer ohonynt yn cael eu defnyddio. Ochr yn ochr â'r ymgyrch, lluniodd Asiantaeth yr Amgylchedd 48 o enghreifftiau ar ffurf astudiaethau achos o weithgarwch anghyfreithlon ar safleoedd eithriedig a siaradodd â chyrff masnach gan ofyn am safbwyntiau pellach ar y gyfundrefn eithriadau.

Yng Nghymru, cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd adolygiad a oedd yn cynnwys y Ganolfan Gofal Cwsmeriaid, y Gwasanaeth Trwyddedu a'r timau Gweithrediadau a Strategaeth Gwybodaeth a Chynllunio. Cysylltwyd â rhanddeiliaid allanol allweddol a sefydliadau ategol er mwyn cael trosolwg anffurfiol o'u pryderon mewn perthynas â'r system eithriadau gwastraff bresennol. Edrychodd yr adolygiad ar y ffynonellau data sydd ar gael ar hyn o bryd (system cofnodi digwyddiadau, rhestrau gwastraff anghyfreithlon a'r system cofrestru eithriadau), data gofal cwsmeriaid (arolwg diweddar o'r system gofrestru, data ymholiadau ac atgyfeiriadau), ymchwiliadau i ddigwyddiadau, adroddiadau asesu cydymffurfiaeth ac achosion llys er mwyn asesu cysylltiadau tystiolaethol â materion yn ymwneud ag eithriadau gwastraff.

2.2. Canfyddiadau


Cwblhawyd ymgyrch Asiantaeth yr Amgylchedd yn 2016 a chadarnhaodd y canfyddiadau y pryderon a godwyd gan y diwydiant a'r cyrff masnach. O blith yr holl safleoedd yr ymwelwyd â nhw, cafwyd bod 30% yn anghyfreithlon neu o bosibl yn anghyfreithlon (gan olygu nad oedd yn bosibl cadarnhau cydymffurfiaeth). Nid oedd 22% arall o'r safleoedd yn defnyddio'r eithriadau a gofrestrwyd (gweler Ffigur 1). Yn gyffredinol, nododd yr ymgyrch fod angen dadgofrestru 38% o'r safleoedd yr ymwelwyd â nhw ac argymhellwyd nifer o erlyniadau a rhybuddion ffurfiol. O blith y safleoedd hynny a oedd yn anghyfreithlon, y problemau mwyaf cyffredin a nodwyd oedd ymdrin â gwastraff nas caniatwyd gan yr eithriad hwnnw neu y tu hwnt i'r terfynau maint a ganiatwyd o dan yr eithriad hwnnw.

Nododd Swyddogion Asiantaeth yr Amgylchedd bryderon hefyd o ran lleoliad neu weithrediad rhai safleoedd a oedd yn cydymffurfio. Nid yw lleoliad safleoedd na chymhwysedd technegol yn ffactorau a gaiff eu nodi'n gyffredinol mewn amodau ar eithriadau gan fod angen cynnal rhywfaint o waith arolygu mewn perthynas â nhw.

Roedd tystiolaeth ychwanegol o astudiaethau achos Asiantaeth yr Amgylchedd yn ategu canfyddiadau'r ymgyrch. Mewn rhai achosion, cafwyd bod safleoedd yn storio degau ar filoedd o dunelli o wastraff, rhwng 20 a 30 gwaith yn fwy o wastraff na'r terfyn a ganiatwyd yn eu heithriad.

Yng Nghymru, canfu adolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru, o blith y 46 o safleoedd gwastraff yr amheuwyd eu bod yn anghyfreithlon lle roeddent yn cynnal ymchwiliadau, fod 40% o'r safleoedd hyn yn camddefnyddio eithriadau. O blith y safleoedd a aseswyd ar gyfer y

mathau o eithriadau sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch anghyfreithlon, roedd tua dwy ran o dair o'r safleoedd gwastraff anghyfreithlon yn camddefnyddio eithriad U1.



Ffigur 1 Statws cydymffurfiaeth safleoedd gwastraff eithriedig yr ymwelwyd â nhw fel rhan o ymgyrch Asiantaeth yr Amgylchedd

2.3. Defnyddio eithriadau i guddio gweithgareddau anghyfreithlon

Mae rhai achosion o dorri amodau eithriadau yn gymharol ddibwys ac yn dechnegol eu natur a gall gweithredwyr sy'n ymrwymedig i unioni'r sefyllfa ddychwelyd i sefyllfa lle y byddant yn cydymffurfio. Mae achosion eraill o dorri amodau yn fwriadol. Yn yr achosion hyn, defnyddir y broses o gofrestru eithriad mewn gwirionedd i osgoi costau trwydded ac i guddio troseddau gwastraff. Mae'r weithred o gofrestru eithriad yn cynnig llwybr hawdd i mewn i'r diwydiant gwastraff heb lawer o rwystrau i ymuno â'r farchnad a lefelau goruchwyliaeth reoleiddiol isel. Fe'i defnyddir hefyd i gyfleu i gwsmeriaid bod gweithrediad yn gyfreithlon gan ei fod wedi'i gofrestru â'r rheoleiddwyr. Mae hyn yn golygu y gall safleoedd gwastraff anghyfreithlon ag eithriadau cofrestredig 'guddio yn y golwg', gan weithredu ochr yn ochr â safleoedd gwastraff sy'n cydymffurfio a chystadlu'n uniongyrchol â'r safleoedd hynny heb fawr ddim risg y cânt eu darganfod.

Gall gweithgareddau anghyfreithlon ar safleoedd eithriedig achosi llygredd difrifol i'r amgylchedd naturiol a diflastod i gymunedau cyfagos o ganlyniad i arogleuon, sbwriel,

llwch, fermin, plâu a thanau. Mae ymdrin â'r achosion hyn yn arwain at gostau sylweddol i dirfeddianwyr, rheoleiddwyr ac awdurdodau lleol.

Mae'r safleoedd anghyfreithlon hyn hefyd yn wrthgystadleuol; gan danseilio busnesau eraill a gweithredu fel gwrthanogaeth i fuddsoddiad. Yn wir, mae'r diwydiant gwastraff wedi nodi bod gweithgarwch anghyfreithlon sy'n gysylltiedig ag eithriadau yn broblem allweddol sy'n tanseilio busnesau cyfreithlon yn y sector. Amcangyfrifodd adroddiad ESA fod gweithgarwch anghyfreithlon ar safleoedd ag eithriadau cofrestredig yn costio £87m y flwyddyn i'r economi yn Lloegr o ran trosiant coll i'r diwydiant rheoli gwastraff cyfreithlon a reffeniw treth coll.

Felly, bwriad y llywodraeth, drwy'r ymgynghoriad hwn, yw nodi'r ffyrdd mwyaf cymesur a chosteffeithiol o fynd i'r afael â gweithrediadau gwastraff anghyfreithlon ar safleoedd eithriedig, a sicrhau mai dim ond gweithgareddau risg isel a gwmpesir gan eithriadau.

3. Ein dull gweithredu

Ar ôl cynnal eu hadolygiadau o'r gyfundrefn eithriadau, lluniodd Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru nifer o fesurau i atal eithriadau rhag cael eu defnyddio i guddio troseddau gwastraff. Rydym wedi mireinio'r mesurau hyn yn dilyn trafodaethau gyda'r diwydiant, gan gynnwys drwy weithdy i randdeiliaid ym mis Chwefror 2017.

Mae'r cynigion a ddatblygwyd i ymgynghori arnynt drwy'r broses hon yn canolbwyntio ar bedwar maes:

1. Gwahardd y defnydd o eithriadau gwastraff o dan amgylchiadau penodedig;
2. Gwneud newidiadau i'r deg eithriad gwastraff a nodwyd fel yr eithriadau mwyaf perthnasol o ran y lefelau uchaf o ddiffyg cydymffurfiaeth ac anghyfreithlondeb;
3. Ei gwneud yn ofynnol cyflwyno gwybodaeth ychwanegol er mwyn helpu i reoleiddio'r gyfundrefn yn effeithiol;
4. Gwella'r broses o gofrestru eithriad neu barhau ag eithriad.

Er mwyn ategu'r dull gweithredu hwn, cynlluniwyd y cynigion gan ddefnyddio cyfres o egwyddorion lefel uchel fel a ganlyn.

3.1. Ar gyfer beth y dylid caniatáu eithriadau?

Caiff eithriadau eu defnyddio'n helaeth ac maent yn cynnig dull gweithredu 'cyffyrddiad ysgafn' pwysig mewn perthynas â rheoleiddio gweithgareddau gwastraff risg isel. Felly, cynlluniwyd y cynigion sy'n rhan o'r ymgynghoriad i gydnabod y ffaith bod llawer o fusnesau a sefydliadau yn gwneud defnydd helaeth o amodau eithriadau ac yn cydymffurfio â'r amodau hynny ac y dylent felly allu parhau i fanteisio arnynt.

Dylai eithriadau ymwneud â'r canlynol:

- Cynhyrchwyr gwastraff sy'n rheoli eu gwastraff er mwyn sicrhau y caiff cymaint o wastraff â phosibl ei adfer a, lle y bo'n anodd adfer gwastraff, y caiff ei waredu yn y man cynhyrchu gan leihau'r effaith ar yr amgylchedd i'r eithaf.
- Cefnogi'r farchnad casglu ac adfer gwastraff lle yr aseswyd bod y gwastraff a'r gweithgareddau cysylltiedig yn risg isel.

Rydym am annog cynhyrchwyr gwastraff i leihau, asesu, aildddefnyddio neu adfer eu gwastraff eu hunain yn briodol cyn iddo ddod yn rhan o'r gadwyn rheoli gwastraff er mwyn cydymffurfio â'r hierarchaeth wastraff. Mae eithriad rhag costau trwyddedu a chostau cysylltiedig yn annog prosesau aildddefnyddio ac adfer ar safleoedd. Lle nad yw hynny'n bosibl, dylid gwahanu gwastraff, ei asesu a'i baratoi'n briodol i'w ddosbarthu i'r cyfleuster nesaf priodol.

3.2. Ar ba ffurf y dylid cyflwyno eithriadau?

Dylai'r disgrifiad o'r eithriad a'r amodau fod yn glir, yn gadarn ac yn orfodadwy. Dylai achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth fod yn hawdd i'w nodi, er mwyn ei gwneud hi'n haws gorfodi a dylai'r gweithredwr a'r rheoleiddwyr allu sicrhau'n hawdd bod safleoedd eithriedig yn cydymffurfio. Felly, dylai fod gan weithrediadau eithriedig derfynau ac amodau wedi'u diffinio'n glir y gellir eu deall a'u mesur yn hawdd gan y gweithredwr a'r rheoleiddwyr. Dylai gweithgareddau eithriedig fod yn ddigon bach i'r rheoleiddwyr allu nodi'n hawdd ar y safle pan gaiff symiau o wastraff sy'n uwch na therfynau'r eithriad eu storio neu eu prosesu.

3.3. Pa ran y dylai eithriadau ei chwarae yn y gyfundrefn reoleiddiol?

Dim ond ar gyfer gweithgareddau risg isel sy'n ategu'r gyfundrefn drwyddedu yn hytrach na'i thanseilio y dylid defnyddio eithriadau gwastraff. Dylai'r risg sy'n deillio o'r gweithrediadau gwastraff eithriedig fod yn gymesur â lefel y craffu y caiff y cynllun eithriadau ei ariannu i'w chyflawni. Ni ddylai eithriadau ganiatáu gweithgareddau mwy o faint na gweithgareddau sy'n peri mwy o risg na'r gweithgareddau hynny yr aseswyd bod angen eu trwyddedu, er mwyn rheoli a monitro risgiau i'r amgylchedd ac iechyd pobl yn y ffordd orau.

3.4. Pa weithrediadau gwastraff na ddylid eu heithrio?

Ni ddylai eithriadau gynnwys gwastraff y nodwyd ei fod yn anodd ei drin, boed hynny i'w storio, i'w adfer neu i'w waredu yn y man cynhyrchu. Ni ddylid eithrio gwastraff na gweithgareddau sy'n denu troseddau gwastraff ychwaith. Gan fod troseddau gwastraff yn edrych ar newidiadau mewn marchnadoedd deunydd gwastraff er mwyn nodi ble y gallant

wneud yr elw mwyaf, mae angen cynnal adolygiadau rheolaidd o eithriadau er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â risgiau newydd. Yn ogystal, ni ddylai eithriadau gynnwys mathau o wastraff na phrosesau trin y mae angen lefelau uchel o ddealltwriaeth a chymhwysedd technegol ar eu cyfer.

4. Cynigion

4.1. Gwahardd y defnydd o eithriadau gwastraff o dan amgylchiadau penodedig

Mae gweithredwyr gwastraff yn aml yn cofrestru eithriadau lluosog ar un safle, gyda'r bwriad yn aml o'u defnyddio ar y cyd ag eithriadau neu drwyddedau eraill ar y safle hwnnw. Mae hyn yn:

- dwysáu gweithrediadau gwastraff ac yn cynyddu proffil risg safle;
- ei gwneud hi'n anodd penderfynu pa weithgareddau a gwmpesir gan y drwydded neu gan eithriadau lluosog, ac felly gadarnhau cydymffurfiaeth reoleiddiol;
- cymhlethu gwaith monitro ac yn cynyddu costau i'r rheoleiddwyr;
- digwydd yn aml ar safleoedd sy'n peri pryder lle y canfyddir gweithgareddau anghyfreithlon.

Rydym wedi datblygu nifer o gynigion i ymdrin â hyn.

Gwahardd y defnydd o eithriadau ar safleoedd trwyddedig

Y sefyllfa bresennol

Yn aml, mae gweithredwyr yn cofrestru eithriadau ar safleoedd sydd eisoes yn gweithredu o dan drwydded wastraff er mwyn cynyddu cwmpas neu raddfa gweithgareddau, er enghraifft, er mwyn ehangu'r ardal lle y gallent storio gwastraff neu gynyddu faint o wastraff y gellid ei storio.

Yr achos o blaid gweithredu

Mae rhai gweithredwyr yn credu y gallant gofrestru eithriadau ar safleoedd trwyddedig fel ffordd amgen o osgoi amrywio eu trwydded er mwyn ehangu eu gweithgareddau. Mae hyn yn creu problemau gwirioneddol i ardaloedd lleol o ran sŵn, llwch, arogleuon a phlâu.

Roedd chwarter yr astudiaethau achos mewn perthynas ag eithriadau lle cafwyd problemau a gyflwynwyd gan staff ardal Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymwneud â safleoedd a oedd wedi cofrestru eithriadau ar safle trwyddedig. Mae'r broses o gofrestru eithriadau ar safleoedd trwyddedig yn cymhlethu'r gwaith o fonitro'r safleoedd ac yn cynyddu costau i'r rheoleiddwyr, gan ei bod hi'n anodd nodi pa weithgareddau a gwmpesir gan y drwydded neu gan yr eithriad, ac felly gadarnhau cydymffurfiaeth reoleiddiol.

Ein cynigion

Rydym yn cynnig y dylid newid y rheoliadau er mwyn sicrhau, fel sydd eisoes yn wir am osodiadau, na ellir cynnal gweithrediad gwastraff eithriedig ar safle gwastraff trwyddedig. Byddai hyn yn golygu na ellid cynnal gweithrediadau gwastraff eithriedig o fewn yr ardal drwyddedig a ddynodwyd ar y cynllun safle cymeradwy y cytunwyd arno fel rhan o'r broses drwyddedu. Rydym yn cynnig lle y bo gan weithrediad gwastraff eithriedig gysylltiadau technegol uniongyrchol â gweithgareddau eraill a gynhelir o dan safle gwastraff cyfagos trwyddedig, y dylid cynnwys y gweithrediad gwastraff eithriedig hwn yn y drwydded hefyd. Er enghraifft, lle y bwriedir trin y gwastraff a gaiff ei brosesu fel rhan o eithriad gwastraff neu lle mae'r gwastraff a gaiff ei brosesu yn deillio o waith trin ar safle trwyddedig cyfagos.

Un o'r eithriadau i'r rheol ar gyfer gweithgareddau gwastraff eithriedig cyfagos fyddai lle mae'r gwastraff a gaiff ei storio y tu allan i'r ardal drwyddedig cyn ei drin wedi'i gynhyrchu'n wreiddiol yn y man hwnnw (h.y. storio gwastraff yn y man cynhyrchu).

Ni fyddai'r mesur hwn yn effeithio ar fannau lle y cynhelir gweithgareddau gwastraff eithriedig gerllaw gweithrediadau trwyddedig lle nad oes unrhyw gysylltiadau technegol uniongyrchol â'r gweithrediad hwnnw a ganiateir. Er enghraifft, gall fferm barhau i feddu ar drwydded ar gyfer cyfleuster treulio anaerobig ar un rhan o'r fferm, ynghyd ag eithriad U10 i ledaenu llaeth er budd amaethyddol ar ran arall o'r fferm.

Byddai'r mesur hwn yn effeithio ar bob safle sy'n meddu ar gyfuniad o drwyddedau gwastraff ac eithriadau gwastraff ar hyn o bryd. Byddai angen i weithredwyr wneud cais am amrywiad i'w trwydded er mwyn gallu parhau i gynnal gweithgareddau ychwanegol a gwmpesir gan yr eithriadau neu er mwyn rhoi'r gorau iddynt yn llwyr (gweler adran 7, Darpariaethau trosiannol). Ni fyddai unrhyw eithriadau newydd yn cael eu cofrestru ar safleoedd gwastraff trwyddedig o'r adeg gweithredu.

C28. A ydych o'r farn y byddai'r cynnig i gyfyngu ar gofrestru eithriadau gwastraff ar safleoedd gwastraff trwyddedig yn helpu i fynd i'r afael â gweithgarwch anghyfreithlon ac yn atal gweithredwyr gwastraff rhag ehangu eu gweithgarwch heb reolaethau priodol?

C29. A ydych o'r farn y dylai gweithrediadau gwastraff eithriedig sydd â chysylltiadau technegol uniongyrchol â gweithgareddau eraill a gynhelir ar safle

gwastraff trwyddedig cyfagos gael eu cynnwys yn nhrwydded y gweithredwr cyfagos?

C30. A oes gennych dystiolaeth arall ynglŷn â'r defnydd o eithriadau ar safleoedd trwyddedig sy'n anghyfreithlon ar hyn o bryd?

C31. A ydych o'r farn y bydd y cynigion yn gosod costau penodol arnoch chi neu'ch sefydliad neu'n cynnig manteision i chi neu'ch sefydliad?

Cyfyngu ar nifer yr eithriadau a gofrestrir ar safle

Y sefyllfa bresennol

Nid oes terfyn ar nifer yr eithriadau y gellir eu cofrestru ar safle unigol. Mae hyn yn golygu y gallai gweithredwr gofrestru eithriadau lluosog ar gyfer gweithgareddau gwastraff ar wahân ond y gallai eu defnyddio mewn gwirionedd i gefnogi gweithrediad mawr y byddai'n fwy priodol ei reoleiddio drwy drwydded.

Yr achos o blaid gweithredu

Gellir defnyddio'r broses o gofrestru eithriadau lluosog ar un safle i guddio gweithgareddau gwastraff anghyfreithlon ar raddfa fawr. Canfu Asiantaeth yr Amgylchedd fod 36% o'r holl astudiaethau achos a ddarparwyd gan ei staff ardal gweithredol, drwy ei hymgyrch, yn ymwneud â safleoedd a oedd wedi cofrestru eithriadau lluosog. Ar y safleoedd hyn, torrwyd amodau eithriadau lluosog. Hyd yn oed lle na thorwyd terfynau pob eithriad unigol, arweiniodd gweithgareddau lluosog at symiau sylweddol o wastraff ar y safle gan felly gynyddu'r risg gyffredinol a oedd yn gysylltiedig â'r safle.

Ar yr un pryd, mae gweithredwyr cyfreithlon yn aml yn cofrestru eithriadau nad oes eu hangen arnynt neu nad ydynt yn eu defnyddio. Mae hyn yn arbennig o wir am weithredwyr amaethyddol a dengys data Asiantaeth yr Amgylchedd fod safleoedd sy'n prosesu

gwastraff amaethyddol yn cofrestru 6.3 eithriad ar gyfartaledd (mae safleoedd gwastraff nad ydynt yn ymdrin â gwastraff amaethyddol yn cofrestru 1.8 eithriad ar gyfartaledd).

Mae ffermwyr yn cynnal amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n gysylltiedig â gwastraff ac mewn rhai achosion, yn gwneud defnydd llawn o nifer fawr o eithriadau. Fodd bynnag, mae cofrestru eithriadau lluosog 'rhag ofn' yn ei gwneud hi'n anodd i reoleiddwyr nodi ble y dylent gynnal arolygiadau cydymffurfiaeth a rhoi blaenoriaeth i arolygiadau o'r fath.

Ein cynigion

Rydym yn ystyried pedwar opsiwn er mwyn ymdrin â'r materion hyn.

- Opsiwn 1: Egluro'r rheoliadau er mwyn sicrhau ei bod yn gliriach lle y caiff mwy nag un eithriad ei gofrestru ar safle, yna bod y terfyn storio ar gyfer pob math o wastraff wedi'i gyfyngu i'r terfyn isaf a nodir mewn unrhyw eithriad unigol. Er enghraifft, byddai cofrestru eithriad sy'n caniatáu i 50 metr ciwbig o bren gael ei storio ynghyd ag eithriad arall sy'n caniatáu i 60 metr ciwbig o bren gael ei storio yn creu terfyn storio cyffredinol o 50 metr ciwbig (yn hytrach na $50 + 60 = 110$ metr ciwbig).
- Opsiwn 2: Cyfyngu cyfanswm nifer yr eithriadau y gellir eu cofrestru ar unrhyw safle gwastraff nad yw'n ymdrin â gwastraff amaethyddol ar yr un pryd i dri ac ar safleoedd amaethyddol i 8.
- Opsiwn 3: Gwahardd cofrestru eithriadau penodedig ar yr un safle lle yr ystyrir bod eu cofrestru gyda'i gilydd yn aml yn cynnig ffordd o guddio gweithgareddau gwastraff anghyfreithlon.
- Opsiwn 4: Unrhyw gyfuniad o Opsiynau 1, 2 a 3.

C32. Ar y cyfan, pa un o'r opsiynau a gynigiwyd rydych yn ei gefnogi, a pha un rydych yn ei ffafrio?

C33. A oes unrhyw eithriadau penodol na ddylai gael eu cofrestru ar yr un safle o dan opsiwn 3, yn eich barn chi?

C34. A oes gennych dystiolaeth arall ynglŷn â chofrestru eithriadau lluosog ar safleoedd unigol er mwyn cuddio gweithgareddau anghyfreithlon?

C35. A ydych o'r farn y bydd unrhyw un o'r opsiynau yn gosod costau penodol arnoch chi neu'ch sefydliad neu'n cynnig manteision i chi neu'ch sefydliad?

4.2. Newidiadau i eithriadau penodol

Mae'r cynigion canlynol yn nodi opsiynau ar gyfer lleihau'r gweithgareddau anghyfreithlon sy'n gysylltiedig â phob un o'r eithriadau sy'n peri pryder a restrir yn adran 2.1. Ar gyfer pob eithriad, mae'r opsiynau bras sydd ar gael fel a ganlyn:

- **Opsiwn 1 - Cadw'r eithriad heb unrhyw newidiadau i'w amodau.** Gellir ystyried mai hwn fyddai'r opsiwn gorau lle caiff tystiolaeth ei chyflwyno bod yr eithriad yn rhoi manteision eang ar ei ffurf bresennol, a bod y manteision hyn yn bwysicach na'r risgiau o weithgareddau anghyfreithlon sy'n gysylltiedig ag ef, neu a fyddai'n cael eu colli o dan opsiynau 2 a 3.
- **Opsiwn 2 - Newid yr eithriad, diwygio ei amodau.** Mae'r opsiwn yn nodi newidiadau a gynlluniwyd i'w gwneud hi'n haws nodi ac atal gweithgareddau anghyfreithlon gan ganiatáu ar yr un pryd i weithgareddau cyfreithiol risg isel barhau. Mae'r newidiadau a gynigir o dan yr opsiwn hwn yn wahanol ar gyfer pob eithriad sy'n peri pryder, ond maent yn cynnwys lleihau faint o wastraff y gellir ei dderbyn bob blwyddyn a lleihau faint o wastraff sydd ar y safle ar unrhyw adeg benodol. Maent hefyd yn cynnwys cyfyngu'r mathau o wastraff y gellir ymdrin â nhw a thynhau'r rheolaethau amgylcheddol, er enghraifft ble a sut y dylid storio a/neu drin gwastraff. Mae Atodiad 1 yn amlinellu'r egwyddorion dylunio cyffredinol a ddefnyddiwyd gennym i lywio'r newidiadau a gynigir ar gyfer pob eithriad o dan yr opsiwn hwn. Mae'r egwyddorion yn cwmpasu'r ffordd rydym yn gwneud newidiadau i'r canlynol:
 - Y swm o wastraff y gellir ei brosesu ar safle
 - Y swm o wastraff a gaiff ei storio ar y safle ac am ba hyd y caiff ei storio
 - Y mathau o wastraff y gellir ymdrin â nhw
 - Rhoi rheolaethau atal tân ar waith
 - Diwygio amodau er mwyn ei gwneud hi'n haws asesu cydymffurfiaeth
 - Gwelliannau i ddisgrifiadau o wastraff

Nodir y newidiadau manwl i amodau a ragwelir ar gyfer pob eithriad yn unol â'r egwyddorion hyn yn Atodiadau 2 i 9. Ym mhob un o'r atodiadau hyn, dengys Rhan 1 y cysylltiad rhwng problemau penodol gyda'r eithriad a'r newidiadau arfaethedig ar gyfer yr eithriad. Mae Rhan 2 yn nodi'r newidiadau penodol i amodau'r eithriad rydym yn eu cynnig o dan yr eithriad hwn. Nid ystyrir Opsiwn 2 ar gyfer Eithriad U16.

- **Opsiwn 3 - Dileu'r eithriad a'i gwneud yn ofynnol i'r gweithgareddau a gwmpesir ganddo gael eu cynnal o dan drwydded.** Gellir ystyried mai hwn fyddai'r opsiwn gorau lle gallai'r gwiriadau cydymffurfiaeth mwy caeth sy'n ofynnol gan drwydded amgylcheddol gynnig y ffordd fwyaf effeithiol o bosibl o atal

gweithgareddau anghyfreithlon. Nid ystyrir yr opsiwn hwn ar gyfer Eithriadau D7, S1 nac S2.

Nodir yr achos o blaid gweithredu a'r opsiynau a ystyrir ar gyfer pob eithriad isod.

Eithriad U1 - Defnyddio gwastraff mewn gwaith adeiladu

Y sefyllfa bresennol

Defnyddir Eithriad U1 at ddiben defnyddio hyd at gyfanswm o 5,000 o dunelli o fathau penodedig o wastraff mewn gwaith adeiladu. Dengys y data diweddaraf fod 46,745 o eithriadau U1 wedi'u cofrestru yng Nghymru a Lloegr.

Yr achos o blaid gweithredu

Dengys Tabl 2 amcangyfrifon Asiantaeth yr Amgylchedd o ran lefelau cydymffurfiaeth posibl ag U1 ledled Lloegr yn seiliedig ar ei hymgyrch wedi'i thargeddu a gwybodaeth arall a gasglwyd yn ystod ei hadolygiad o eithriadau.

Tabl 2 Amcangyfrifon o gydymffurfiaeth ag U1 ledled Lloegr

% sy'n cydymffurfio	% sy'n anghyfreithlon / a allai fod yn anghyfreithlon	% heb eu defnyddio
50	30	20

Yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, ni ddefnyddir cyfran sylweddol o'r eithriadau U1 a gofrestrwyd yn briodol. Yn aml, defnyddir eithriadau U1 yn anghyfreithlon i waredu gwastraff anaddas sydd weithiau'n beryglus. Mewn rhai achosion, mae gweithredwyr wedi camddisgrifio gwastraff yn anfwriadol. Ond mewn llawer o achosion, mae doddi gwastraff amhriodol yn fwriadol yn arwydd o gamddefnyddio'r eithriad er mwyn osgoi costau gwaredu gwastraff i safleoedd tirlenwi.

Codwyd pryderon bod rhai gweithredwyr gwastraff yn chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio eithriad U1 i gael gwared ar eu gwastraff drwy gynnig adeiladu ar dir neu lenwi tyllau ar dir am ddim neu hyd yn oed drwy dalu'r tirlfeddiannwr i wneud hynny. Yn aml, mae gwastraff yn cael ei ddodi mewn symiau gormodol sy'n gyfystyr â gwaredu ac mae o ansawdd gwael.

Unwaith y bydd gwaith adeiladu wedi'i gwblhau, mae'n anodd i'r rheoleiddwyr benderfynu p'un a wnaeth y gweithredwr gydymffurfio â rheolau U1 ai peidio, a ph'un a oedd y gwastraff yn addas ai peidio. Roedd bron chwarter yr holl safleoedd yr ymwelwyd â nhw yn

ystod ymgyrch maes Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cwblhau eu gwaith adeiladu cyn gwiriad cydymffurfiaeth yr Asiantaeth. Os oedd y safleoedd hyn yn doddi gwastraff anaddas a / neu halogedig mewn modd anghyfreithlon, gellid gweld unrhyw effaith amgylcheddol negyddol ar ôl sawl blwyddyn.

Astudiaeth achos: Defnyddio gwastraff anaddas o dan eithriad U1

Caiff eithriadau U1 eu cofrestru ar gyfer amrywiaeth eang o ddefnyddiau amhriodol. Fel enghraifft, gorchmynnwyd i berchennog cwmni rheoli gwastraff a chludo nwyddau dalu dros £100k am droseddau gwastraff ar ôl ei gael yn euog o ddefnyddio gwastraff yn anghyfreithlon ar ddau safle lle roedd eithriadau U1 wedi'u cofrestru.

Ar y safle cyntaf, roedd eithriad U1 wedi'i gofrestru ar gyfer adeiladu bwnd 250m o hyd gan ddefnyddio pridd/cerrig a deunyddiau anweithredol eraill. Pan ymwelodd Asiantaeth yr Amgylchedd â'r safle, canfu fod y bwnd 8,000 tonnall yn cynnwys deunyddiau na ddylent fod wedi bod yn rhan ohono, gan gynnwys darnau o wydr, metel, pren, rwber, gwifren, dur ac asbestos. Roedd llawer o'r deunydd gwastraff a ddefnyddiwyd yn anaddas ar gyfer adeiladu'r bwnd.

Ar yr ail safle, defnyddiwyd hyd at 2,500 tonnall o ddeunydd gwastraff i gynnal a chadw ac atgyweirio traciau a buarth fferm. Roedd yr wyneb, ar yr olwg gyntaf, yn cynnwys deunyddiau priodol ond ar ôl cynnal archwiliad, darganfuwyd pibellau plastig, darnau o fetel, rwber, gwastraff gwyrdd, cetril silicon, ffabrig a phren.

Gan gyfeirio at yr achos, dywedodd Asiantaeth yr Amgylchedd: "Mae'r diffynnydd yn weithredwr gwastraff profiadol a oedd yn gwybod pa fath o wastraff nad oedd yn dderbyniol ei ddodi ar y ddau safle hyn. Cafodd ei gymell gan elw ac arbedodd swm sylweddol o arian drwy beidio â chludo'r gwastraff hwn i safle tirlenwi er mwyn cael gwared arno'n ddiogel".

Ein cynigion

Rydym yn cynnig yr opsiynau canlynol ar gyfer eithriad U1:

- Opsiwn 1: Cadw'r eithriad heb unrhyw newidiadau i'w amodau
- Opsiwn 2: Newid yr eithriad, diwygio ei amodau - gweler Atodiad 2 (Rhan 2)
- Opsiwn 3: Dileu'r eithriad a'i gwneud yn ofynnol i'r gweithgareddau a gwmpesir ganddo gael eu cynnal o dan drwydded

Mae'r egwyddorion dylunio a ddefnyddiwyd gennym i ddatblygu'r opsiynau hyn yn Atodiad 1.

Noder bod Opsiwn 2 yn cyfyngu ar y mathau o wastraff a gweithgareddau mewn perthynas â gweithgareddau adeiladu penodol yn hytrach na nodi terfyn cyffredinol ar gyfer yr eithriad (gweler Atodiad 2 am ragor o wybodaeth).

C36. A oes gennych dystiolaeth arall ynglŷn â'r defnydd anghyfreithlon o'r eithriad hwn ar hyn o bryd?

C37. A ydych o'r farn y bydd unrhyw un o'r opsiynau yn gosod costau penodol arnoch chi neu'ch sefydliad neu'n cynnig manteision i chi neu'ch sefydliad?

C38. Pa un o'r opsiynau a gynigiwyd ar gyfer eithriad U1 rydych yn ei gefnogi, a pha un rydych yn ei ffafrio?

C39. O dan Opsiwn 2, a ydych o'r farn y dylai eithriad U1 ganiatáu unrhyw fathau ychwanegol o weithgareddau adeiladu y tu hwnt i'r rhai a restrir yn Atodiad 2? Os felly, disgrifiwch y gweithgareddau, ynghyd â'r mathau o wastraff a faint sydd ei angen.

C40. O dan Opsiwn 2, a ydych o'r farn bod maint y gwastraff a ganiateir ar gyfer pob gweithgaredd adeiladu penodol yn briodol?

C41. O dan Opsiwn 2, a yw'r mathau o wastraff a restrir yn ddigon i gynnal pob gweithgaredd gwastraff penodol?

Eithriad U16: Defnyddio cerbydau diwedd oes dadlygredig ar gyfer cydrannau

Y sefyllfa bresennol

Defnyddir eithriad U16 ar gyfer adnewyddu cerbydau gan ddefnyddio cydrannau cerbydau o gerbydau diwedd oes sydd eisoes wedi'u dadlygru (heb unrhyw hylifau na chydannau peryglus wedi'u gadael ynddynt). Dengys y data diweddaraf fod 1,318 o eithriadau U16 wedi'u cofrestru yng Nghymru a Lloegr.

Yr achos o blaid gweithredu

Canfuwyd nad oedd yr un safle a oedd yn defnyddio eithriad U16 cofrestredig yn cydymffurfio â'r eithriad hwnnw pan gynhaliodd Asiantaeth yr Amgylchedd ei hymweliadau fel rhan o'i hymgyrch wedi'i thargedu. Yn seiliedig ar hyn a thystiolaeth arall a gasglwyd yn ystod ei hadolygiad o eithriadau, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn amcangyfrif bod lefelau cydymffurfiaeth â'r eithriad hwn yn isel iawn. Dywed cyrff masnach y diwydiant wrthym y caiff nifer fawr iawn o gerbydau diwedd oes eu tynnu'n ddarnau yn anghyfreithlon bob blwyddyn, gyda chyfran sylweddol o'r achosion yn digwydd ar safleoedd sydd wedi cofrestru eithriad ac sy'n prosesu mwy o gerbydau na'r nifer a

ganiateir o dan eithriad U16. Mae'n bosibl hefyd fod grwpiau neu gangiau troseddu cyfundrefnol yn defnyddio'r eithriad hwn i dynnu nifer sylweddol o gerbydau diwedd oes nad ydynt wedi cael eu dadlygru yn ddarnau er mwyn gwerthu'r cydrannau. Mae'r sefyllfa hon yn cynyddu'r risg o lygredd yn sylweddol ac yn ystumio'r farchnad ar gyfer cydrannau cerbydau ail law. Yn unol ag eithriadau eraill, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn amcangyfrif nad yw tua 22% o eithriadau U16 yn cael eu defnyddio.

Ein cynigion

O ystyried lefel y gweithgareddau anghyfreithlon o dan yr eithriad hwn a'r ffaith na chafwyd yr un safle a oedd yn cydymffurfio yn ystod yr ymgyrch, nid ydym o'r farn y byddai diwygio eithriad U16 yn atal troseddau gwastraff. Ar y sail hon, mae ein cynigion ar gyfer eithriad U16 fel a ganlyn:

- Opsiwn 1: Cadw'r eithriad heb unrhyw newidiadau i'w amodau
- Opsiwn 2: Dileu'r eithriad a'i gwneud yn ofynnol i'r gweithgareddau a gwmpesir ganddo gael eu cynnal o dan drwydded

C42. A oes gennych dystiolaeth arall ynglŷn â'r defnydd anghyfreithlon o'r eithriad hwn ar hyn o bryd?

C43. A ydych o'r farn y bydd unrhyw un o'r opsiynau yn gosod costau penodol arnoch chi neu'ch sefydliad neu'n cynnig manteision i chi neu'ch sefydliad?

C44. Pa un o'r opsiynau a gynigiwyd ar gyfer eithriad U16 rydych yn ei gefnogi?

Eithriad T4: Triniaethau paratoadol (bwndelu, didoli, rhwygo ac ati)

Y sefyllfa bresennol

Defnyddir eithriad T4 ar gyfer storio risg isel a thriniaethau sy'n paratoi ar gyfer prosesau pellach. Dengys y data diweddaraf fod 8,345 o eithriadau T4 wedi'u cofrestru yng Nghymru a Lloegr

Yr achos o blaid gweithredu

Dengys Tabl 3 amcangyfrifon Asiantaeth yr Amgylchedd o ran lefelau cydymffurfiaeth posibl â T4 ledled Lloegr yn seiliedig ar ei hymgyrch wedi'i thargedu a gwybodaeth arall a gasglwyd yn ystod ei hadolygiad o eithriadau.

Tabl 3 Amcangyfrifon o gydymffurfiaeth â T4 ledled Lloegr

% sy'n cydymffurfio	% sy'n anghyfreithlon / a allai fod yn anghyfreithlon	% heb eu defnyddio
63	17	20

Defnyddir eithriadau T4 weithiau i guddio gweithgareddau adfer amhriodol. Ceir enghreifftiau hefyd lle mae gweithredwyr yn trin gwastraff nas caniateir o dan yr eithriad hwn neu'n trin symiau y tu hwnt i'r terfynau a bennwyd, fel sy'n wir am y rhan fwyaf o'r eithriadau sy'n peri pryder. Yn ogystal, gall storio gwastraff llosgadwy o dan yr eithriad hwn gynyddu risgiau tân. Gall diffyg gofynion draenio a seilwaith hefyd gynyddu'r risg o lygru dŵr, yn arbennig mewn perthynas â phrosesu plastigau a rwber.

Ar hyn o bryd, gellir defnyddio'r eithriad T4 i gynnal gweithgareddau ar raddfa fawr, gan gynnwys gweithgareddau ailgylchu, heb drwydded. Nid yw hyn yn unol â rheolaethau rheoleiddiol eraill gan fod rhai o'r trwybynnau a'r terfynau storio a nodir ar gyfer yr eithriad hwn yn uwch na rheolau safonol a hyd yn oed drwyddedau pwrpasol. Pe cyrhaeddid yr uchafswm cynhwysedd prosesu 7 diwrnod ar gyfer pob math o wastraff, byddai safle T4 yn prosesu dros 900,000 o dunelli bob blwyddyn. Mae'r terfynau ar gyfer mathau penodol o wastraff hefyd yn uchel, gan gynyddu i 260,000 o dunelli bob blwyddyn.

Astudiaeth achos: camddefnyddio eithriad T4

Mae eithriadau T4 yn darparu ar gyfer nifer o weithgareddau storio a thrin risg isel ond fe'u defnyddir weithiau yn anghyfreithlon ar gyfer gweithgareddau megis trin gwastraff masnachol cymysg. Mewn un enghraifft, cofrestrodd cwmni eithriad T4 ar gyfer ei fusnes llogi sgipiau ac roedd yn didoli ac yn casglu gwastraff cymysg ar y safle. Pan ymwelodd Asiantaeth yr Amgylchedd â'r safle, canfu fod y gweithredwr yn cadw symiau mawr o amrywiaeth eang o fathau o wastraff nas caniatwyd o dan yr eithriad hwn, gan gynnwys batris, teiars, pren, gwastraff masnachol cymysg a phridd. Nododd hefyd fod drymiau yn gollwng olew ar y pridd.

Codwyd dirwy o £6,660 ar y cwmni a bu'n rhaid iddo dalu costau o £9,768, gordal dioddefwr o £120 ac iawndal o £9,350. Codwyd dirwy o £4,140 hefyd ar gyfarwyddwr y cwmni am ddwy drosedd am gydsynio i weithrediadau gwastraff anghyfreithlon y cwmni.

Ein cynigion

Rydym yn cynnig yr opsiynau canlynol ar gyfer eithriad T4:

- Opsiwn 1: Cadw'r eithriad heb unrhyw newidiadau i'w amodau
- Opsiwn 2: Newid yr eithriad, diwygio ei amodau – gweler Atodiad 3 (Rhan 2)
- Opsiwn 3: Dileu'r eithriad a'i gwneud yn ofynnol i'r gweithgareddau a gwmpesir ganddo gael eu cynnal o dan drwydded

Mae'r egwyddorion dylunio a ddefnyddiwyd gennym i ddatblygu'r opsiynau hyn yn Atodiad 1.

C45. A oes gennych dystiolaeth arall ynglŷn â'r defnydd anghyfreithlon o'r eithriad hwn ar hyn o bryd?

C46. A ydych o'r farn y bydd unrhyw un o'r opsiynau yn gosod costau penodol arnoch chi neu'ch sefydliad neu'n cynnig manteision i chi neu'ch sefydliad?

C47. Pa un o'r opsiynau a gynigiwyd ar gyfer eithriad T4 rydych yn ei gefnogi, a pha un rydych yn ei ffafrio?

Eithriad T6: trin pren gwastraff a deunydd o beiriannau gwastraff

Y sefyllfa bresennol

Defnyddir eithriad T6 ar gyfer trin gwastraff pren nad yw'n beryglus â lefel isel o risg. Dengys y data diweddaraf fod 24,806 o eithriadau T6 wedi'u cofrestru yng Nghymru a Lloegr.

Defnyddir yr eithriad hwn mewn nifer o ffyrdd ar gyfer gweithgareddau risg isel:

- Fe'i defnyddir gan feddygon coed neu reolwyr tir (e.e. ffermwyr a thirfeddianwyr eraill fel ystadau a pharciau gwledig) i naddu gwastraff o bren naturiol ar y safle cynhyrchu cyn iddo gael ei gasglu (er mwyn ei gwneud hi'n hawdd ei gludo) neu ei daenu ar y safle²⁵.

²⁵ <https://www.gov.uk/guidance/waste-exemption-nwfd-2-temporary-storage-at-the-place-of-production--2>

Fe'i defnyddir hefyd gan reolwyr tir²⁶ (e.e. ffermwyr a thirfeddianwyr eraill megis ystadau a pharciau gwledig) i gludo eu gwastraff i safle canolog lle y caiff ei asglodi naill ai er mwyn ei anfon i'w adfer rywle arall neu, os bydd yn digwydd yn naturiol, i'w aildefnyddio rywle arall ar eu tir.

- Caiff ei gofrestru ar safleoedd sydd ond yn derbyn gwastraff pren naturiol nad yw wedi'i drin mewn unrhyw ffordd ac yn asglodi at ddibenion adfer gwres yn bennaf mewn peiriant llosgi nad yw'r Gyfarwydddeb Allyriadau Diwydiannol yn berthnasol iddo, neu i'w ddefnyddio fel sarn anifeiliaid.
- Mae ffermwyr hefyd yn cofrestru eithriadau T6 ar gyfer asglodi gwastraff pren naturiol i gyflenwi boeleri biomas.
- Mae busnesau adfer paledau yn defnyddio eithriad T12 i ddioli paledau â llaw a'u hatgyweirio i'w haildefnyddio ac yna asgloi'r pren na ellir ei aildefnyddio drwy ddefnyddio eithriad T6.

Yr achos o blaid gweithredu

Dengys Tabl 4 amcangyfrifon Asiantaeth yr Amgylchedd o ran lefelau cydymffurfiaeth posibl â T6 ledled Lloegr yn seiliedig ar ei hymgyrch wedi'i thargedu a gwybodaeth arall a gasglwyd yn ystod ei hadolygiad o eithriadau

Tabl 4 Amcangyfrifon o gydymffurfiaeth â T6 ledled Lloegr

% sy'n cydymffurfio	% sy'n anghyfreithlon / a allai fod yn anghyfreithlon	% heb eu defnyddio
25	10	65

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi casglu tystiolaeth sylweddol o achosion o ddiffyg cydymffurfio mewn perthynas â T6, gan gynnwys gan grwpiau troseddu cyfundrefnol. Yn seiliedig ar ymweliadau'r ymgyrch, nododd hefyd fod y gyfran uchaf o gofrestriadau na chânt eu defnyddio yn gysylltiedig ag eithriad T6. Efallai nad yw'r ganran uchel o eithriadau na chânt eu defnyddio, yn cael eu defnyddio gan eu bod wedi'u cofrestru ar sail 'rhag ofn' neu ar gyfer gweithgaredd untro (e.e. gan unigolyn trin coed fel y disgrifir uchod).

²⁶ <https://www.gov.uk/guidance/waste-exemption-nwfd-3-temporary-storage-of-waste-at-a-place-controlled-by-the-producer>

Yn ogystal â'r gweithgareddau risg isel a ddisgrifir uchod, defnyddir eithriadau T6 gan fusnesau sy'n cynnig gwasanaeth rheoli gwastraff i eraill ac sy'n derbyn ffrydiau gwastraff pren cymysg sy'n cynnwys gwastraff pren nad yw'n beryglus heb ei drin ac wedi'i drin. Mae'r mathau hyn o safleoedd yn dibynnu'n bennaf ar ffioedd clwyd a grymoedd y farchnad ar gyfer y cam adfer dilynol drwy losgi. Mae'r ddibyniaeth hon ar y galw am wastraff ar y farchnad ar gyfer tanwydd yn aml yn arwain at sefyllfa lle y caiff pren ei bentyrru gan arwain at sawl digwyddiad mawr lle y cafwyd tanau sydd wedi peryglu seilwaith pwysig neu beri iddo gau.

Yn wir, cyfeiriwyd at achosion o bentyrru symiau mawr o wastraff y tu hwnt i'r terfynau storio ym mhob enghraifft o astudiaeth achos T6 a gasglwyd fel rhan o'r adolygiad o eithriadau. Roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi'u rhestru fel "Safleoedd Tân Risg Uchel", sef safleoedd a nodwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd fel safleoedd â'r potensial i fynd ar dân ac achosi problemau lleol. Nodwyd problemau o ran safleoedd yn cael eu gadael a phryderon am achosion posibl o allforio anghyfreithlon hefyd mewn sawl enghraifft. Roedd dwy enghraifft o grwpiau troseddu cyfundrefnol yn gysylltiedig â diffyg cydymffurfiaeth ag eithriadau T6. Nododd Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd fod achosion o drin a storio pren yn wael o dan yr eithriad hwn wedi arwain at lwch a niwsans sŵn sylweddol i gymunedau lleol mewn rhai achosion.

Mae diffyg cydymffurfio ag amodau T6 yn peri pryder penodol oherwydd y risg o dân. Fodd bynnag, mae lefel yr eithriadau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn ei gwneud hi'n anodd iawn i'r rheoleiddwyr nodi'r safleoedd hynny sy'n gweithredu gan felly nodi'r rhai lle ceir risg o'r fath.

Astudiaeth achos: effaith storio gwastraff pren y tu hwnt i derfynau storio

Unwaith y caiff eithriad T6 ei gofrestru, gellir pentyrru symiau mawr o bren gwastraff yn gyflym, gan arwain at risgiau gwirioneddol y bydd y gwastraff yn mynd ar dân. Ym mis Mai 2014, dechreuodd gweithredwr yn Thoby Priory (Essex) weithrediadau ar gyfer cyfleuster pren gwastraff a oedd yn gweithredu o dan T6 a phum eithriad arall. Er gwaethaf ymweliadau mynych gan Asiantaeth yr Amgylchedd a'r gwasanaeth tân i roi arweiniad ar sut i reoli'r pren gwastraff a chydymffurfio â'r eithriadau, aeth y safle y tu hwnt i'w derfynau storio'n gyflym. Dim ond dri mis yn ddiweddarach, ym mis Awst 2014, dechreuodd tân. Ar y pryd, roedd tua 5,000 o dunelli o bren gwastraff cymysg ar y safle, ddeg gwaith y terfyn a nodwyd yn yr eithriad T6.

Roedd naw injan dân yn bresennol pan oedd y tân wedi dod i'w anterth a bu'n rhaid i ddiffoddwyr tân wlychu busnesau cyfagos lle roedd deunydd fflamadwy ac asbestos wedi'u storio. Effeithiodd y mwg o'r tân ar gymunedau preswyl cyfagos. Ni lwyddwyd i gyfyngu dŵr y tân a llygrwyd 10km o afonydd a chyrsiau dŵr: lladdwyd 2,500 o bysgod o ganlyniad. Llosgodd y tân am fisoedd ac roedd un o injans gwasanaeth Tân ac Achub Essex ar y safle tan fis Hydref. Roedd lludw yn mudlosgi ac yn llosgi naw mis yn ddiweddarach.

Gwariodd Asiantaeth yr Amgylchedd £223,000 a oedd yn cynnwys 40 o swyddogion yn gweithio dros 1,000 o oriau i ymdrin â'r digwyddiad. Gwariodd Cyngor Brentwood £3,000 ar waith i fonitro'r aer. Cafwyd costau glanhau o £250,000. Gosodwyd pibell 1.2km o hyd er mwyn cludo'r dŵr halogedig ymaith i garthffos breifat, a gwariwyd £30,000 ar danceri ffordd.

Ym mis Mai 2016, dedfrydodd Llys y Goron Chelmsford y gweithredwr i 15 mis o garchar wedi'i ohirio am ddwy flynedd. Yn ogystal â'r ddedfryd ohiriedig, gwaharddwyd y gweithredwr rhag bod yn gyfarwyddwr cwmni am ddeng mlynedd.

Codwyd pryderon na chaiff gwastraff pren, yn enwedig pan fydd mewn llwythi cymysg, ei ddisgrifio'n briodol, sy'n golygu bod pren gwastraff nad yw'n beryglus a phren gwastraff peryglus (a waherddir o dan eithriad T6) yn cael eu cymysgu gyda'i gilydd. Gall gweithredwyr ddibynnu ar arolygiadau gweledol yn unig i wahanu'r pren, ac yn aml nid yw'r math hwn o asesiad yn ddigonol i wahaniaethu rhwng mathau o bren nad ydynt yn beryglus a mathau o bren sy'n beryglus. Gan fod y gwastraff wedi'i gamddisgrifio, mae'n cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd nas caniateir. Yn arbennig, mae'n bosibl y caiff ei losgi mewn peiriannau llosgi fel tanwydd nas cynlluniwyd i losgi ar dymheredd digon uchel ac amseroedd preswyl i gael gwared ar allyriadau gwenwynig i'r aer. Mae'n bosibl y caiff hefyd ei ddefnyddio at ddibenion megis llwybrau sglodion pren a sarn anifeiliaid, a allai beri risg i iechyd anifeiliaid ac iechyd pobl.

Fel gyda T4, ymddengys nad yw'r amodau a nodwyd ar gyfer eithriad T6 yn cydymffurfio â rheolaethau rheoleiddiol eraill ar gyfer y gwastraff y mae'n ymdrin ag ef. Ar hyn o bryd, dim ond 5,000 o dunelli bob blwyddyn a ganiateir gan y drwydded rheolau safonol ar gyfer trin pren gwastraff (RhS 2015 Rhif 23). I'r gwrthwyneb, mae eithriad T6 ar ei gynhwysedd prosesu llawn yn caniatáu ar gyfer trin 26,000 o dunelli o wastraff pren. Mae'r anghysondeb hwn yn golygu bod y rhai sy'n gweithredu o dan drwydded o dan anfantais a bod rheoliadau mwy caeth yn berthnasol iddynt, a'i bod hefyd yn ofynnol iddynt gwblhau Cynllun Atal Tân ar gyfer gwastraff llosgadwy.

Ein cynnig

Rydym yn cynnig yr opsiynau canlynol ar gyfer eithriad T6:

- Opsiwn 1: Cadw'r eithriad heb unrhyw newidiadau i'w amodau
- Opsiwn 2: Newid yr eithriad, diwygio ei amodau – gweler Atodiad 4 (Rhan 2)
- Opsiwn 3: Dileu'r eithriad a'i gwneud yn ofynnol i'r gweithgareddau a gwmpesir ganddo gael eu cynnal o dan drwydded

Mae'r egwyddorion dylunio a ddefnyddiwyd gennym i ddatblygu'r opsiynau hyn yn Atodiad 1.

C48. A oes gennych dystiolaeth arall ynglŷn â'r defnydd anghyfreithlon o'r eithriad hwn ar hyn o bryd?

C49. A ydych o'r farn y bydd unrhyw un o'r opsiynau yn gosod costau penodol arnoch chi neu'ch sefydliad neu'n cynnig manteision i chi neu'ch sefydliad?

C50. Pa un o'r opsiynau a gynigiwyd ar gyfer eithriad T6 rydych yn ei gefnogi, a pha un rydych yn ei ffafrio?

Eithriad T8: trin teiars diwedd oes yn fecanyddol

Y sefyllfa bresennol

Defnyddir eithriad T8 ar gyfer trin teiars er mwyn eu paratoi ar gyfer prosesau pellach. Dengys y data diweddaraf fod 1,404 o eithriadau T8 wedi'u cofrestru yng Nghymru a Lloegr.

Yr achos o blaid gweithredu

Dengys Tabl 5 amcangyfrifon Asiantaeth yr Amgylchedd o ran lefelau cydymffurfiaeth posibl â T8 ledled Lloegr yn seiliedig ar ei hymgyrch wedi'i thargedu a gwybodaeth arall a gasglwyd yn ystod ei hadolygiad o eithriadau.

Tabl 5 Amcangyfrifon o gydymffurfiaeth â T8 ledled Lloegr

% sy'n cydymffurfio	% sy'n anghyfreithlon / a allai fod yn anghyfreithlon	% heb eu defnyddio
42	16	42

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn awgrymu bod rhai busnesau yn storio ac yn prosesu teiars o dan eithriad T8 mewn symiau llawer uwch na'r symiau a ganiateir o dan yr eithriad (er mwyn cynyddu refeniw ffioedd clwyd i'r eithaf) heb roi fawr sylw i'w trin a'r cam adfer dilynol. Mae hyn yn creu dwy set o broblemau sylweddol:

1. y risg y ceir digwyddiadau, gan gynnwys pentyrru, gadael safleoedd, tipio anghyfreithlon, tanau gwastraff a danfon gwastraff dramor yn anghyfreithlon;
2. mae busnesau cyfreithlon sy'n gweithredu o dan drwydded ac sydd wedi buddsoddi'n helaeth mewn seilwaith i reoli teiars yn ddiogel o dan anfantais o

gymharu â busnesau nad ydynt yn cydymffurfio oherwydd costau bodloni gofynion y drwydded.

Astudiaeth achos: storio nifer fawr o deiars o dan eithriad T8

Lle y caiff teiars gwastraff eu derbyn i safle heb fawr ddim ystyriaeth i'w cyrchfan dilynol, gall achosion o bentyrru teiars y tu hwnt i derfynau'r eithriad ddod yn bryder yn gyflym. Yn yr enghraifft hon, dechreuodd Asiantaeth yr Amgylchedd ymchwilio pan gafwyd lefelau gweithgarwch sylweddol ar safle allforio teiars ag eithriad T8 cofrestredig. Canfu fod tua 30,000 o deiars wedi cronni gan greu risg sylweddol o dân, gyda thraciau rheilffordd gerllaw'r safle yn peri pryder o achos difrifol o bosibl. Mae eithriad T8 yn caniatáu i uchafswm o 1,200 o deiars masnachol neu 4,800 o deiars ceir neu faniau gael eu trin bob wythnos.

Cyhoeddodd Asiantaeth yr Amgylchedd hysbysiad gorfodi i gael gwared ar y teiars o'r safle, ond ni wellodd y sefyllfa ar y safle. O ganlyniad, erlynwyd cyfarwyddwr y cwmni a'r cwmni a gorchmynnwyd i'r ddau ohonynt dalu dirwy o £2,000 a chostau o £3,750.

Ein cynnig

Rydym yn cynnig yr opsiynau canlynol ar gyfer eithriad T8:

- Opsiwn 1: Cadw'r eithriad heb unrhyw newidiadau i'w amodau
- Opsiwn 2: Newid yr eithriad, diwygio ei amodau – gweler Atodiad 5 (Rhan 2)
- Opsiwn 3: Dileu'r eithriad a'i gwneud yn ofynnol i'r gweithgareddau a gwmpesir ganddo gael eu cynnal o dan drwydded

Ni fyddai'r cynigion yn effeithio ar y rhai sy'n cynhyrchu a dim ond yn storio teiars gwastraff fel rhan o'u busnes (e.e. gosodwyr teiars, garejis, gweithredwyr gwasanaeth achub min ffordd). Cwmpesir teiars a gaiff eu storio cyn cael eu casglu ar eu safle eu hunain gan eithriadau NWFD²⁷. Mae'r egwyddorion dylunio a ddefnyddiwyd gennym i ddatblygu'r opsiynau hyn yn Atodiad 1.

C51. A oes gennych dystiolaeth arall ynglŷn â'r defnydd anghyfreithlon o'r eithriad hwn ar hyn o bryd?

²⁷ <https://www.gov.uk/guidance/waste-exemption-nwfd-2-temporary-storage-at-the-place-of-production--2>

C52. A ydych o'r farn y bydd unrhyw un o'r opsiynau yn gosod costau penodol arnoch chi neu'ch sefydliad neu'n cynnig manteision i chi neu'ch sefydliad?

C53. Pa un o'r opsiynau a gynigiwyd ar gyfer eithriad T8 rydych yn ei gefnogi, a pha un rydych yn ei ffafrio?

Eithriad T9: adfer metel sgrap

Y sefyllfa bresennol

Mae eithriad T9 yn darparu ar gyfer gweithgareddau adfer metel sgrap risg isel ar raddfa fach. Dengys y data diweddaraf fod 6,051 o eithriadau T9 wedi'u cofrestru yng Nghymru a Lloegr.

Yr achos o blaid gweithredu

Dengys Tabl 6 amcangyfrifon Asiantaeth yr Amgylchedd o ran lefelau cydymffurfiaeth posibl â T9 ledled Lloegr yn seiliedig ar ei hymgyrch wedi'i thargedu a gwybodaeth arall a gasglwyd yn ystod ei hadolygiad o eithriadau.

Tabl 6 Amcangyfrifon o gydymffurfiaeth â T9 ledled Lloegr

% sy'n cydymffurfio	% sy'n anghyfreithlon / a allai fod yn anghyfreithlon	% heb eu defnyddio
44	41	15

Canfu ymgyrch Asiantaeth yr Amgylchedd o blith y 10 eithriad a oedd yn peri pryder fod y lefelau uchaf o weithgarwch anghyfreithlon yn gysylltiedig ag eithriad T9. Yn aml, defnyddir yr eithriad hwn i gynnal lefelau sylweddol o weithgareddau ailgylchu metel y tu hwnt i derfynau'r eithriad. Mewn rhai achosion, mae'r gweithgareddau hyn yn ymwneud â gwastraff peryglus nas caniateir mewn lleoliadau lle ceir poblogaeth ddwys, gan arwain at effeithiau negyddol ar drigolion lleol.

Cafwyd hefyd bod safleoedd T9 wedi bod yn derbyn gwastraff a oedd yn cynnwys metel o gyfleusterau ailgylchu deunyddiau gan arwain at broblemau dilynol â phryfed, arogleuon a draenio, a'r posibilrwydd o lygredd.

Ein cynigion

Rydym yn cynnig yr opsiynau canlynol ar gyfer eithriad T9:

- Opsiwn 1: Cadw'r eithriad heb unrhyw newidiadau i'w amodau
- Opsiwn 2: Newid yr eithriad, diwygio ei amodau – gweler Atodiad 6 (Rhan 2)

Opsiwn 3: Dileu'r eithriad a'i gwneud yn ofynnol i'r gweithgareddau a gwmpesir ganddo gael eu cynnal o dan drwydded. Mae'r egwyddorion dylunio a ddefnyddiwyd gennym i ddatblygu'r opsiynau hyn yn Atodiad 1.

C54. A oes gennych dystiolaeth arall ynglŷn â'r defnydd anghyfreithlon o'r eithriad hwn ar hyn o bryd?

C55. A ydych o'r farn y bydd unrhyw un o'r opsiynau yn gosod costau penodol arnoch chi neu'ch sefydliad neu'n cynnig manteision i chi neu'ch sefydliad?

C56. Pa un o'r opsiynau a gynigiwyd ar gyfer eithriad T9 rydych yn ei gefnogi, a pha un rydych yn ei ffafrio?

Eithriad T12: Trin gwastraff â llaw

Y sefyllfa bresennol

Defnyddir eithriad T12 ar gyfer gweithgareddau trin gwastraff â llaw ar raddfa fach lle ceir risg isel, er mwyn gallu aildefnyddio'r gwastraff hwnnw neu ailgylchu'r cydrannau. Dengys y data diweddaraf fod 1,554 o eithriadau T12 wedi'u cofrestru yng Nghymru a Lloegr.

Yr achos o blaid gweithredu

Dengys Tabl 7 amcangyfrifon Asiantaeth yr Amgylchedd o ran lefelau cydymffurfiaeth posibl â T12 ledled Lloegr yn seiliedig ar ei hymgyrch wedi'i thargedu a gwybodaeth arall a gasglwyd yn ystod ei hadolygiad o eithriadau.

Tabl 7 Amcangyfrifon o gydymffurfiaeth â T12 ledled Lloegr

% sy'n cydymffurfio	% sy'n anghyfreithlon / a allai fod yn anghyfreithlon	% heb eu defnyddio
65	11	24

Fel gydag eithriadau eraill, y materion allweddol a nodwyd yn ystod yr ymgyrch oedd bod rhai safleoedd yn prosesu mathau o wastraff neu symiau o wastraff a oedd y tu hwnt i'r lefel a ganiateir o dan eithriad T12. Fel arfer, defnyddir yr eithriad hwn pan fydd y gwastraff yn isel ei werth ac yn anodd ei drin (gan olygu y caiff y gwastraff weithiau ei gasglu, ei bentyrru ac yna'i adael). Mae perygl tân ac achosion o adfer annilys hefyd yn bryder mawr.

Mae problem sylweddol mewn perthynas â thrin matresi: yn ystod yr ymgyrch, cafwyd bod pob safle ag eithriad T12 a oedd yn prosesu'r math hwn o wastraff yn methu â chydymffurfio â'r eithriad.

Astudiaeth achos: camddefnyddio eithriadau er mwyn ailgylchu matresi yng Nghaint

Roedd cwmni yng Nghaint wedi cofrestru eithriad T12 ynghyd ag eithriadau T4, T8 a T10 er mwyn ymdrin â phob cam o'r broses ailgylchu matresi. O dan T12, gellir didoli hyd at 5 tunnell o fatresi a'u tynnu'n ddarnau o dan do ar unrhyw un adeg.

Pan ymwelodd swyddogion Asiantaeth yr Amgylchedd â'r cwmni, gwelsant bentyrrau o fatresi dros 5 metr o uchder mewn dau leoliad gwahanol, gyda chyfanswm tybiedig o tua 2,300 o dunelli o wastraff. Roedd y nifer fawr o fatresi yn golygu bod risg uchel o dân ar y safle a'r ystad gyfagos, ac roedd y ffordd yr oedd y matresi wedi'u storio yn golygu na fyddai digon o le i'r gwasanaethau brys ymdrin â digwyddiad o'r fath.

Roedd gan swyddogion Asiantaeth yr Amgylchedd bryderon diogelwch pan ymwelwyd â'r safle gan fod risg y gallai'r bentyrrau syrthio. Roedd dŵr yn cronni ar y safle hefyd, a oedd yn peri pryder o ran llygredd dŵr. Dyma enghraifft o sefyllfa lle mae cofrestru sawl eithriad ar yr un safle yn cynyddu'r risg o achosion hyd at lefel sy'n golygu y dylid rheoleiddio'r safle ar unwaith o dan drwydded amgylcheddol. Mewn un flwyddyn, bu'n rhaid i swyddogion Asiantaeth yr Amgylchedd dreulio mwy na 150 o oriau yn ymdrin â'r safle – cyfran sylweddol uwch na'r lefel o adnoddau rheoleiddiwr y dylid disgwyl ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau "risg isel" a gaiff eu rheoleiddio o dan eithriadau gwastraff.

Cafwyd y gweithredwr yn euog o fethu â bodloni gofynion yr eithriad. Cafodd ddedfryd o chwe mis o garchar, wedi'i gohirio am ddwy flynedd. Fe'i gwnaed yn ofynnol iddo hefyd ymgymryd â 300 awr o waith di-dâl a gofynnwyd iddo dalu £6,000 o gostau'r erlyniad.

Ein cynigion

Rydym yn cynnig yr opsiynau canlynol ar gyfer eithriad T12:

- Opsiwn 1: Cadw'r eithriad heb unrhyw newidiadau i'w amodau
- Opsiwn 2: Newid yr eithriad, diwygio ei amodau – gweler Atodiad 7 (Rhan 2)
- Opsiwn 3: Dileu'r eithriad a'i gwneud yn ofynnol i'r gweithgareddau a gwmpesir ganddo gael eu cynnal o dan drwydded

Mae'r egwyddorion dylunio a ddefnyddiwyd gennym i ddatblygu'r opsiynau hyn yn Atodiad 1.

C57. A oes gennych dystiolaeth arall ynglŷn â'r defnydd anghyfreithlon o'r eithriad hwn ar hyn o bryd?

C58. A ydych o'r farn y bydd unrhyw un o'r opsiynau yn gosod costau penodol arnoch chi neu'ch sefydliad neu'n cynnig manteision i chi neu'ch sefydliad?

C59. Pa un o'r opsiynau a gynigiwyd ar gyfer eithriad T12 rydych yn ei gefnogi, a pha un rydych yn ei ffafrio?

Eithriad D7: Llosgi gwastraff yn yr awyr agored

Y sefyllfa bresennol

Mae eithriad D7 yn caniatáu ar gyfer llosgi meinwe planhigion a gwastraff pren heb ei drin yn yr awyr agored. Dengys y data diweddaraf fod 47,396 o eithriadau D7 wedi'u cofrestru yng Nghymru a Lloegr.

Fe'i defnyddir yn gyfreithlon gan reolwyr tir i gael gwared ar lystyfiant sy'n digwydd yn naturiol unwaith y byddant wedi ei dorri a'i glirio ar y safle hwnnw. Dim ond yn y man lle y cynhaliwyd y gweithgareddau rheoli'r tir y dylai hyn ddigwydd²⁸ (h.y. y man lle y cynhyrchwyd y gwastraff). Dylid ond ei waredu os mai hwn yw'r opsiwn amgylcheddol gorau, er enghraifft, pan fydd costau cludiant yn ormodol neu lle ceir anghenion rheoli clefyd. O dan amgylchiadau eraill, adfer y gwastraff, megis compostio neu ei ddefnyddio fel tanwydd, yw'r opsiwn a ffefrir.

Yr achos o blaid gweithredu

Dengys Tabl 8 amcangyfrifon Asiantaeth yr Amgylchedd o ran lefelau cydymffurfiaeth posibl â D7 ledled Lloegr yn seiliedig ar ei hymgyrch wedi'i thargedu a gwybodaeth arall a gasglwyd yn ystod ei hadolygiad o eithriadau.

Tabl 8 Amcangyfrifon o gydymffurfiaeth â D7 ledled Lloegr

% sy'n cydymffurfio	% sy'n anghyfreithlon / a allai fod yn anghyfreithlon	% heb eu defnyddio
---------------------	---	--------------------

²⁸ Mae hyn yn wir am bob gweithgaredd gwaredu eithriedig, fel y nodir yn Atodlen 2, Pennod 4, Adran 1 o'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol

48	25	27
----	----	----

Yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, ceir mwy o achosion o ddiffyg cydymffurfio â D7 mewn ardaloedd mwy gwledig. Roedd y prif weithgareddau anghyfreithlon a welwyd fel a ganlyn:

- llosgi mathau o bren nad ydynt yn naturiol megis gwastraff pren a gwastraff nad yw'n bren wedi'i drin sy'n beryglus ac nad yw'n beryglus;
- casglu gwastraff o sawl safle, i'w losgi mewn lleoliad canolog, megis depo.

Ein dull gweithredu

Rydym yn cydnabod yr angen ymarferol ac economaidd am yr eithriad hwn ar gyfer mathau penodedig o wastraff, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig sy'n bell o safleoedd ailgylchu gwastraff. Felly dim ond opsiynau 1 a 2 a gynigir gennym ar gyfer eithriad D7:

- Opsiwn 1: Cadw'r eithriad heb unrhyw newidiadau i'w amodau
- Opsiwn 2: Newid yr eithriad, diwygio ei amodau – gweler Atodiad 8 (Rhan 2)

Mae'r egwyddorion dylunio a ddefnyddiwyd gennym i ddatblygu'r opsiynau hyn yn Atodiad 1.

C60. A oes gennych dystiolaeth arall ynglŷn â'r defnydd anghyfreithlon o'r eithriad hwn ar hyn o bryd?

C61. A ydych o'r farn y bydd unrhyw un o'r opsiynau yn gosod costau penodol arnoch chi neu'ch sefydliad neu'n cynnig manteision i chi neu'ch sefydliad?

C62. Pa un o'r opsiynau a gynigiwyd ar gyfer eithriad D7 rydych yn ei gefnogi, a pha un rydych yn ei ffafrio?

Eithriad S1: Storio mewn cynwysyddion diogel ac Eithriad S2: Storio mewn man diogel

Y sefyllfa bresennol

Prif ddiben eithriadau S1 ac S2 yw caniatáu i wastaff ffrwd sengl y gellir ei ailgylchu gael ei storio am gyfnod cyfyngedig cyn ei anfon i safle arall i'w adfer. Gellir ei ddefnyddio'n gyfreithlon i wagio cynnwys cynwysyddion llai i gynwysyddion mwy er mwyn paratoi i gludo'r gwastraff ymlaen. Ni chaniateir gwaith didoli nac unrhyw fath o drin o dan yr eithriadau hyn. Dengys y data diweddaraf fod 17,833 o eithriadau S1 a 23,622 o eithriadau S2 wedi'u cofrestru yng Nghymru a Lloegr.

Yr achos o blaid gweithredu

Dengys Tabl 9 amcangyfrifon Asiantaeth yr Amgylchedd o ran lefelau cydymffurfiaeth posibl ag S1 ac S2 ledled Lloegr yn seiliedig ar ei hymgyrch wedi'i thargedu a gwybodaeth arall a gasglwyd yn ystod ei hadolygiad o eithriadau

Tabl 9 Amcangyfrifon o gydymffurfiaeth ag S1 ac S2 ledled Lloegr

% sy'n cydymffurfio	% sy'n anghyfreithlon / a allai fod yn anghyfreithlon	% heb eu defnyddio
52	13	35

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu y caiff S1 ac S2 eu defnyddio i gynyddu cynhwysedd storio mewn cyfleusterau trin sydd wedi'u cofrestru o dan yr eithriadau 'T' â'u cyfleusterau storio cysylltiedig eu hunain mewn ffordd anghyfreithlon, a hefyd i gynyddu cynhwysedd storio ar safleoedd trwyddedig. Roedd y rhan fwyaf o'r eithriadau S1 ac S2 yr ymwelwyd â nhw ar gyfer y prosiect wedi'u cofrestru ar y cyd ag eithriadau eraill. Y prif ddefnydd anghyfreithlon arall a wneir o eithriadau S1 ac S2 yw storio ffrydiau gwastraff lluosog y tu hwnt i'w terfynau penodedig.

Dim ond mewn rhai lleoliadau penodol y gellir storio rhai mathau o wastraff o dan S2, megis glannau dociau, ac weithiau cânt eu camddisgrifio naill ai'n fwriadol neu ar gam (e.e. er mwyn storio metel sgrap). Yn olaf, yn aml bydd busnesau yn cofrestru'r eithriadau hyn er mwyn storio eu gwastraff eu hunain. Nid oes angen gwneud hyn gan fod gallu cynhyrchwr y gwastraff i storio'r gwastraff hwnnw tra'n aros iddo gael ei gasglu eisoes wedi'i gwmpasu gan eithriadau NWFD2 ac NWFD3²⁹.

Mae'r rheoleiddwyr yn gyffredinol o'r farn bod eithriad S2 yn achosi mwy o broblemau nag S1, er bod hyn i raddau helaeth o ganlyniad i'r ffaith bod mwy o gofrestriadau S2 - mae tua

²⁹ <https://www.gov.uk/guidance/waste-exemption-nwfd-2-temporary-storage-at-the-place-of-production--2>; <https://www.gov.uk/guidance/waste-exemption-nwfd-3-temporary-storage-of-waste-at-a-place-controlled-by-the-producer>

theirgwaith yn fwy o eithriadau S2 wedi'u cofrestru nag eithriadau S1. Caiff yr eithriadau hyn yn aml eu cofrestru mewn modd rhyngnewidiol o ganlyniad i ddiffyg dealltwriaeth ymhlith gweithredwyr.

Ein cynigion

Rydym yn cydnabod yr angen ymarferol ac economaidd am yr eithriadau hyn er mwyn caniatáu casglu a chyfuno gwastraff i'w gludo i safleoedd adfer. Drwy leihau'r terfynau a gweithredu rheolaethau mwy caeth ar fathau o wastraff, symiau ac amodau storio, disgwylir y bydd gweithgareddau o'r fath yn rhai risg isel ac y byddant o fudd o ran adfer adnoddau. Felly dim ond opsiynau 1 a 2 a gynigir gennym ar gyfer eithriadau S1 ac S2.

- Opsiwn 1: Cadw'r eithriad heb unrhyw newidiadau i'w amodau
- Opsiwn 2: Newid yr eithriad, diwygio ei amodau – gweler Atodiad 9 (Rhan 2)

Mae'r egwyddorion dylunio a ddefnyddiwyd gennym i ddatblygu'r opsiynau hyn yn Atodiad 1.

C63. A oes gennych dystiolaeth arall ynglŷn â'r defnydd anghyfreithlon o'r eithriad hwn ar hyn o bryd?

C64. A ydych o'r farn y bydd unrhyw un o'r opsiynau yn gosod costau penodol arnoch chi neu'ch sefydliad neu'n cynnig manteision i chi neu'ch sefydliad?

C65. Pa un o'r opsiynau a gynigiwyd ar gyfer eithriadau S1 a S2 rydych yn ei gefnogi, a pha un rydych yn ei ffafrio?

Mae Opsiwn 2 yn gosod cyfyngiadau caeth ar amodau eithriadau ond mae hefyd yn ailstrwythuro ac yn rhannu S1 ac S2 yn chwe gwahanol eithriad er mwyn gwahaniaethu rhwng y mathau o wastraff a gaiff eu storio mewn gwahanol ffyrdd neu at wahanol ddibenion. Mae nifer yr eithriadau yn adlewyrchu'r nifer fawr o fathau o wastraff a gwmpesir o dan eithriadau S1 ac S2 ar hyn o bryd. Rydym o'r farn bod eu rhannu yn helpu i egluro union ddibenion yr eithriadau, ac yn gwneud yr amodau'n gliriach, ond hoffem wahodd sylwadau ynghylch a yw'r dull gweithredu arfaethedig yn gweithio.

Nodir y newidiadau penodol manwl a gynigir gennym o dan Opsiwn 2 yn Atodiad 9. Cynigir y dylid rhannu'r eithriadau fel a ganlyn:

- S1 newydd - ar gyfer olewau a mathau tebyg o wastraff mewn cynwysyddion diogel

- S2 newydd – ar gyfer deunydd y gellir ei ailgylchu a gesglir yn rheolaidd i'w adfer mewn man arall
- S4 newydd ar gyfer gwastraff ar lan dociau cyn ei fewnforio/allforio
- S5 newydd ar gyfer gwastraff peryglus solet
- S6 newydd ar gyfer gwastraff arall nad yw'n beryglus
- S7 newydd ar gyfer gwastraff adeiladu

O dan y cynnig hwn, ni fyddai amod S3 yn newid

C66. A ydych o'r farn y byddai'r cynnig i rannu'r eithriadau S1 a S2 presennol yn chwe eithriad newydd fel y nodir yn Atodiad 9 yn helpu i esbonio diben yr eithriadau a gwneud yr amodau'n gliriach?

4.3. Ei gwneud yn ofynnol cyflwyno gwybodaeth ychwanegol er mwyn ategu trefniadau rheoleiddio effeithiol

Y sefyllfa bresennol

Prin iawn yw'r wybodaeth a gesglir ar hyn o bryd am y gweithgareddau y gall gweithredwyr eithriedig eu cynnal mewn gwirionedd, yn enwedig mewn perthynas â mathau o wastraff a symiau gwastraff. Ar hyn o bryd, dim ond ar gyfer T9, T11, T3, T7, U10 neu U11³⁰ y mae'n rhaid cadw cofnodion a sicrhau bod y cofnodion hynny ar gael.

Yr achos o blaid gweithredu

Gall achosion o gydymffurfiaeth wael ag eithriadau penodol gael eu dwyn at sylw'r rheoleiddwyr ar unrhyw adeg. Er y gellid dileu'r eithriadau penodol hyn yn y rheoliadau a'i gwneud yn ofynnol cynnal y gweithgaredd o dan drwydded, mae'r cyfnod sylweddol o amser y byddai ei angen er mwyn newid y ddeddfwriaeth yn golygu na ellir gwneud hynny er mwyn ymdrin yn gyflym â gweithgareddau anghyfreithlon. Yn ogystal, gan ddibynnu ar lefel y diffyg cydymffurfiaeth, mae'n bosibl na fydd dileu eithriad penodol yn briodol pan fo achos cryf o blaid ei gadw ar gyfer y busnesau hynny sy'n gweithredu mewn modd cyfreithlon.

Mae gofyn am wybodaeth ychwanegol adeg adnewyddu neu gofrestru eithriad, a/neu ar ddiwedd y gweithrediad yn un ffordd o ymdrin ag achosion o gamddefnyddio eithriadau penodol wrth iddynt godi. Mae gan reoleiddwyr y pŵer i wneud hyn eisoes o dan Reoliad 61 o'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ond yn hanesyddol, maent wedi gofyn am

³⁰ Gweler Atodlen 2, Paragraff 17 o'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol

gyn lleied o wybodaeth â phosibl er mwyn lleihau'r baich ar ddefnyddwyr eithriadau. Fodd bynnag, mewn achosion lle ceir problemau posibl wrth ddefnyddio eithriadau penodol, byddai'r wybodaeth hon yn helpu i flaenoriaethu gweithgareddau cydymffurfiaeth ac arolygiadau. Yn ogystal, gellid hefyd defnyddio'r broses hon i hwyluso trefniadau cynllunio gwastraff awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod gan awdurdod penodol ddigon o adnoddau i reoli'r gwastraff.

Ein cynigion

Rydym yn cynnig y dylid ei gwneud hi'n orfodol i weithredwyr gadw cofnodion a sicrhau eu bod ar gael ar gais ar gyfer pob eithriad gwastraff. Byddai'r wybodaeth a gaiff ei chadw a'i chofnodi yn cynnwys y canlynol: cofnodion cronolegol o swm, natur, tarddiad a, lle y bo'n berthnasol, gyrchfan a dull trin yr holl wastraff a gaiff ei waredu neu ei adfer fel rhan o'r gweithrediad hwnnw. Bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth hon eisoes yn cael ei chadw a'i chofnodi gan y sefydliadau hynny y mae'r rheoliadau Dyletswydd Gofal yn berthnasol iddynt, ac felly gallai'r sefydliadau hyn ddefnyddio eu cofnodion presennol i fodloni gofynion eu heithriad. Er hwylustod, gellid ei gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth hon gael ei chofnodi a'i storio ar ffurf electronig neu mewn system a nodwyd gan y rheoleiddiwr.

Rydym hefyd yn cynnig y dylai'r rheoleiddwyr gasglu rhagor o wybodaeth ar gyfer eithriadau penodol ar sail achosion unigol lle y nodir bod gweithgareddau anghyfreithlon yn broblem naill ai drwy:

- Gwestiynau ychwanegol adeg cofrestru, er enghraifft, y mathau a'r symiau o wastraff a gaiff eu storio, eu defnyddio, eu trin neu eu gwaredu.
- Cofnodion sy'n ymwneud â gweithgareddau parhaus a gynhelir o dan eithriad cofrestredig, ar ôl cofrestru.
- Gofyniad i gwblhau ffurflenni diwedd gweithrediad.

C67. A ydych o'r farn y dylai fod yn ofynnol i weithredwyr gadw cofnodion o'r gweithgareddau a gynhaliwyd o dan unrhyw eithriad a threfnu eu bod ar gael i'r rheoleiddiwr?

C68. A ddylai fod yn ofynnol i weithredwyr gadw'r cofnodion gofynnol mewn fformat electronig a/neu mewn system a nodir gan y rheoleiddiwr?

C69. A ydych o'r farn y dylai'r rheoleiddiwr allu gosod gofynion gwybodaeth ychwanegol ar gyfer eithriadau unigol fesul achos wrth gofrestru, yn barhaus neu ar ddiwedd y gweithrediad er mwyn mynd i'r afael â chydymffurfiaeth wael?

C70. A ydych o'r farn y dylai unrhyw ofynion gwybodaeth ychwanegol gael eu gosod ar unwaith, yn arbennig o ran y 10 eithriad sy'n achosi pryder a ddisgrifir yn adran 4.2?

4.4. Gwell trefniadau rheoleiddio ar gyfer eithriadau

Rydym yn awyddus i nodi unrhyw feysydd lle y gellid gwella'r broses o reoleiddio eithriadau i ddefnyddwyr eithriadau. Mae'r newidiadau arfaethedig i'r eithriadau sy'n peri pryder hefyd wedi ein hysgogi i ystyried newidiadau y gallai fod angen eu cyflwyno ar yr un pryd. Ceir crynodeb ohonynt isod.

Cofrestru eithriadau

Dengys dadansoddeg ei bod yn cymryd 22 munud ar gyfartaledd i gofrestru eithriad gan ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein. Dengys asesiad y Targed Effaith ar Fusnesau³¹ fod cyflwyno'r gwasanaeth cofrestru eithriadau newydd wedi lleihau costau busnes tua £400,000 y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth eisoes yn destun gwelliannau parhaus er mwyn gwella profiad cwsmeriaid, mewn ymateb i adborth a roddwyd drwy'r gwasanaeth adborth ar-lein.

C71. A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella'r gwasanaeth cofrestru eithriadau ymhellach?

Codau gwastraff

Ar ôl adolygu'r codau gwastraff a ddefnyddir ar gyfer gwahanol eithriadau, rydym yn cynnig y dylid cyflwyno nifer o newidiadau er mwyn eu gwneud yn gliriach ac yn llai amwys. Cynigir rhestr o newidiadau i'r codau gwastraff yn Atodiad 10.

C72. A ydych yn cefnogi'r newidiadau i'r codau gwastraff a nodir yn Atodiad 10?

Cysondeb amodau mewn gwahanol eithriadau

O dan Adran 4.2, rydym yn cynnig newidiadau i'r amodau ar gyfer rhai mathau o wastraff sydd hefyd wedi'u cynnwys mewn eithriadau eraill nas cwmpesir yn yr ymgynghoriad hwn. Os mai dim ond ar gyfer yr eithriadau sy'n peri pryder y gwneir y newidiadau hyn gennym, bydd diffyg cysondeb ag eithriadau eraill. Mae Atodiad 11 yn nodi'r prif fathau o wastraff a'r eithriadau lle y byddai anghysondeb.

³¹ <https://www.gov.uk/government/publications/business-impact-target-statutory-guidance>

C73. Os newidiwn amodau'r eithriadau sy'n achosi pryder, a fyddech yn cefnogi cysoni amodau'r eithriadau a gynigir yn Atodiad 11?

Ar gyfer eithriadau U8 ac U9 a restrir yn Atodiad 11 (Tabl 1), pa amodau newydd, wedi'u cysoni y dylid eu cyflwyno, yn eich barn chi?

Ar gyfer eithriadau U8, U9, T1 a T2 a restrir yn Atodiad 11 (Tabl 2), pa amodau newydd, wedi'u cysoni y dylid eu cyflwyno, yn eich barn chi?

Ar gyfer eithriadau U8 ac U9 a restrir yn Atodiad 11 (Tabl 3), pa amodau newydd, wedi'u cysoni y dylid eu cyflwyno, yn eich barn chi? Trwyddedau rheolau safonol newydd

Os caiff y cynigion i newid neu ddileu rhai eithriadau eu rhoi ar waith ar ôl yr ymgynghoriad, bydd angen trwydded safonol neu drwydded bwrpasol ar weithrediad gwastraff ar gyfer rhai gweithgareddau sydd wedi'u heithrio ar hyn o bryd. Mae rheolau safonol ar gael ar gyfer rhai gweithrediadau eisoes, megis storio a thrin gwastraff pren, ond nid oes rheolau o'r fath ar gyfer eraill, megis storio a thrin teiars. Nodir y rheolau safonol presennol sydd fwyaf perthnasol i'r gwastraff a reolir o dan y 10 eithriad yn adran 4.2 yn Atodiad 12.

Cynhelir ymgynghoriad ar wahân gan y rheoleiddwyr ar y rheolau safonol ar gyfer unrhyw weithrediadau gwastraff cyffredin y mae angen trwydded ar eu cyfer o ganlyniad i unrhyw gynigion a gaiff eu rhoi ar waith yn dilyn yr ymgynghoriad hwn. Bydd y trefniadau trosiannol ar gyfer gweithredu'r rheoliadau diwygiedig yn caniatáu digon o amser i wneud cais am drwydded.

C74. A ydych o'r farn bod rheolau safonol y deg eithriad a nodir yn Atodiad 12 yn ddigon? A oes angen rheolau safonol newydd hefyd?

4.5. Darpariaethau trosiannol

Bydd y newidiadau a gynigir ar gyfer eithriadau yn golygu y bydd angen i nifer o weithgareddau sy'n gweithredu o dan eithriad cofrestredig ar hyn o bryd gael eu rheoleiddio ar wahanol lefel ac mewn gwahanol ffordd.

Nodau ac egwyddorion cyffredinol y trefniadau trosiannol

Wrth bennu'r trefniadau trosiannol a'r amseriad cysylltiedig er mwyn gallu symud i'r trefniadau newydd, yr egwyddor gyntaf fydd blaenoriaethu'r broses drosiannol yn seiliedig ar risg amgylcheddol ac unrhyw angen i wella gallu'r rheoleiddwyr i arfer rheolaethau priodol lle y credir nad yw hynny'n wir ar hyn o bryd.

Ail egwyddor fydd caniatáu cyfnodau amser rhesymol i weithredwyr lunio barn hyddysg am yr opsiynau sydd ar gael i'w busnes a chymryd y camau angenrheidiol i gydymffurfio â'r gofynion rheoleiddiol newydd.

Yn drydydd, dylai'r trefniadau anelu at leihau'r ymdrech weinyddol a'r gost sy'n gysylltiedig â gwneud newidiadau i'r eithaf, i bawb a fydd yn destun eithriadau gwastraff o hyd. Mae'r gweithgareddau hyn yn peri'r risg leiaf ac felly dylid sicrhau y gallant ddilyn y llwybr hawsaf tuag at safoni eu sefyllfa o dan y system newydd.

Amserlenni trosiannol arfaethedig

Rydym yn cynnig y canlynol:

- Bydd yn rhaid i weithredwyr sy'n cofrestru gweithrediad gwastraff eithriedig o'r dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym gydymffurfio â'r Rheoliadau newydd.

Bydd gweithredwyr ag eithriadau a gofrestrwyd cyn i'r rheoliadau ddod i rym yn gallu parhau i ddibynnu ar amodau blaenorol yr eithriadau hynny hyd nes y byddant yn dirwyn i ben neu 18 mis ar ôl i'r rheoliadau newydd ddod i rym pa un bynnag sydd gynharaf.

C75. A ydych o'r farn bod yr amserlenni arfaethedig ar gyfer newid y drefn eithriadau yn ddigonol?

5. Costau a manteision amcangyfrifedig y cynigion

Mae asesiad o'r effaith yn cyd-fynd â'r ddogfen ymgynghori hon. Mae'n rhoi amcangyfrif o'r costau a'r manteision i nifer o dderbynyddion (h.y. busnesau, y llywodraeth, y rheoleiddwyr, cymdeithas a'r amgylchedd) yn deillio o wneud newidiadau i'r 10 eithriad sy'n peri pryder (adran 4.2).

Mae'r asesiad o'r effaith yn ystyried y costau a'r manteision sy'n deillio o fynd i'r afael â gweithredwyr sy'n ymgymryd â gweithgareddau anghyfreithlon mewn ffordd systemataidd a bwriadol, ac sy'n cofrestru eithriadau gyda'r bwriad o allu creu'r argraff bod eu gweithgareddau yn gyfreithlon. Yn wir, mae'r math hwn o weithgareddau anghyfreithlon difrifol yn arwain at gostau uniongyrchol i fusnesau ar ffurf colli cyfran o'r farchnad a chystadleuaeth annheg, yn ogystal â cholledion refeniw uniongyrchol i'r llywodraeth (e.e. osgoi talu'r dreth dirlenwi). Nododd yr asesiad o'r effaith hefyd gostau uniongyrchol i'r amgylchedd a chymdeithas, megis y rhai sy'n deillio o achosion o lygredd, neu o'r effeithiau negyddol y gall rheoli gwastraff yn amhriodol eu cael ar gymunedau lleol.

Yn yr asesiad o'r effaith, mae'r prif fanteision yn deillio o drosglwyddo gwastraff o eithriadau anghyfreithlon i fusnesau cyfreithlon sy'n gweithredu o dan drwyddedau

amgylcheddol neu eithriadau gwastraff. Tybiwyd y byddai hyn yn arwain at fanteision cynyddol i fusnesau sy'n rheoli mwy o wastraff, ac felly gynydd mewn referniw treth i'r llywodraeth. Rhagwelwyd y byddai'r rheoleiddwyr, yr amgylchedd a chymdeithas hefyd yn elwa ar ostyngiad mewn costau, o ganlyniad i leihad yn nifer yr achosion o lygredd a newid tuag at arferion rheoli gwastraff priodol.

Roedd prif gostau'r cynigion yn cynnwys y canlynol: costau i fusnesau cyfreithlon ar gyfer cofrestru a chynnal eithriadau newydd a gwneud cais am drwyddedau newydd er mwyn ystyried y cynnydd o ran y gwastraff a broseswyd yn flaenorol o dan eithriadau anghyfreithlon; a chostau cyfalaf a chyfarpar er mwyn uwchraddio cyfleusterau adfer presennol.

Adolygodd y Pwyllgor Polisi Rheoleiddiol (PPRh), sef corff cyhoeddus anadrannol cynghorol annibynnol sy'n craffu ar y dystiolaeth a'r gwaith dadansoddi sy'n ategu'r amcangyfrifon o gostau a manteision mewn cynigion rheoliadol yr asesiad drafft o'r effaith sy'n ymwneud â Rhan B (eithriadau gwastraff) o'r ymgynghoriad. Mae'r PPRh wedi nodi bod angen gwneud mwy o waith ar yr asesiad drafft o'r effaith er mwyn egluro sut y cafodd costau a manteision eu cyfrifo, yn ogystal â mynd i'r afael â phroblemau dadansoddi technegol.

Gwnaeth y PPRh amau'r ffordd yr amcangyfrifwyd costau a manteision uniongyrchol y cynigion i fusnesau gennym, ac yn benodol a gafodd pob un o'r opsiynau a ystyriwyd (h.y. opsiwn 1, y sefyllfa bresennol, a gweithredu rheoliadau tynnach yn opsiynau 2 a 3) eu cymharu â'r un llinell sylfaen, gan y byddai hyn yn newid y costau a'r manteision cymharol a gyfrifir ar gyfer pob opsiwn. Gofynnodd hefyd a gafodd costau penodol i fusnesau eu hepgor yn opsiynau 2 a 3, ac a ddylid cyfrif trosglwyddo gwastraff o fusnesau anghyfreithlon i fusnesau sy'n cydymffurfio fel budd i fusnesau sy'n cydymffurfio. Gofynnodd y PPRh am ragor o fanylion hefyd ynglŷn ag ymgorffori trethi wrth gyfrifo costau a manteision.

Caiff yr asesiad o'r effaith a gynhaliwyd ar ôl yr ymgynghoriad ei ddiwygio er mwyn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a mynd i'r afael â sylwadau'r PPRh. Bydd hefyd yn cynnwys arfarniad economaidd o'r cynigion eraill a gynhwyswyd yn yr ymgynghoriad ond nad ydyn wedi cael eu costio ar hyn o bryd, os byddwn am eu datblygu o ganlyniad i'r ymgynghoriad.³² Dim ond pan fydd y PPRh yn ei gymeradwyo y caiff asesiad diwygiedig o'r effaith ei gyhoeddi gydag ymateb terfynol y llywodraeth.

C76. A ydych wedi gweld unrhyw gynydd neu ostyngiad mewn lefelau troseddu a pherfformiad gwael yn y sector gwastraff yn ystod yr ychydig flynyddoedd

³² Yn arbennig, yr opsiynau arfaethedig ar gyfer gwahardd y defnydd o eithriadau o dan amgylchiadau penodedig

diwethaf? Beth yw eich disgwyliadau ar gyfer y dyfodol os na fydd dim byd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r mater?

C77. Yn gyffredinol, pa mor effeithiol fyddai Opsiynau 2 a 3, yn eich barn chi, fel y'u disgrifir yn yr asesiad o'r effaith, o ran mynd i'r afael â throseddau a pherfformiad gwael yn y sector gwastraff? Pa opsiwn sydd orau gennych?

C78. A ydych o'r farn y bydd unrhyw un o'r cynigion yn gosod costau ychwanegol arnoch chi neu'ch sefydliad?

C79. A ydych o'r farn bod y dull dadansoddi arfaethedig yn cwmpasu'n briodol yr holl gostau a manteision a fyddai'n deillio o weithredu'r cynigion?

C80. A ydych o'r farn na ddylid cyfrif am unrhyw rai o'r costau a'r manteision a gwmpesir yn yr asesiad o'r effaith yn y broses gostio hon?

C81. A oes gennych unrhyw dystiolaeth a fyddai'n cefnogi'r cyfrifiad o fanteision neu gostau'r cynigion eithriadau i fusnesau? A ydych yn ymwybodol o unrhyw ffynonellau eraill o dystiolaeth a fyddai'n gwella'r broses gostio, gan gynnwys ar gyfer y cynigion nas cwmpesir yn yr asesiad presennol o'r effaith?

Rhan C: Hysbysiad cosb benodedig mewn perthynas â dyletswydd gofal

Mae Rhan C o'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar gyflwyno hysbysiad cosb benodedig i ddeiliaid tai nad ydynt yn cymryd camau rhesymol i sicrhau y caiff eu gwastraff ei drosglwyddo i berson awdurdodedig ac i godi ymwybyddiaeth deiliaid tai o'u dyletswydd gofal.

1. Cefndir

Mae'r gyfraith yn gosod dyletswydd ar ddeiliaid eiddo domestig (deiliaid tai) i roi eu gwastraff i 'berson awdurdodedig'. Diffinnir hyn ymhellach mewn deddfwriaeth, ond fel arfer mae'n golygu naill ai wasanaeth casglu'r awdurdod lleol neu gludwr gwastraff cofrestredig. Mae'n ofynnol i ddeiliaid tai gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y caiff unrhyw wastraff a gynhyrchir yn eu heiddo ei drosglwyddo i berson awdurdodedig. Ceir canllawiau pellach yn y Cod Ymarfer (gwastraff) ar y Ddyletswydd Gofal³³. Nid yw'n ofynnol i ddeiliaid tai gwblhau disgrifiad ysgrifenedig o'r gwastraff.

Ariennir gwasanaethau casglu gwastraff tai gan y Dreth Gyngor yn hytrach na chodi tâl am eu defnyddio ar y pryd. Mae awdurdodau lleol hefyd yn cynnig gwasanaethau gwaredu ac ailgylchu sydd am ddim i'w defnyddio mewn canolfannau gwastraff cartref ac ailgylchu. Mae'n bosibl y byddant yn codi tâl ar wahân am gasglu rhai mathau penodol o wastraff megis gwastraff swmpus, er enghraifft oergelloedd a gwelyau. Mae'r taliadau hyn yn amrywio'n sylweddol ledled y wlad ond yn aml codir tua £20-£30 fesul eitem. Gellir codi taliadau hefyd am eitemau megis gwastraff gardd. Ar gyfartaledd, codir tua £40 y flwyddyn. Pan fydd deiliad tŷ yn cynhyrchu gwastraff tebyg i wastraff adeiladu, er enghraifft, wrth gynnal gwaith adnewyddu, bydd cost llogi sgip bach (4 llathen) yn amrywio rhwng tua £100 i £250 ledled y wlad. Yn aml yn yr achosion hyn, os bydd yn cyflogi contractwr i wneud y gwaith, mae'n bosibl y bydd y contractwr yn codi tâl am symud y gwastraff o'r safle fel rhan o'r contract neu'n llogi gwasanaethau sgip neu grafanc ar wahân.

³³ <https://www.gov.uk/government/publications/waste-duty-of-care-code-of-practice>

2. Yr achos o blaid gweithredu

2.1. Yr opsiynau presennol ar gyfer gorfodi'r ddyletswydd gofal mewn perthynas â deiliaid tai

Mae'r llywodraeth yn ymrwymedig i fynd i'r afael ag achosion o dipio anghyfreithlon. Gellir erlyn deiliaid tai neu gyflwyno hysbysiad cosb benodedig iddynt os byddant yn tipio gwastraff yn anghyfreithlon eu hunain. Er bod dwy ran o dair o'r gwastraff a gaiff ei dipio'n anghyfreithlon yn wastraff cartrefi, caiff yn aml ei dipio'n anghyfreithlon gan fod deiliad tŷ wedi caniatáu i berson anawdurdodedig gludo'r gwastraff ymaith, yn hytrach na'u bod wedi ei dipio'n anghyfreithlon eu hunain. Gan nad yw'n ofynnol i ddeiliaid tai gwblhau nodyn trosglwyddo gwastraff yn disgrifio'r gwastraff, nid oes opsiwn hysbysiad cosb benodedig ar gael ar hyn o bryd ar gyfer y drosedd hon a'r unig opsiwn yw i'r rheoleiddiwr (fel arfer yr awdurdod lleol yn yr achos hwn) ddwyn achos llys yn erbyn y troseddwr. Bob blwyddyn, ceir nifer o erlyniadau llwyddiannus yn erbyn deiliaid tai sydd wedi torri'r gyfraith drwy fethu â gwneud gwiriadau rhesymol a rhoi eu gwastraff i berson anawdurdodedig. Fodd bynnag, mae'r erlyniadau hyn yn gostus i'r rheoleiddwyr ac i'r llys, a gallai cyflwyno amrywiaeth fwy hyblyg o gosbau i'w defnyddio fod yn fwy effeithiol o ran newid ymddygiad a lleihau'r costau, yn arbennig i awdurdodau lleol. Mae erlyniadau llwyddiannus hefyd yn golygu bod gan ddeiliaid tai gofnod troseddol, hyd yn oed os nad oedd ganddynt unrhyw syniad y câi'r gwastraff ei dipio'n anghyfreithlon a'u bod, gyda phob ewyllys da, wedi talu am ei waredu.

2.2. Hysbysiadau cosb benodedig

Rydym eisoes wedi cyflwyno nifer o bwerau hysbysiadau cosb benodedig i fynd i'r afael â gweithgareddau gwastraff anghyfreithlon ac ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig megis gadael sbwriel, tipio anghyfreithlon a methu â chyflwyno nodyn trosglwyddo gwastraff.

Cynlluniwyd hysbysiadau cosb benodedig fel cosbau 'yn y fan a'r lle' heb fod angen cymryd camau mwy ffurfiol megis erlyn unigolion drwy'r llysoedd. Gall person y rhoddir hysbysiad cosb benodedig iddo benderfynu ei dalu yn hytrach na chael ei erlyn. Fodd bynnag, gall y person hefyd benderfynu peidio â derbyn yr hysbysiad cosb benodedig a gofyn i'r llys ymdrin â'r mater yn lle hynny. Os ceir y person yn euog, bydd yn wynebu cosb o ryw fath gan y llys a bydd ganddo hefyd gofnod troseddol, na fyddai'n wir yn achos hysbysiad cosb benodedig. Câi'r person ei erlyn am drosedd dyletswydd gofal, yn hytrach nag am wrthod talu'r gosb benodedig.

Yn gyffredinol, mae awdurdodau yn defnyddio hysbysiadau cosb benodedig er mwyn ymdrin â throseddau llai difrifol, sy'n rhyddhau adnoddau ac amser i ganolbwyntio ar erlyn achosion a throseddau mwy sylweddol neu ddifrifol drwy'r llysoedd. Dengys Tabl 10

droseddau gwastraff cysylltiedig yn Lloegr lle ceir opsiwn hysbysiad cosb benodedig eisoes.

Tabl 10 Troseddau gwastraff cysylltiedig yn Lloegr y ceir opsiwn hysbysiad cosb benodedig ar eu cyfer eisoes³⁴ (Nodir y ffigurau ar gyfer Cymru mewn cromfachau os ydynt yn wahanol i ffigurau Lloegr)

Trosedd	Cosb ddiodyn	Isafswm cosb lawn	Uchafswm cosb lawn	Isafswm cosb ostyngol	Gellir gwario arian hysbysiadau cosb benodedig o'r drosedd hon ar swyddogaethau sy'n ymwneud â'r canlynol:
Gadael sbwriel ³⁵	£75 (£75)	£50 (£75)	£80 (£150)	£50 (£50)	Sbwriel, rheoli cŵn, graffiti a gosod posteri'n anghyfreithlon
Tipio anghyfreithlon	£200	£150	£400	£120	Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar sut y gall cynghorau ddefnyddio incwm
Methiant i gyflwyno nodyn trosglwyddo gwastraff	£300	£300	£300	£180	Gwastraff ar dir

³⁴ <https://www.gov.uk/guidance/fixed-penalty-notice-issuing-and-enforcement-by-councils>

³⁵ Mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi ei bwriad yn ddiweddar, yn amodol ar gymeradwyaeth Seneddol, i gynyddu lefel y cosbau penodedig yn Lloegr am adael sbwriel (ac am droseddau cysylltiedig megis dosbarthu deunydd am ddim wedi'i argraffu heb awdurdod mewn ardal benodedig, graffiti a gosod posteri'n anghyfreithlon). O 1 Ebrill 2018, disgwylir i'r hysbysiad cosb benodedig diodyn gynyddu i £100, gydag uchafswm o £150. O 1 Ebrill 2019, disgwylir i'r isafswm cosb benodedig hefyd gynyddu i £65.

3. Ein dull gweithredu

Hoffem wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r ddyletswydd ar ddeiliaid tai a'r risgiau y byddant yn eu cymryd wrth beidio â throsglwyddo eu gwastraff i berson awdurdodedig.

Rydym hefyd o'r farn y dylai rheoleiddwyr allu mynd i'r afael ag achosion o dipio gwastraff cartref yn anghyfreithlon ar raddfa fach drwy gosbau penodedig yn hytrach nag erlyniadau drud, ac mewn sawl achos, mae'r dull gweithredu hwn yn fwy dymunol gan na fydd gan ddeiliaid tai gofnod troseddol.

Fel yr amlinellwyd yn Strategaeth Sbwriel y Llywodraeth DU, byddwn yn daparu gwell canllawiau ynghylch y defnydd priodol a chymesur o'r pwerau hyn, ac yn annog cynghorau i fod yn dryloyw ynghylch gweithgarwch gorfodi. Bydd y Llywodraeth DU hefyd yn cyhoeddi canllawiau mwy clir ynghylch beth y gellir codi tâl amdano mewn canolfannau gwastraff cartrefi ac ailgylchu. Cred y Llywodraeth DU y dylai trigolion allu gwaredu am ddim wastraff o waith sy'n cael ei wneud ganddynt hwy. Bydd y Llywodraeth DU yn ystyried gwneud y gyfraith yn fwy clir os bydd cynghorau yn parhau i godi tâl am waredu symiau rhesymol o wastraff sy'n deillio o waith sy'n cael ei wneud gan drigolion. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i breswylwyr waredu eu gwastraff mewn modd cyfrifol.

4. Cynnig

Hoffem wahodd sylwadau ar beth yn rhagor y gallwn ei wneud i wella ymwybyddiaeth deiliaid tai o'u dyletswydd gofal a'r camau y dylent eu cymryd er mwyn sicrhau na chaiff eu gwastraff ei dipio'n anghyfreithlon.

Ar yr un pryd, rydym yn cynnig y dylid rhoi pwerau newydd i awdurdodau gorfodi gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig i ddeiliaid eiddo domestig (deiliaid tai) sy'n methu â chymryd pob cam rhesymol i sicrhau y caiff unrhyw wastraff cartref a gynhyrchir ar yr eiddo hwnnw ei drosglwyddo i berson awdurdodedig. Byddai'r pŵer ar gael i Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau casglu gwastraff, sy'n gorfodi'r troseddau eraill sy'n ymwneud â'r ddyletswydd gofal o ran gwastraff ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn cynnig y dylid gweithio i wella ymwybyddiaeth deiliaid tai o'u Dyletswydd Gofal a hysbysiadau cosb benodedig.

4.1. Gwella ymwybyddiaeth deiliaid tai

Hoffai'r llywodraeth wahodd sylwadau ar sut y dylem weithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill ar fesurau i wella ymwybyddiaeth aelwydydd o'r ddyletswydd gofal o ran gwastraff. Fel cam cyntaf, rydym yn cynnig y dylid sicrhau bod canllawiau syml a chyson wedi'u diweddarau ar gael ar Llyw.cymru a Gov.uk ond hoffem wybod beth arall a fyddai'n gweithio, yn eich barn chi, o ran targedu negeseuon, defnyddio dulliau cyfathrebu

a chynnwys awdurdodau lleol, y llywodraeth, y diwydiant gwastraff ac eraill. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r llywodraeth wedi gweithio gyda'r diwydiant a rheoleiddwyr i godi ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd gofal fel y mae'n gymwys i fusnesau sy'n cynhyrchu gwastraff drwy'r ymgyrch 'Right Waste, Right Place'³⁶. Hoffem gael gwybod am wersi a ddysgwyd o'r dull gweithredu hwn neu ddulliau gweithredu eraill a allai weithio i aelwydydd.

C82. A ydych o'r farn bod deiliaid tai yn ddigon ymwybodol o'u dyletswyddau a'r risg o gael eu herlyn am drosglwyddo eu gwastraff i berson anawdurdodedig?

C83. Pa gamau y gellid eu cymryd i wella ymwybyddiaeth deiliaid tai o'u dyletswydd gofal ac atal tipio gwastraff cartref yn anghyfreithlon?

Yn 2016, cyhoeddodd y llywodraeth y Cod Ymarfer ar y Ddyletswydd gofal o ran gwastraff³⁷. Mae hwn yn amlinellu camau rhesymol y dylid eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd gofal cyn trosglwyddo gwastraff i berson arall. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cadarnhau bod yr unigolyn sy'n cynnig derbyn eich gwastraff wedi'i gofrestru i gludo'r gwastraff. Yn Lloegr, gallwch gadarnhau a yw cludwr gwastraff wedi'i gofrestru drwy edrych ar gofrestr gyhoeddus Asiantaeth yr Amgylchedd neu drwy ffonio 03708 506 506. Yng Nghymru, gallwch gadarnhau drwy edrych ar gofrestr gyhoeddus Cyfoeth Naturiol Cymru neu drwy ffonio 0300 065 3000.
- Cofnodi unrhyw wiriadau gennych, neu ofyn i'r unigolyn neu'r busnes am dystiolaeth o'i awdurdodiad, megis copi o gofrestriad cludwr gwastraff.

C84. A ydych o'r farn bod y Cod Ymarfer ar y Ddyletswydd gofal o ran gwastraff yn rhoi digon o arweiniad ar gamau rhesymol y gellir eu cymryd i gyflawni gofal dyletswydd deiliaid tai?

C85. A ydych o'r farn bod camau rhesymol eraill i gyflawni dyletswydd gofal aelwyd y dylid eu nodi mewn canllawiau i aelwydydd?

4.2. Sut y gellid defnyddio hysbysiadau cosb benodedig

Gellid defnyddio'r hysbysiadau cosb benodedig arfaethedig yn bennaf o dan yr amgylchiadau canlynol:

³⁶ <http://www.rightwasterightplace.com/#intro>

³⁷ <https://www.gov.uk/government/publications/waste-duty-of-care-code-of-practice>

- Lle y deuir o hyd i wastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon y gellir ei olrhain yn ôl i ddeiliad tŷ y canfyddir ei fod wedi methu â chymryd camau rhesymol i sicrhau ei fod wedi trosglwyddo'r gwastraff hwnnw i berson awdurdodedig
- Lle y canfyddir bod cludwr anawdurdodedig yn cludo gwastraff y gellir ei olrhain yn ôl i ddeiliad tŷ
- Lle y canfyddir bod deiliad tŷ yn trosglwyddo ei wastraff i berson anawdurdodedig ar safle nad oes ganddo drwydded nac eithriad.

Rydym yn cynnig y dylid cyfyngu'r defnydd o'r hysbysiad cosb benodedig hwn i'r achos cyntaf o drosglwyddo gwastraff gan ddeiliad tŷ i gludwr / person anawdurdodedig (gweithredwr safle anawdurdodedig). Mewn achosion eraill, er enghraifft, pe bai'r deiliad tŷ wedi trosglwyddo'r gwastraff i berson awdurdodedig a bod y person hwnnw wedyn yn ei drosglwyddo i berson anawdurdodedig, ni fyddai'r awdurdod gorfodi yn gallu cyflwyno hysbysiad cosb benodedig yn erbyn y deiliad tŷ.

Mae ein polisi yn glir mai dim ond lle y bo'n gymesur ac er budd i'r cyhoedd y dylid cymryd camau gorfodi drwy hysbysiadau cosb benodedig. Mae gweithgareddau gorfodi anghymesur yn tanseilio negeseuon dilys yn erbyn troseddau sy'n gysylltiedig â thipio anghyfreithlon. Ni ddylai rheoleiddwyr ddefnyddio hysbysiadau cosb benodedig fel ffordd o greu incwm o dan unrhyw amgylchiadau. Rydym yn cynnig y dylid diweddarau'r cod ymarfer ar gyfer y Ddyletswydd Gofal Statudol (gwastraff) er mwyn rhoi arweiniad i'r rheoleiddwyr ar ddefnyddio'r hysbysiad cosb benodedig newydd hwn.

C86. A ydych o'r farn y byddai cyflwyno hysbysiad cosb benodedig i'w roi i ddeiliad tŷ am gyflawni trosedd drwy drosglwyddo ei wastraff i berson anawdurdodedig yn helpu i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon?

Mae canllawiau eisoes ar gael ynglŷn â sut mae awdurdodau lleol yn cyflwyno ac yn gorfodi hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer troseddau amgylcheddol³⁸, a sut a phryd y gall swyddogion yr amgylchedd gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig³⁹.

C87. A ydych o'r farn y dylai'r llywodraeth roi rhagor o arweiniad i reoleiddwyr ar ddefnyddio'r hysbysiad cosb benodedig arfaethedig?

³⁸ <https://www.gov.uk/guidance/fixed-penalty-notice-issuing-and-enforcement-by-councils>

³⁹ <https://www.gov.uk/guidance/enforcement-officers-issuing-fixed-penalty-notice>

4.3. Cosbau arfaethedig ar gyfer hysbysiadau cosb benodedig mewn perthynas â dyletswydd gofal deiliaid tai

Yn y lle cyntaf, rydym yn cynnig y dylid pennu lefel y ddirwy i gyfateb â'r ddirwy sy'n gysylltiedig â hysbysiad cosb benodedig ar gyfer tipio anghyfreithlon (gweler Tabl Tabl 11).

Dylai lefel y gosb ariannol olygu y gallai'r penderfyniad i gyflogi cludwr gwastraff anawdurdodedig fod yn ddrutach i ddeiliad tŷ na chyflogi cludwr awdurdodedig, ond yn llai na chost cael ei erlyn drwy'r llys. Dengys Tabl 12 sut y gallai'r gosb ddiofyn arfaethedig gymharu â dulliau gwaredu cyfreithlon ac erlyniadau gan ddefnyddio'r data sydd ar gael a rhagdybiaethau am gostau'r llwybrau hyn.

Tabl 11 Lefel arfaethedig y gosb

Trosedd	Cosb ddiofyn	Isafswm cosb ddiofyn	Uchafswm cosb lawn	Isafswm cosb ostyngol
Methiant deiliaid eiddo domestig i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y caiff unrhyw wastraff cartref a gynhyrchir ar yr eiddo hwnnw ei drosglwyddo i berson awdurdodedig.	£200	£150	£400	£120

Tabl 12 Lefel camau atal

Senario	1 Llogi cludwr gwastraff awdurdodedig	2 Llogi cludwr gwastraff anawdurdodedig a thalu cosb benodedig	3 Llogi cludwr gwastraff anawdurdodedig ac erlyniad llys
Cost nodweddiadol	£190 ⁴⁰	£114 ⁴¹	£114 ³⁴

⁴⁰ Prisiau nodweddiadol (gan gynnwys TAW) am logi darparwr gwaredu gwastraff, ar gyfer tua 4.6 metr ciwbig o wastraff (6 llathen)

⁴¹ Yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddai cludwr gwastraff anawdurdodedig yn codi 40% yn llai na darparwr awdurdodedig

y Cludwr Gwastraff				
Cost llys/hysbysiad cosb benodedig	£0		£200	£240 ⁴² (Dirwy) + £210 (Ad-dalu costau'r Awdurdod Lleol ⁴³)
Cyfanswm y gost	£190		£314	£564

C88. A ydych o'r farn bod lefel arfaethedig y gosb a nodir yn yr hysbysiad cosb benodedig hwn yn gywir?

C89. Ar ôl cyflwyno'r hysbysiad cosb benodedig, a ydych o'r farn y dylai awdurdodau lleol ddweud pa mor aml y maent yn eu defnyddio, a'r effaith ar dipio anghyfreithlon?

Q90. A ydych o'r farn y bydd cyflwyno'r hysbysiad cosb benodedig hwn yn gosod unrhyw gostau ychwanegol ar awdurdodau lleol neu awdurdodau eraill sy'n ei roi?

C91. A ydych o'r farn y bydd cyflwyno'r hysbysiad cosb benodedig hwn yn arbed arian i awdurdodau lleol neu awdurdodau eraill sy'n ei roi?

C92. A ydych o'r farn y gallai partïon eraill heblaw awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill sy'n ei roi wynebu costau neu fanteision yn sgil cyflwyno'r hysbysiad cosb benodedig hwn?

C93. A ydych o'r farn y bydd y cynnig yn gosod costau ychwanegol arnoch chi neu'ch sefydliad?

Q94. A oes gennych unrhyw wybodaeth arall am gost neu fanteision posibl rhoi hysbysiadau cosb benodedig?

⁴² Cyfartaledd wedi'i dalgrynnu ar gyfer y dirwyon a gafwyd yn y llys ar gyfer y cyfnod 2011-2016 ar gyfer deiliaid eiddo domestig a fethodd â sicrhau eu bod wedi trosglwyddo eu gwastraff i berson awdurdodedig (Adran 34 (2A) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, gweler yma: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/43/contents>)

⁴³ Costau nodweddiadol a delir gan awdurdodau lleol i ddwyn achos tipio anghyfreithlon ar raddfa fach gerbron llys. Gweler https://www.legislation.gov.uk/ukia/2016/196/pdfs/ukia_20160196_en.pdf (tud 9)

4.4. Proses apelio

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw rwymedigaeth ar awdurdod sy'n rhoi hysbysiadau cosb benodedig i gynnig proses apelio i rywun sydd, o bosibl, am herio hysbysiad cosb benodedig⁴⁴. Pe bai rhywun yn penderfynu peidio â thalu'r gost benodedig (er enghraifft, am nad yw'n derbyn ei fod yn euog), yna byddai angen i'r awdurdod sy'n ei roi benderfynu a yw'n mynd i erlyn y person hwnnw am y weithred a arweiniodd at yr hysbysiad cosb benodedig. Os gwna hynny, yna mae'r mater yn mynd drwy'r system llysoedd troseddol. Yna, byddai'r person a erlynir yn gallu dadlau ei fod yn ddieuog gerbron y llys.

Fodd bynnag, weithiau byddai'n ddefnyddiol pe bai awdurdod sy'n rhoi hysbysiad cosb benodedig yn cynnig proses i berson herio hysbysiad cosb benodedig dyletswydd gofal deiliaid tai heb fod yn rhaid i'r ddau barti fynd i'r llys. Pan fydd yn cynnig hynny, byddai angen i broses apelio gwmpasu'r canlynol:

- sut, pryd a ble i apelio
- beth sy'n digwydd os bydd yr apêl yn llwyddo (ni chaiff unrhyw gamau gweithredu eraill eu cymryd a chaiff yr hysbysiad cosb benodedig ei ddileu)
- beth sy'n digwydd os caiff yr apêl ei gwrthod ac na fydd y troseddwr yn talu
- sut i gwyno

C95. A ydych o'r farn y dylai fod modd i awdurdodau sy'n rhoi hysbysiadau cosb benodedig gynnig proses apelio i bobl er mwyn herio hysbysiad cosb benodedig dyletswydd gofal deiliaid tai?

C96. A ydych o'r farn y byddai awdurdodau sy'n rhoi hysbysiadau cosb benodedig yn mynd i gostau ychwanegol drwy gynnig proses apelio i bobl er mwyn herio hysbysiad cosb benodedig dyletswydd gofal deiliaid tai?

C97. A ydych o'r farn bod unrhyw gamau eraill y dylai'r broses apelio eu cwmpasu?

C98. Beth yw'r ffyrdd gorau o sicrhau bod y rhai sy'n cael hysbysiad cosb benodedig yn ymwybodol o'r broses apelio os oes un ar gael?

Yn y pen draw, os na fydd awdurdod sy'n rhoi hysbysiadau cosb benodedig yn cynnig proses apelio, yna bydd proses annibynnol a thrylwyr o ymdrin â her i roi hysbysiad cosb

⁴⁴ <https://www.gov.uk/guidance/fixed-penalty-notice-issuing-and-enforcement-by-councils>

benodedig drwy'r llysoedd. Byddai'r broses hon yn dilyn yr hyn a amlinellir ar gyfer hysbysiadau cosb benodedig eraill sy'n bodoli.

C99. Pan fo awdurdod sy'n rhoi hysbysiadau cosb benodedig yn dewis peidio â chynnig proses apelio a ydych o'r farn bod darpariaeth ddigonol ar gyfer yr hawl i apelio drwy'r llysoedd?

Atodiadau

Oherwydd eu natur dechnegol, mae atodiadau ar gael yn y fersiwn Saesneg.

Atodiad 13 – Ffurflen Holi ac Ateb

Amdanoch chi

a) Beth yw eich enw?

b) Beth yw eich cyfeiriad e-bost?

c) Beth yw eich sefydliad?

d) A hoffech i'ch ymateb fod yn gyfrinachol?

a) Na hoffwn ☐

b) Hoffwn ☐

Os mai 'Hoffwn' oedd eich ateb i'r cwestiwn hwn, rhowch eich rheswm:

e) A ydych yn ymateb fel neu ar ran:

- a) unigolyn
- b) awdurdod lleol
- c) busnes
- d) math arall o sefydliad

Os mai d) oedd eich ateb, nodwch

--

f) Os ydych yn ymateb fel unigolyn:

- a) a ydych yn rhedeg eich busnes gwastraff eich hun
- b) a ydych yn gweithio i fusnes neu sefydliad yn y sector gwastraff
- c) a oes gennych ddiddordeb yn yr ymgynghoriad hwn am resymau eraill

Os mai c) oedd eich ateb, nodwch

--

g) Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fusnes, nodwch p'un a yw eich sefydliad neu'ch busnes:

- a) yn rheoli gwastraff fel prif weithgaredd
- b) yn rheoli gwastraff fel gweithgaredd eilaidd – nodwch beth yw'r prif weithgaredd
- c) yn cefnogi'r diwydiant gwastraff (e.e. corff masnach, gwasanaeth ymgynghori) – nodwch
- d) a oes ganddo ddiddordeb yn y sector gwastraff am resymau eraill – nodwch

Os mai b), c) neu d) oedd eich ateb, nodwch

h) A ydych chi, neu a yw'r busnes neu'r sefydliad rydych yn ei gynrychioli, yn cynnal gweithrediadau gwastraff o dan drwydded amgylcheddol?

a) Nac ydw/nac ydy ☐

b) Ydw/ydy ☐

Os mai Ydw/Ydy oedd eich ateb, nodwch

i) A ydych chi, neu a yw'r busnes neu'r sefydliad rydych yn ei gynrychioli, yn cynnal gweithrediadau gwastraff o dan eithriad gwastraff cofrestredig?

a) Nac ydw/nac ydy ☐

b) Ydw/ydy ☐

Os mai Ydw/Ydy oedd eich ateb, nodwch ba eithriadau:

☐ U1 ☐ U16 ☐ T4 ☐ T6 ☐ T8 ☐ T9 ☐ T12 ☐ D7 ☐ S1 ☐ S2 ☐ arall

j) A ydych chi, neu a yw'r busnes neu'r sefydliad rydych yn ei gynrychioli, yn gludydd, brocer neu ddeliwr gwastraff cofrestredig?

a) Nac ydw/nac ydy ☐

b) Ydw/ydy ☐

Os mai Ydw/Ydy oedd eich ateb, nodwch

--

k) Os ydych mewn busnes neu'n rhan o sefydliad, ble mae wedi'i leoli?

- a) Lloegr ☐
- b) Cymru ☐
- c) Rhywle arall ☐

l) Faint o staff a gyflogir gan eich busnes neu'ch sefydliad?

- a) Llai na 10 ☐
- b) 10 – 49 ☐
- c) 50 – 249 ☐
- d) 250 neu fwy ☐
- e) Rwy'n ymateb fel unigolyn ☐

Rhan A

C1. A ydych o'r farn y bydd ehangu'r diffiniad o droseddau perthnasol yn galluogi'r rheoleiddwyr i wneud penderfyniad mwy hyddysg ynghylch perfformiad blaenorol gweithredwyr?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C2. A ydych o'r farn y dylid ychwanegu Deddf Troseddau Difrifol 2015 a Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 at dabl 1?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw.

A ddylid ychwanegu troseddau mewn Deddfau Seneddol eraill at dabl 1? A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?

C3. A ydych o'r farn y dylid ei gwneud hi'n gliriach y gall rheoleiddwyr ystyried troseddau wedi'u disbyddu o dan amgylchiadau eithriadol?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C4. A ydych o'r farn y dylid trin cyrff corfforaethol yn wahanol i unigolion ac y dylai'r rheoleiddwyr allu ystyried euogfarnau cyrff corfforaethol?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C5. A ydych o'r farn y bydd sicrhau y gall y rheoleiddwyr ystyried ymddygiad gwael yn eu galluogi i wneud penderfyniad mwy hyddysg ynghylch perfformiad blaenorol gweithredwyr?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C6. A ydych o'r farn y bydd ehangu'r diffiniad o berson perthnasol yn galluogi'r rheoleiddwyr i wneud penderfyniad mwy hyddysg ynghylch perfformiad blaenorol gweithredwyr?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C7. A ydych o'r farn y byddai'n fuddiol i bob un sydd â thrwydded gwastraff weithredu'n unol â system reoli ysgrifenedig?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C8. A ydych o'r farn y bydd cynnwys gofyniad penodol yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol sy'n mynnu bod pob safle gwastraff trwyddedig yn dangos cymhwysedd technegol drwy gynllun a gymeradwywyd gan y llywodraeth yn cau'r bwlch presennol mewn cymhwysedd technegol?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C9. A ydych o'r farn y bydd cynnwys gofyniad yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol sy'n mynnu bod gweithredwyr yn rhoi gwybod i'r rheoleiddwyr pwy yw'r Rheolwr â Chymhwysedd Technegol ar eu safle gwastraff yn mynd i'r afael â'r bwlch presennol mewn cymhwysedd technegol?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C10. A ydych o'r farn y dylid diwygio'r cynlluniau cymhwysedd presennol er mwyn cynnwys proses cofrestru Rheolwyr Cymhwysedd Technegol i fynd i'r afael â'r bwlch presennol mewn cymhwysedd technegol?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C11. A oes gennych unrhyw wybodaeth am y gyfran o safleoedd gwastraff a fyddai'n cyflogi Rheolwr â Chymhwysedd Technegol, yn hytrach na hyfforddi cyflogai presennol?

A oes gennych unrhyw wybodaeth am y gyfran o safleoedd nad oes ganddynt Reolwr â Chymhwysedd Technegol ar hyn o bryd?

C12. A ydych o'r farn y bydd adroddiad annibynnol sy'n ystyried diddyledrwydd busnesau a'u risgiau yn galluogi'r rheoleiddwyr i gadarnhau y gall gweithredwyr fodloni rhwymedigaethau eu trwydded yn ariannol?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C13. Yn eich barn chi, a ddylai fod yn ofynnol i bob gweithredwr safle gwastraff wneud darpariaeth ariannol, neu weithredwyr risg uwch yn unig?

A. ☐ Pob gweithredwr safle ☐ Gweithredwyr risg uwch yn unig

C14. Pa feini prawf risg y dylid eu hystyried yn eich barn chi wrth benderfynu pa weithrediadau gwastraff a ddylai wneud darpariaeth ariannol ofynnol?

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C15. A ydych o'r farn y byddai'r sail a gynigir ar gyfer cyfrifo swm y ddarpariaeth ariannol yn ddigon?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C16. A ydych o'r farn y dylai rheoleiddwyr allu ehangu darpariaeth ariannol mewn amgylchiadau eithriadol?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C17. A ydych o'r farn y dylid lleihau lefel y ddarpariaeth ariannol ofynnol ar gyfer gwastraff sydd â gwerth adfer sylweddol y gellir ei ddangos?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C18. A ydych o'r farn ei bod yn briodol i weithredwyr gytuno ar y ffordd o wneud darpariaeth ariannol gyda'r rheoleiddiwr?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C19. A ydych o'r farn ei bod yn fuddiol cynnwys sefydliadau ariannol yn y broses o ddal a rheoli cronfeydd darpariaeth ariannol?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Beth yw'r cyfleoedd a'r risgiau? A oes gennych unrhyw sylwadau?

C20. A ydych o'r farn y dylid dod o hyd i arian amgen er mwyn talu costau rheoli safleoedd pan fydd y gweithredwr yn absennol?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Beth yw'r ffordd orau o gyflawni hyn? A oes gennych unrhyw sylwadau?

C21. A ydych o'r farn y dylai gweithredwyr safleoedd tirlenwi roi gwybod am waith presennol ac arfaethedig ar eu safle a chyflwr eu cronfa darpariaeth ariannol yn fwy rheolaidd?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes ffyrdd mwy effeithiol o atal diffygion ar gyfer cynnal a chadw ac ôl-ofal? A oes gennych unrhyw sylwadau?

C22: A ydych wedi gweld unrhyw gynnydd neu ostyngiad mewn lefelau troseddu a pherfformiad gwael yn y sector gwastraff yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf?

A. ☐ Cynnydd ☐ Gostyngiad

Beth yw eich disgwyliadau ar gyfer y dyfodol os na fydd dim byd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r mater?

C23. Yn gyffredinol, pa mor effeithiol fyddai Opsiynau 2 a 3, yn eich barn chi, fel y'u disgrifir yn yr asesiad o'r effaith, o ran mynd i'r afael â throeddau a pherfformiad gwael yn y sector gwastraff?

A. ☐ Effeithiol ☐ Aneffeithiol

Pa opsiwn sydd orau gennych?

☐ Opsiwn 1 ☐ Opsiwn 2

C24. A ydych o'r farn y bydd unrhyw un o'r cynigion yn gosod costau ychwanegol arnoch chi neu'ch sefydliad?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C25. A ydych o'r farn bod y dull dadansoddi arfaethedig yn cwmpasu'n briodol yr holl gostau a manteision a fyddai'n deillio o weithredu'r cynigion?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C26. A ydych o'r farn na ddylid cyfrif am unrhyw rai o'r costau a'r manteision a gwmpesir yn yr asesiad o'r effaith yn y broses gostio hon?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C27. A oes gennych unrhyw dystiolaeth a fyddai'n cefnogi'r cyfrifiad o fanteision neu gostau'r cynigion o ran cymhwysedd gweithredwr i fusnesau?

A oes gennych unrhyw sylwadau?

--

A ydych yn ymwybodol o unrhyw ffynonellau eraill o dystiolaeth a fyddai'n gwella'r broses gostio?

A oes gennych unrhyw sylwadau?

--

Rhan B

C28. A ydych o'r farn y byddai'r cynnig i gyfyngu ar gofrestru eithriadau gwastraff ar safleoedd gwastraff trwyddedig yn helpu i fynd i'r afael â gweithgarwch anghyfreithlon ac yn atal gweithredwyr gwastraff rhag ehangu eu gweithgarwch heb reolaethau priodol?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C29. A ydych o'r farn y dylai gweithrediadau gwastraff eithriedig sydd â chysylltiadau technegol uniongyrchol â gweithgareddau eraill a gynhelir ar safle gwastraff trwyddedig cyfagos gael eu cynnwys yn nhrwydded y gweithredwr cyfagos?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C30. A oes gennych dystiolaeth arall ynglŷn â'r defnydd o eithriadau ar safleoedd trwyddedig sy'n anghyfreithlon ar hyn o bryd?

A. A oes gennych unrhyw sylwadau?

C31. A ydych o'r farn y bydd y cynigion yn gosod costau penodol arnoch chi neu'ch sefydliad neu'n cynnig manteision i chi neu'ch sefydliad?

A. A oes gennych unrhyw sylwadau?

C32. Ar y cyfan, pa un o'r opsiynau a gynigiwyd rydych yn ei gefnogi, a pha un rydych yn ei ffafrio?

Yn cefnogi 1 ☐ 2 ☐ 3 ☐ 4 ☐ (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Yn ffafrio 1 ☐ 2 ☐ 3 ☐ 4 ☐ (Dewiswch un)

C33. A oes unrhyw eithriadau penodol na ddylai gael eu cofrestru ar yr un safle o dan opsiwn 3, yn eich barn chi?

A. A oes gennych unrhyw sylwadau?

C34. A oes gennych dystiolaeth arall ynglŷn â chofrestru eithriadau lluosog ar safleoedd unigol er mwyn cuddio gweithgareddau anghyfreithlon?

A. A oes gennych unrhyw sylwadau?

C35. A ydych o'r farn y bydd unrhyw un o'r opsiynau yn gosod costau penodol arnoch chi neu'ch sefydliad neu'n cynnig manteision i chi neu'ch sefydliad?

A. A oes gennych unrhyw sylwadau?

C36. A oes gennych dystiolaeth arall ynglŷn â'r defnydd anghyfreithlon o'r eithriad hwn ar hyn o bryd?

A. A oes gennych unrhyw sylwadau?

C37. A ydych o'r farn y bydd unrhyw un o'r opsiynau yn gosod costau penodol arnoch chi neu'ch sefydliad neu'n cynnig manteision i chi neu'ch sefydliad?

A. A oes gennych unrhyw sylwadau?

C38. Pa un o'r opsiynau a gynigiwyd ar gyfer eithriad U1 rydych yn ei gefnogi, a pha un rydych yn ei ffafrio?

Yn cefnogi 1 ☐ 2 ☐ 3 ☐ (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Yn ffafrio 1 ☐ 2 ☐ 3 ☐ (Dewiswch un)

C39. O dan Opsiwn 2, a ydych o'r farn y dylai eithriad U1 ganiatáu unrhyw fathau ychwanegol o weithgareddau adeiladu y tu hwnt i'r rhai a restrir yn Atodiad 2?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os felly, disgrifiwch y gweithgareddau, ynghyd â'r mathau o wastraff a faint sydd ei angen:

C40. O dan Opsiwn 2, a ydych o'r farn bod maint y gwastraff a ganiateir ar gyfer pob gweithgaredd adeiladu penodol yn briodol?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C41. O dan Opsiwn 2, a yw'r mathau o wastraff a restrir yn ddigon i gynnal pob gweithgaredd gwastraff penodol?

A. ☐ Ydynt ☐ Nac ydynt

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C42. A oes gennych dystiolaeth arall ynglŷn â'r defnydd anghyfreithlon o'r eithriad hwn ar hyn o bryd?

A. A oes gennych unrhyw sylwadau?

C43. A ydych o'r farn y bydd unrhyw un o'r opsiynau yn gosod costau penodol arnoch chi neu'ch sefydliad neu'n cynnig manteision i chi neu'ch sefydliad?

A. A oes gennych unrhyw sylwadau?

C44. Pa un o'r opsiynau a gynigiwyd ar gyfer eithriad U16 rydych yn ei gefnogi?

A. 1 ☐ 2 ☐ **C45. A oes gennych dystiolaeth arall ynglŷn â'r defnydd anghyfreithlon o'r eithriad hwn ar hyn o bryd?**

A. A oes gennych unrhyw sylwadau?

C46. A ydych o'r farn y bydd unrhyw un o'r opsiynau yn gosod costau penodol arnoch chi neu'ch sefydliad neu'n cynnig manteision i chi neu'ch sefydliad?

A. A oes gennych unrhyw sylwadau?

C47. Pa un o'r opsiynau a gynigiwyd ar gyfer eithriad T4 rydych yn ei gefnogi a pha un rydych yn ei ffafrio?

Yn cefnogi 1 ☐ 2 ☐ 3 ☐ (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Yn ffafrio 1 ☐ 2 ☐ 3 ☐ (Dewiswch un)

C48. A oes gennych dystiolaeth arall ynglŷn â'r defnydd anghyfreithlon o'r eithriad hwn ar hyn o bryd?

A. A oes gennych unrhyw sylwadau?

C49. A ydych o'r farn y bydd unrhyw un o'r opsiynau yn gosod costau penodol arnoch chi neu'ch sefydliad neu'n cynnig manteision i chi neu'ch sefydliad?

A. A oes gennych unrhyw sylwadau?

C50. Pa un o'r opsiynau a gynigiwyd ar gyfer eithriad T6 rydych yn ei gefnogi a pha un rydych yn ei ffafrio?

Yn cefnogi 1 ☐ 2 ☐ 3 ☐ (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Yn ffafrio 1 ☐ 2 ☐ 3 ☐ (Dewiswch un)

C51. A oes gennych dystiolaeth arall ynglŷn â'r defnydd anghyfreithlon o'r eithriad hwn ar hyn o bryd?

A. A oes gennych unrhyw sylwadau?

C52. A ydych o'r farn y bydd unrhyw un o'r opsiynau yn gosod costau penodol arnoch chi neu'ch sefydliad neu'n cynnig manteision i chi neu'ch sefydliad?

A. A oes gennych unrhyw sylwadau?

C53. Pa un o'r opsiynau a gynigiwyd ar gyfer eithriad T8 rydych yn ei gefnogi a pha un rydych yn ei ffafrio?

Yn cefnogi 1 ☐ 2 ☐ 3 ☐ (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Yn ffafrio 1 ☐ 2 ☐ 3 ☐ (Dewiswch un)

C54. A oes gennych dystiolaeth arall ynglŷn â'r defnydd anghyfreithlon o'r eithriad hwn ar hyn o bryd?

A. A oes gennych unrhyw sylwadau?

C55. A ydych o'r farn y bydd unrhyw un o'r opsiynau yn gosod costau penodol arnoch chi neu'ch sefydliad neu'n cynnig manteision i chi neu'ch sefydliad?

A. A oes gennych unrhyw sylwadau?

C56. Pa un o'r opsiynau a gynigiwyd ar gyfer eithriad T9 rydych yn ei gefnogi a pha un rydych yn ei ffafrio?

Yn cefnogi 1 ☐ 2 ☐ 3 ☐ (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Yn ffafrio 1 ☐ 2 ☐ 3 ☐ (Dewiswch un)

C57. A oes gennych dystiolaeth arall ynglŷn â'r defnydd anghyfreithlon o'r eithriad hwn ar hyn o bryd?

A. A oes gennych unrhyw sylwadau?

C58. A ydych o'r farn y bydd unrhyw un o'r opsiynau yn gosod costau penodol arnoch chi neu'ch sefydliad neu'n cynnig manteision i chi neu'ch sefydliad?

A. A oes gennych unrhyw sylwadau?

C59: Pa un o'r opsiynau a gynigiwyd ar gyfer eithriad T12 rydych yn ei gefnogi a pha un rydych yn ei ffafrio?

Yn cefnogi 1 ☐ 2 ☐ 3 ☐ (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Yn ffafrio 1 ☐ 2 ☐ 3 ☐ (Dewiswch un)

C60. A oes gennych dystiolaeth arall ynglŷn â'r defnydd anghyfreithlon o'r eithriad hwn ar hyn o bryd?

A. A oes gennych unrhyw sylwadau?

C61. A ydych o'r farn y bydd unrhyw un o'r opsiynau yn gosod costau penodol arnoch chi neu'ch sefydliad neu'n cynnig manteision i chi neu'ch sefydliad?

A. A oes gennych unrhyw sylwadau?

C62. Pa un o'r opsiynau a gynigiwyd ar gyfer eithriad D7 rydych yn ei gefnogi, a pha un rydych yn ei ffafrio?

Yn cefnogi 1 ☐ 2 ☐ (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Yn ffafrio 1 ☐ 2 ☐ (Dewiswch un)

C63. A oes gennych dystiolaeth arall ynglŷn â'r defnydd anghyfreithlon o'r eithriad hwn ar hyn o bryd?

A. A oes gennych unrhyw sylwadau?

C64. A ydych o'r farn y bydd unrhyw un o'r opsiynau yn gosod costau penodol arnoch chi neu'ch sefydliad neu'n cynnig manteision i chi neu'ch sefydliad?

A. A oes gennych unrhyw sylwadau?

C65. Pa un o'r opsiynau a gynigiwyd ar gyfer eithriadau S1 a S2 rydych yn ei gefnogi a pha un rydych yn ei ffafrio?

Yn cefnogi 1 ☐ 2 ☐ (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Yn ffafrio 1 ☐ 2 ☐ (Dewiswch un)

C66: A ydych o'r farn y byddai'r cynnig i rannu'r eithriadau S1 a S2 presennol yn chwe eithriad newydd fel y nodir yn Atodiad 9 yn helpu i esbonio diben yr eithriadau a gwneud yr amodau'n gliriach?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C67. A ydych o'r farn y dylai fod yn ofynnol i weithredwyr gadw cofnodion o'r gweithgareddau a gynhaliwyd o dan unrhyw eithriad a threfnu eu bod ar gael i'r rheoleiddiwr?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C68. A ddylai fod yn ofynnol i weithredwyr gadw'r cofnodion gofynnol mewn fformat electronig a/neu mewn system a nodir gan y rheoleiddiwr?

A. ☐ Dylai ☐ Na ddylai

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C69. A ydych o'r farn y dylai'r rheoleiddiwr allu gosod gofynion gwybodaeth ychwanegol ar gyfer eithriadau unigol fesul achos wrth gofrestru, yn barhaus neu ar ddiwedd y gweithrediad er mwyn mynd i'r afael â chydymffurfiaeth wael?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C70. A ydych o'r farn y dylai unrhyw ofynion gwybodaeth ychwanegol gael eu gosod ar unwaith, yn arbennig o ran y 10 eithriad sy'n achosi pryder a ddisgrifir yn adran 4.2?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C71. A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella'r gwasanaeth cofrestru eithriadau ymhellach?

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C72. A ydych yn cefnogi'r newidiadau i'r codau gwastraff a nodir yn Atodiad 10?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C73. Os newidiwn amodau'r eithriadau sy'n achosi pryder, a fyddech yn cefnogi cysoni amodau'r eithriadau a gynigir yn Atodiad 11?

A. ☐ Byddwn☐ Na fyddwn

A oes gennych unrhyw sylwadau?

Ar gyfer eithriadau U8 ac U9 a restrir yn Atodiad 11 (Tabl 1), pa amodau newydd, wedi'u cysoni y dylid eu cyflwyno, yn eich barn chi?

Ar gyfer eithriadau U8, U9, T1 a T2 a restrir yn Atodiad 11 (Tabl 2), pa amodau newydd, wedi'u cysoni y dylid eu cyflwyno, yn eich barn chi?

Ar gyfer eithriadau U8 ac U9 a restrir yn Atodiad 11 (Tabl 3), pa amodau newydd, wedi'u cysoni y dylid eu cyflwyno, yn eich barn chi?

C74. A ydych o'r farn bod rheolau safonol y deg eithriad a nodir yn Atodiad 12 yn ddigon? A oes angen rheolau safonol newydd hefyd?

A. ☐ Yn ddigon ☐ Angen rheolau safonol newydd

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C75. A ydych o'r farn bod yr amserlenni arfaethedig ar gyfer newid y drefn eithriadau yn ddigonol?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C76. A ydych wedi gweld unrhyw gynnydd neu ostyngiad mewn lefelau troseddu a pherfformiad gwael yn y sector gwastraff yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf?

A. ☐ Cynnydd ☐ Gostyngiad

Beth yw eich disgwyliadau ar gyfer y dyfodol os na fydd dim byd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r mater?

C77. Yn gyffredinol, pa mor effeithiol fyddai Opsiynau 2 a 3, yn eich barn chi, fel y'u disgrifir yn yr asesiad o'r effaith, o ran mynd i'r afael â throseddau a pherfformiad gwael yn y sector gwastraff?

A. ☐ Effeithiol ☐ Aneffeithiol

Pa opsiwn sydd orau gennych?

C78. A ydych o'r farn y bydd unrhyw un o'r cynigion yn gosod costau ychwanegol arnoch chi neu'ch sefydliad?

A. o Ydw o Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C79. A ydych o'r farn bod y dull dadansoddi arfaethedig yn cwmpasu'n briodol yr holl gostau a manteision a fyddai'n deillio o weithredu'r cynigion?

A. o Ydw o Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C80. A ydych o'r farn na ddylid cyfrif am unrhyw rai o'r costau a'r manteision a gwmpesir yn yr asesiad o'r effaith yn y broses gostio hon?

A. o Ydw o Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C81. A oes gennych unrhyw dystiolaeth a fyddai'n cefnogi'r cyfrifiad o fanteision neu gostau'r cynigion eithriadau i fusnesau?

A oes gennych unrhyw sylwadau?

A ydych yn ymwybodol o unrhyw ffynonellau eraill o dystiolaeth a fyddai'n gwella'r broses gostio, gan gynnwys ar gyfer y cynigion nas cwmpesir yn yr asesiad presennol o'r effaith?

A oes gennych unrhyw sylwadau?

Rhan C

C82. A ydych o'r farn bod deiliaid tai yn ddigon ymwybodol o'u dyletswyddau a'r risg o gael eu herlyn am drosglwyddo eu gwastraff i berson anawdurdodedig?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C83. Pa gamau y gellid eu cymryd i wella ymwybyddiaeth deiliaid tai o'u dyletswydd gofal ac atal tipio gwastraff cartref yn anghyfreithlon?

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C84. A ydych o'r farn bod y Cod Ymarfer ar y Ddyletswydd Gofal o ran Gwastraff yn rhoi digon o arweiniad ar gamau rhesymol y gellir eu cymryd i gyflawni gofal dyletswydd deiliaid tai?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C85. A ydych o'r farn bod camau rhesymol eraill i gyflawni dyletswydd gofal deiliaid tai y dylid eu nodi mewn canllawiau i ddeiliaid tai?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C86. A ydych o'r farn y byddai cyflwyno hysbysiad cosb benodedig i'w roi i ddeiliad tŷ am gyflawni trosedd drwy drosglwyddo ei wastraff i berson anawdurdodedig yn helpu i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C87. A ydych o'r farn y dylai'r llywodraeth roi rhagor o arweiniad i reoleiddwyr ar ddefnyddio'r hysbysiad cosb benodedig arfaethedig?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C88. A ydych o'r farn bod lefel arfaethedig y gosb a nodir yn yr hysbysiad cosb benodedig hwn yn gywir?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C89. Ar ôl cyflwyno'r hysbysiad cosb benodedig, a ydych o'r farn y dylai awdurdodau lleol ddweud pa mor aml y maent yn eu defnyddio, a'r effaith ar dipio anghyfreithlon?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

Q90. A ydych o'r farn y bydd cyflwyno'r hysbysiad cosb benodedig hwn yn gosod unrhyw gostau ychwanegol ar awdurdodau lleol neu awdurdodau eraill sy'n ei roi?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C91. A ydych o'r farn y bydd cyflwyno'r hysbysiad cosb benodedig hwn yn arbed arian i awdurdodau lleol neu awdurdodau eraill sy'n ei roi?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C92. A ydych o'r farn y gallai partiïon eraill heblaw awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill sy'n ei roi wynebu costau neu fanteision yn sgil cyflwyno'r hysbysiad cosb benodedig hwn?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C93. A ydych o'r farn y bydd y cynnig yn gosod costau ychwanegol arnoch chi neu'ch sefydliad?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

Q94. A oes gennych unrhyw wybodaeth arall am gost neu fanteision posibl rhoi hysbysiadau cosb benodedig?

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C95. A ydych o'r farn y dylai fod modd i awdurdodau sy'n rhoi hysbysiadau cosb benodedig gynnig proses apelio i bobl er mwyn herio hysbysiad cosb benodedig dyletswydd gofal deiliaid tai?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C96. A ydych o'r farn y byddai awdurdodau sy'n rhoi hysbysiadau cosb benodedig yn mynd i gostau ychwanegol drwy gynnig proses apelio i bobl er mwyn herio hysbysiad cosb benodedig dyletswydd gofal deiliaid tai?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C97. A ydych o'r farn bod unrhyw gamau eraill y dylai'r broses apelio eu cwmpasu?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C98. Beth yw'r ffyrdd gorau o sicrhau bod y rhai sy'n cael hysbysiad cosb benodedig yn ymwybodol o'r broses apelio os oes un ar gael?

A oes gennych unrhyw sylwadau?

C99. Pan fo awdurdod sy'n rhoi hysbysiadau cosb benodedig yn dewis peidio â chynnig proses apelio a ydych o'r farn bod darpariaeth ddigonol ar gyfer yr hawl i apelio drwy'r llysoedd?

A. ☐ Ydw ☐ Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau?